

**DATGANIAD GRŴP CYFRIFON  
COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU  
2022 – 2023**

## Tabl o'r Cynnwys

Adroddiad Naratif .....	3
Datganiad o'r Cyfrifoldebau ar gyfer y Grŵp Datganiad Cyfrifon.....	21
Grŵp Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2022-2023 .....	22
Grŵp Dadansoddiad o Wariant a Chyllid Grŵp 2021-2022.....	23
Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant y Grŵp.....	24
Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp.....	25
Mantolen Grŵp.....	26
Datganiad Llif Arian Grŵp.....	27
Nodiadau i Ddatganiad Cyfrifon y Grŵp.....	28
Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu.....	66
Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu y Grŵp.....	67
Geirfa.....	83
Datganiad Llywodraethu Blyneddol 2022-2023 .....	86
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.....	113
Crynodeb o Wariant a Chyllid Cyfalaf 2022-2023 .....	117

## Adroddiad Naratif

### Cyfrifon Grŵp – Adroddiad Naratif gan y Prif Swyddog Cyllid, Kate Jackson

#### CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Naratif hwn yn rhoi sylwebaeth ynghylch sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio gan y sefydliad er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae'n atebol i graffu annibynnol gan ein harchwilwyr allanol penodedig a'n nod ni ydy creu adroddiad sy'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


I'r perwyl hwnnw, mae'r Adroddiad Naratif yn dechrau drwy egluro cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ceir adrannau ar Flaenoriaethau Strategol, Cyflawniad Gweithredol ac Ariannol, y Dyfodol a chynnwys pwysig yn ymwneud â'r prif Ddatganiad Cyfrifon sydd yna'n dilyn o fewn yr adroddiad hwn.

#### LLYWODRAETHU A CHYFRIFOLDEBAU

Gwnaeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 gyflwyno rôl Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr gyda'r strwythur newydd ar waith yn 2012-2013.

O ran egwyddor, gwnaeth y Ddeddf sefydlu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fel corfforaethau undyn, gyda'r ddau'n endidau cyfreithiol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, llunio cytundebau a chymryd rhan mewn achosion cyfreithiol. Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw sicrhau bod yr heddlu yn effeithiol ac yn effeithlon a bydd yn comisiynu'r Prif Gwnstabl i wneud hyn. Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Paneli'r Heddlu a Throsedd ar gyfer pob ardal blismona sydd yn gyfrifol am ddal y Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Yn ymarferol, mae'n ofynnol i'r corfforaethau undyn baratoi eu Datganiad o Gyfrifon statudol endid sengl ar wahân, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol a'r Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynhyrchu set o Gyfrifon Grŵp. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei nodi fel y sefydliad daliannol ac ystyrir y Prif Gwnstabl yn endid sydd yn eiddo'n llawn i'r sefydliad daliannol. Mae adolygiad manylach o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ar ffurf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ond nodir natur strwythur y grŵp yn y ddeddfwriaeth. Mae'r gwaith o baratoi cyfrifon y grŵp yn unol ag arfer cyfrifyddu statudol.



Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022-2023 yn rhoi darlun o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023 a chrynodeb o'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023.

#### ADOLYGIAD PARTNERIAETHAU STRATEGOL GOGLEDD CYMRU

Ystyrir Gogledd Cymru yn un o'r llefydd mwyaf prydferth i fyw ac ymweld yn y DU.


Gyda phoblogaeth o dros 700,000, mae ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cwmpasu ardal o 6,300 cilomedr sgwâr sy'n ymestyn o Bronington yn y dwyrain i Aberdaron yn y gorllewin ac o Fae Cemaes yn y gogledd i Aberdyfi yn y de.

Mae ardal yr Heddlu yn cwmpasu chwe sir ddaearyddol Gogledd Cymru, sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chan Wasanaeth ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ymddiriedolaeth Prawf Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig gan gynnwys tair dinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd o bwys (Caergybi ym Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), rhanbarthau diwydiannol sy'n ehangu a nifer o drefi prysur, llawer ohonynt yn denu nifer fawr o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.

Etholwyd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Andy Dunbobbin ym mis Mai 2021. Diwygiodd y CHTh y Cynllun Heddlu a Throsedd a gosod blaenoriaethau fel y crynhoir isod. Mae'r cynllun llawn ar gael ar wefan y CHTh.



Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ffactor arwyddocaol mewn digwyddiadau ers mis Ionawr 2020, er fe wnaeth effaith y pandemig ar blismona o ddydd i ddydd leihau yn 2022-23. Fodd bynnag, fel rhan o'r cynllun ymateb COVID, parhaodd pum canolbwynt pellach a amlinellwyd er mwyn ymdrin â'r argyfwng yn gynnar yn 2020-2021 yn berthnasol yn 2022-2023. Y rhain oedd:

1. Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl adnoddau digonol er mwyn ymateb i'r argyfwng
2. Sicrhau, ar ran ein cymunedau, bod yr heddlu yn ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, digonol, cymesur ac yn foesol (yn dwyn i gyfrif)
3. Hwyluso partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau yn gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
4. Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd, gan gynnig grantiau at ddibenion plismona a lleihau niwed
5. Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei warchod drwy fonitro cynllun a gweithgarwch adfer y sefydliad y tu hwnt i argyfwng Covid-19.

Gyda'r blaenoriaethu cyffredinol wedi eu gosod gan y Comisiynydd, bydd Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn gosod gweithrediadau penodol Heddlu Gogledd Cymru i gyflenwi'r blaenoriaethau hyn. O bwys yw'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â nhw.

Mae holl feysydd blaenoriaeth yn peri problemau sydd tu hwnt i blismona a gellir ond cyflwyno ymateb effeithiol mewn partneriaeth. Adlewyrchir hyn yn y graffeg isod:



Amlinellir 'cynllun ar dudalen' y Prif Gwnstabl ar gyfer 2022-2023 isod:

## OUR VISION -

Making North Wales the **safest** place in the UK

HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE

PRIORITIES

PREVENT CRIME	PURSUE OFFENDERS	PROTECT THE PUBLIC
---------------	------------------	--------------------

OUR FOCUS - How we deliver:

<div style="background-color: white; color: #0056b3; padding: 2px; font-weight: bold;">PEOPLE</div>	<div style="background-color: white; color: #0056b3; padding: 2px; font-weight: bold;">PREVENTION</div>	<div style="background-color: white; color: #0056b3; padding: 2px; font-weight: bold;">INNOVATION</div>
<p style="margin: 0;">Representative with great wellbeing and development</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Attract a talented workforce which is representative of our communities</li> <li>Provide an outstanding wellbeing offer</li> <li>Support people to reach their full potential</li> </ul>	<p style="margin: 0;">Adopt a preventative mindset across the whole organisation</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Problem solve issues with our partners</li> <li>Continue to develop our early intervention approach with our partner</li> <li>Work with partners to prevent re offending</li> </ul>	<p style="margin: 0;">Create an environment that supports innovation in our workplace</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Maximise opportunities through digital and agility to allow our people to work effectively</li> <li>Improve accessibility for our communities</li> <li>Use data to help us to adapt to the changing demands our organisation faces</li> </ul>

VALUE FOR MONEY - Efficient and effective use of resources

OUR EXPECTATIONS

<p style="margin: 0;">One Team Approach</p>	<p style="margin: 0;">Victims First at the Heart of What We Do</p>	<p style="margin: 0;">Do the Right Thing</p>
---	--	--

WE ARE NORTH WALES POLICE

Yn ystod y flwyddyn, o ystyried dyfodiad y Prif Gwnstabl newydd ar ddiwedd mis Hydref 2022, datblygodd y cynllun ar ddalen. Cafwyd canlyniadau allweddol ffofws yr heddlu sef:

- Cynyddu ymddiriedaeth, hyder a chyfreithlondeb
- Darparu cyflawni gwasanaeth gwych a
- Bod yn addas ar gyfer y dyfodol

### CYFLAWNIAD GWEITHREDOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawniad ariannol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried amcanion a chyflawniad allweddol a osodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2021-2024. Datblygwyd y blaenoriaethau yn y cynllun mewn ymateb i'r meysydd sy'n wynebu'r bygythiad, risg a'r niwed mwyaf yng Ngogledd Cymru yn dilyn proses ymgynghori helaeth. Er gwaethaf yr amgylchiadau unigryw a wynebodd yr heddlu oherwydd pandemig Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

Covid-19, parhaodd yr heddlu ganolbwyntio ar werth am arian wrth iddo ddilyn ei ymdriniaeth ehangach tuag at gyflawni gwasanaeth.

### **Gweledigaeth a Blaenoriaethau 2022-2023**

Parhaodd gweledigaeth Heddlu Gogledd Cymru yn 2022-2023 yw "Gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU", er mae Prif Gwnstabl newydd ym mis Hydref 2022 wedi arwain at ddatblygu'r weledigaeth hon sef "Gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU i fyw, gweithio ac ymweld."

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, cafodd y meysydd blaenoriaeth canlynol eu nodi. Mae'r chwe maes cyntaf wedi'u cynnwys hefyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y CHTH 2021-24. Cafwyd blaenoriaeth CHTH ychwanegol er mwyn ymdrin ac atal trosedd casineb fel rhan o faes blaenoriaeth Trosedd Effaith Fawr yr heddlu.

- Troseddau Seiber
- Troseddau Cefn Gwlad
- Cam-drin Domestig
- Cam-drin Rhywiol
- Camfanteisio ar Bobl Fregus
- Diogelwch Ffyrdd
- Trosedd Effaith Mawr gan gynnwys Trais Difrifol
- Trais yn Erbyn Merched a Genethod (VAWG)
- Troseddau Trefnedig a Difrifol
- Plismona Ataliol
- Trin Cysylltiadau ac Ymateb

### **Galw**

Chafwyd dim cyfnodau clo neu gyfyngiadau COVID19 yn 2022-2023. Fodd bynnag, y prif feysydd galw oedd:

- Gwelwyd gostyngiad o 6% mewn troseddau hysbys cofnodedig yn 2022-2023 dros y flwyddyn ariannol flaenorol. Er, fe wnaeth barhau 6% uwchben lefelau cyn COVID fel y gwelwyd yn 2019-2020. Mae cyfran sylweddol o'r trosedd cofnodedig cynyddol dros lefelau 2019-2020 wedi bod oherwydd cynnydd mewn troseddau Stelcio ac Aflonyddu, yn dilyn pwyslais ar arferion cofnodi effeithiol.
- Mae'r nifer o droeddau cam-drin domestig wedi gostwng 6% yn y flwyddyn ddiwethaf, wrth fod yn sylweddol uwch (+25%) o hyd na chyn COVID. Mae troseddau stelcio ac aflonyddu domestig wedi gostwng o'i gymharu â 2021-2022 ond mae'n parhau'n uwch na chyn COVID.
- Mae Troseddau Casineb a VAWG wedi gostwng hefyd dros y flwyddyn ariannol flaenorol.
- Cofnodwyd lefel galw debyg oherwydd troseddau rhywiol o'i gymharu â 2021-2022.
- Parhaodd y patrwm ar i lawr yn y tymor hirach mewn Byrgleriaethau Preswyl yn 2022-2023. Roedd troseddau cofnodedig 9% islaw'r flwyddyn ariannol flaenorol, a 39% yn is nac yn 2019-2020.
- Mae gan ddata dangosol troseddau cofnodedig yr heddlu yng Nghymru a Lloegr hyd at fis Chwefror 2023 leiafrif o heddluoedd yn cofnodi gostyngiadau bob blwyddyn mewn troseddau cofnodedig.
- Cynyddodd galw o ran galwadau 999 hefyd ac mae wedi parhau ar lefel uwch.
- Mae cyswllt ffôn difrys wedi gostwng o'i gymharu â'r cyfnod cyn COVID, hefo mwy o gyswllt difrys yn dod drwy ddulliau digidol fel sgwrs we ac e-bost.
- Parhaodd digwyddiadau trafndiaeth ar lefel debyg i flynyddoedd blaenorol, gan eithrio'r nifer gostyngol yn 2020-2021 oherwydd y cyfyngiadau clo.
- Gwelwyd cynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ffordd angheuol yn 2022-2023, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chyfanswm 2019-2020. Cymhellwyd y lefel gynyddol yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf gan nifer anarferol o uchel a gofnodwyd ym mis Ebrill, hefo'r nifer ar draws gweddill y flwyddyn yn unol â blynyddoedd ariannol blaenorol.

### **Mesurau Cyflawniad Cenedlaethol**

Yn ystod 2021-2022 gwnaeth y Swyddfa Gartref gyflwyno cyfres o fesurau cyflawniad cenedlaethol o ran yr hyn maent yn dwyn y Gwasanaeth Heddlu yn atebol amdanynt. Mae'r mesurau'n cynnwys dynladdiad, troseddau cyffuriau, troseddau seiber, cam-drin domestig a throseddau cymdogaethau. Y bwriad ydy gostyngiad yn y mesurau hyn fel y sylfaen cyn Covid Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

ym mis Gorffennaf 2019. Rheolir cyflawniad drwy gyfres o gyfarfodydd o fewn y Swyddfa Gartref sy'n cynnwys y Gweinidog Plismona a'r Ysgrifennydd Cartref. Hysbysir y cyhoedd am y mesurau gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae data heddluoedd o ran y mesurau cyflawni cenedlaethol hyn fod ar gael i aelodau'r cyhoedd yn ystod 2023-2024 yn fwy hygyrch. Ceir hyn drwy'r Pecyn Troseddau a Chyflawniad Digidol cyhoeddus.

### **Diogelwch a hyder cyhoeddus**

Cynhaliwyd yr arolwg hyder cyhoeddus ddechrau 2023 ac roedd yn cynnwys cwestiynau am ddirnadaeth y cyhoedd am blismona a lefelau hyder.

- Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor hyderus ydynt yn Heddlu Gogledd Cymru yn gyffredinol. Gwnaeth 86% o ymatebwyr fynegi hyder yn yr heddlu, gydag ychydig dros chwarter (29%) yn hyderus yn Heddlu Gogledd Cymru. Er yn uchel o hyd, mae dirnadaethau wedi gostwng ers 2020 o ran yr hyder sydd gan ymatebwyr yn Heddlu Gogledd Cymru yn gyffredinol (86% o'i gymharu â 93%).
- Mae naw allan o ddeg o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel rhag trosedd ac anrhefn yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae pedwar allan o bump o ymatebwyr yn teimlo hefyd fod Gogledd Cymru yn fwy diogel o'i gymharu ag ardaloedd eraill o amgylch y DU. Mae'r ddau yn debyg o'i gymharu ag arolwg 2020.
- Cytunodd naw allan o ddeg o ymatebwyr eu bod yn cael eu parchu gan yr heddlu pan maent mewn unrhyw gyswllt â nhw, y lefel uchaf o gytuno o ran dirnadaethau'r heddlu.
- Cytunodd dros 74% hefyd eu bod yn trin pawb yn gyfartal, pwy bynnag ydynt.
- Mae dirnadaethau ar eu hisaf, fodd bynnag, ynghylch trin mân droseddau, lle mae ond 58% yn cytuno y gellir dibynnu ar yr heddlu i ymdrin â nhw. Mae 61% hefyd yn cytuno fod yr heddlu'n ymdrin â phethau sydd o bwys yn y gymuned. Cytunodd 63% y gellir dibynnu arnyn nhw pan mae angen.

Mae galw sylweddol, a gwahanol iawn ar adegau, ar y gwasanaeth heddlu dros y blynyddoedd diwethaf (gan gynnwys o dan gyfyngiadau COVID), ynghyd ag ymdrin, gan blismona o dan gyfyngiadau COVID yn ogystal ag ymdrin â'r bygythiadau mewn troseddau terfysgaeth, camfanteisio rhywiol a throseddau seiber. Oherwydd etholiadau'r CHTh ym mis Mai 2021 yn arwain at CHTh newydd i Ogledd Cymru, cyhoeddwyd Cynllun Heddlu a Throsedd y CHTh newydd hanner ffordd drwy'r flwyddyn ym mis Mai 2021. O ganlyniad, adolygwyd a mabwysiadwyd blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Arweiniodd hyn at ychwanegu blaenoriaethau ar gyfer Troseddau Cefn Gwlad a Throseddau Seiber. Ar ben hyn, cyflwynwyd blaenoriaeth Trais yn Erbyn Merched a Genethod gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn creu Adroddiad Blynyddol i fanylu cyflawniad ar gyfer y flwyddyn a geir [yma](#).

### **RISG CORFFORAETHOL**

Mae Fframwaith Rheoli Risg ar y Cyd yn cael ei rannu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl er mwyn nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau a wynebwr gan y sefydliadau priodol. Mae'r fframwaith yn diffinio'r camau sy'n ofynnol er mwyn cael y ddealltwriaeth angenrheidiol er mwyn cynorthwyo penderfyniadau effeithiol.

O dan y gwaith o graffu gan y Cydbwyllgor Archwilio, mae'r Heddlu wedi datblygu ei fframwaith rheoli risg dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cofrestrau risg corfforaethol wedi olrhain dyfodiad risgiau newydd, trin a dileu risgiau presennol ac unrhyw newidiadau yn y lefel risg sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r fframwaith rheoli risg ei hun hefyd wedi bod yn destun adolygiad blynyddol a oedd yn cynnwys datblygu datganiad Parodrwydd Risg yr Heddlu.

Roedd risgiau a materion a oedd yn destun craffu drwy'r cydbwyllgor archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Datganiad Rheoli'r Heddlu; Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio; agweddau Technoleg Digidol a Gwybodaeth amrywiol; Strategaeth Gyfathrebu; Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig a'r Rhwydwaith Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig; Denu Staff a chadernid TGCh.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd a chraffwyd Risg Ariannol hefyd gan y Cydbwyllgor Archwilio. Roedd hyn o safbwynt sicrhau fod digon o adnoddau ariannol er mwyn cyflawni'r gwasanaethau priodol i'n cymuned ni ond hefyd o safbwynt sicrhau fod yr Heddlu'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid oedd ar gael, yn rheoli a chyfyngu unrhyw amrywiadau a cheisio sicrhau cyflawni Gwerth am Arian. Ystyriaeth allweddol i'r Heddlu wrth reoli ei risg ariannol ydy dal y ddysgl yn wastad rhwng cynorthwyo'r CHTh gadw cynnydd yn y praesept i lawr ar gyfer teuluoedd lleol wrth hefyd sicrhau fod gan yr heddlu'r

cyllid mae ei angen er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gweithredol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cronfeydd refeniw wrth gefn yr Heddlu wedi cynyddu'n sylweddol (£18.2m). Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariant o ran ei gyllid gan ei fod wedi edrych ar recriwtio'r swyddogion a'r staff mae ei angen er mwyn manteisio ar ei ddyraniadau cyllid Uplift. Tra mae'r cynnydd hwn mewn cronfeydd wrth gefn yn gadarnhaol o ran sefyllfa'r heddlu wrth ymdrin â digwyddiadau ariannol annisgwyl yn y dyfodol mewn cyfnod ansicr, mae'n bwysig ystyried hyn wrth osod cyllidebau'r dyfodol. Mae'n cael ei gydnabod na ddylai tanwariant mawr o'r fath fod yr arfer. Edrychir ar y materion hyn ymhellach yn yr adran Cyflawniad Ariannol sy'n dilyn. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r tanwariant ddigwyddodd o ran y cyllidebau Refeniw a Chyfalaf yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

## **CYFLAWNIAD ARIANNOL**

### **Cyllideb 2022-2023**

Gweithredodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda Chyllideb Refeniw Net o £182.268m ar gyfer 2022-2023, a gytunwyd yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Panel Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2022. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 5.14% yn y gyllideb refeniw sylfaenol o'r flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n cynnwys:

- Cynnydd mewn praeseptau o 4.65%
- Cynnydd o 5.65% yng nghyllid y Llywodraeth, a oedd i gyd wedi'i gyfeirio at gynyddu nifer swyddogion drwy Ymgyrch Uplift.

Paratôdd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad ac adroddiad ar gyfer y panel yn amlinellu'r cynnig praesept a oedd yn destun craffu yn y cyfarfod. Cymeradwywyd y cynnig praesept yn unfrydol.

Cafodd y cynnydd yn Grantiau'r Llywodraeth ei gyfeirio at recriwtio, hyfforddi, seilwaith a thâl am 82 o Swyddogion Heddlu ychwanegol (Ymgyrch Uplift) yn 2022-2023 i'w ddefnyddio er mwyn ariannu costau Uplift yn y dyfodol. Bodlonwyd y cynnydd i gyd sef 206 o swyddogion ychwanegol ym mis Mawrth 2023. O 1 Ebrill, cedwir y ffigur sefydliad uwch hwn. Dyrannwyd y cyllid ychwanegol ar gyfer y swyddogion hyn gan y Swyddfa Gartref yn 2022-2023. Ni oedd posib ymroi hyn i gostau rheolaidd eraill gan y bydd ei angen er mwyn ariannu'r sefydliad cynyddol. Arweiniodd hyn at danwariant cyffredinol yn y maes hwn ar gyfer 2022-23.

### **Alldro Refeniw Net 2022-2023 a Throsglwyddo Net i Gronfeydd wrth Gefn**

Defnyddiodd y cynnig praesept a gytunwyd ar 31 Ionawr 2022 dybiaethau realistig a ystyriwyd yn briodol ar sail y wybodaeth ar gael ar y pryd. Nodwyd hyn yn yr arolwg HMICFRS yn ystod y flwyddyn. Ystyriodd hyn gyllid a ddisgwylid gan ffynonellau oni bai am y praesept a'r cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Ystyriwyd mantolen yr Heddlu o ran ei Chronfeydd wrth Gefn (a gryfhaodd ymhellach oherwydd tanwariant yn y chwarter olaf hyd at 31 Mawrth 2022). Wrth osod y gyllideb a'r cynnig praesept cysylltiedig, ystyrir ansicrwydd hefyd ac a oes angen cyllidebau wrth gefn. Wedi'u dal yn ganolog gan Gyllid Corfforaethol, y dybiaeth ar gyfer 2022-23 oedd cynnwys cyllideb wrth gefn o £0.4m ar gyfer Digwyddiadau Difrifol Gweithredol a £0.4m arall ar gyfer Arian wrth Gefn Arall a Chwyddiant er mwyn darparu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sy'n digwydd dros y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cyfateb i 0.4% o'r gyllideb gyffredinol. Gyda'r bwriad o gadw'r gyllideb wrth gefn flynyddol i leiafswm, mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu defnyddio hefyd gan yr Heddlu er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau neu alwadau newidiol. Ynghyd â'r gyllideb wrth gefn ganolog, mae hyn yn disodli'r angen o greu cynlluniau wrth gefn i bob cyllideb unigol.

Bydd amrywiadau o ran y gyllideb yn digwydd mewn unrhyw amgylchfyd dynamig. Fel y dywedir yn rhan risg ariannol yr adroddiad hwn, roedd y lefel o danwario refeniw yn 2022-23 (tra deallid hyn yn dda, ac is nac yn 2021-2022) yn uwch na'r disgwyl arferol. Fodd bynnag, roedd chwyddiant tâl a dim tâl yn hynod gyfnewidiol yn 2022-23. Roedd angen monitro a rheoli agos yn ystod y flwyddyn er mwyn cynorthwyo lleihau'r effaith lle'r oedd yn bosibl.

Roedd y tanwario cyffredinol yn cael ei gymell yn bennaf gan y cyfnod recriwtio Uplift olaf. Cafodd ei nodi a'i fesur o chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Roedd gallu timau recriwtio a hyfforddi'r Heddlu yn golygu fod swyddogion yn dod i'r heddlu mewn 4 cyfran eithaf cyfartal. Roedd gwariant gweithredu net presennol ar gyfer 2022-2023 yn alldro o £175.142m gan arwain at drosglwyddiad net o £7.125m i gronfeydd refeniw Grŵp, sef 3.9% o'r Gyllideb Refeniw Net o £182.268m. Gan fod yn tanwario'n hysbys yn ystod y broses gynllunio, gwnaed £6m o ymrwymadau ychwanegol fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a reolodd y risg o gostau a chyfnewidioldeb yn y marchnadoedd ynni yn y dyfodol. Cyfanswm y trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn ydy £7.125m, a ddyrannwyd fel isod:



	<b>£m</b>
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	6.530
Cydweithrediadau Rhanbarthol a Chenedlaethol	0.481
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	<u>0.114</u>
<b>Trosglwyddo Net i Gronfeydd Wrth Gefn y Grŵp</b>	<b><u>7.125</u></b>

Mae'r symudiad net cyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (gan gynnwys y partneriaethau cenedlaethol a lleol mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu fel heddlu cartref iddynt) wedi'i grynhoi isod:

	£m	£m
<b>Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2022</b>		<b>34.481</b>
Symudiadau Arfaethedig	1.325	
Defnydd cymwys o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	-0.973	
Symiau ychwanegol a glustnodwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig	6.000	
Symudiadau eraill diwedd blwyddyn terfynol	0.092	
Partneriaethau a Chydweithrediadau	0.481	
Cronfeydd SCHTh wrth Gefn	0.086	
<b>Symudiad Net</b>		<b>7.011</b>
<b>Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2023</b>		<b>41.492</b>

Cyd-destun pellach ar gyfer y symudiad net wrth gefn a glustnodwyd o £7.011m oedd:


- £1.325m yn symudiad net arfaethedig ac ymrwymedig o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sy'n cynnwys cyfraniadau i'r cronfeydd Uplift (£0.216m) a Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) wrth gefn (£1.350m) a defnydd arfaethedig PFI (-£0.241m).
- £0.973m y defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sef y Gronfa Cynnal a Chadw Stadau wrth Gefn (£0.463m) a'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn (£0.510m).
- £6.000m ydy'r cyfraniad arfaethedig a amlinellwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Gronfa Ynni wrth Gefn (£2.000m), y Gronfa Gynaliadwyedd wrth Gefn (£2.000m) a'r Gronfa Rhwydwaith Gwasanaethau Brys wrth Gefn (£2.000m), ymdrin â'r pwysau chwyddiant eithriadol ar gyfer cyfleustodau, yr angen i fuddsoddi yn unol â strategaeth gynaliadwyedd yr Heddlu a'r angen i ddarparu costau'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, yn y drefn honno.
- £0.092 ydy'r cyfraniad ychwanegol i'r Gronfa Rheoli Newid wrth Gefn (£0.045m) a'r Gronfa Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (£0.047m).
- £0.481m yn ymwneud â chyfraniadau at gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ymwneud â'r Rhwydwaith Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau a Minerva y mae Heddlu Gogledd Cymru yn eu cynnal ar ran yr holl ardaloedd Plismona, a phartneriaethau lleol a rhanbarthol eraill.
- £0.086m o gronfeydd wrth gefn sy'n berthnasol i SCHTh.

Ar ben yr uchod, mae £3.027m wedi'i drosglwyddo o'r gronfa Rhwydwaith Gwasanaethau Brys wrth gefn o'r Gronfa Uplift wrth Gefn (£1.144m) a'r Gronfa Rheoli Newid wrth Gefn (£1.883m) fel y cynlluniwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn creu cronfa wrth gefn o £7.285m i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys ac yn symud cost buddsoddi yn y dyfodol o'r gyllideb refeniw i'r fantolen. Gan fod y prosiect cenedlaethol hwn wedi'i oedi, nid oedd yn gynaliadwy, fforddiadwy nac yn angenrheidiol bellach er mwyn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £1.350m. Fodd bynnag, roedd y risg o gostau sylweddol yn y dyfodol angen ei liniaru.

Mae'r cynnydd o £0.114m i'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn dangos y swm a ddisgwyllir, ynghyd â'r cyfraniad ychwanegol yn 2021-2022 er mwyn sicrhau bod y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn cael ei chynnal ar y lefel isaf o 3% o'r gyllideb refeniw net dros y pedair blynedd nesaf ar sail tybiaethau presennol.

#### **Dadansoddiad o Alldro v Cyfanswm Gwariant Gweithredol a Gyllidwyd**

Cynyddodd gwariant gweithredu ar gyfer y flwyddyn 6.12% o'r flwyddyn flaenorol i £175.142m (2021-2022: £165.037m). Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd amrywiant tanwariant o £6.290m o hyd i wariant gweithredu wedi'i gyllidebu o £181.432m. Eglurir yr amrywiant hwn ymhellach yn ddaearyddol yn gyntaf ac yna hefyd linell wrth linell isod.



	£'000	£'000
<b>Tanwariant cyflog gweithwyr</b>		<b>-3,412</b>
Hyfforddiant	-204	
Gweithwyr Eraill	464	
Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	<u>-347</u>	
<b>Tanwariant arall ar weithwyr</b>		<b>-87</b>
Ynni	797	
Eiddo	39	
Trafnidiaeth	-381	
Technoleg Gwybodaeth	-489	
Costau eraill nad yw'n staff	<u>582</u>	
<b>Cyfanswm tanwariant nad yw'n staff</b>		<b>548</b>
Cyllid Cyfalaf		<b>124</b>
Cronfa Diogelwch Cymunedol		<b>-59</b>
Incwm ychwanegol ac ailgodi tâl		<b>-2,388</b>
Grantiau Penodol Ychwanegol a		
Dderbyniwyd		<b>-1,016</b>
<b>Cyfanswm tanwariant refeniw</b>		<b>-6,290</b>

Mae gwariant a chyllido alldro yn y tabl isod gydag eglurhad pellach o'r amrywiannau allweddol yn dilyn:

PRESENNOL 2021-2022 £m	GWARIANT REFENIW	CYLLIDEB 2022-2023 £m	PRESENNOL 2022-2023 £m	AMRYWIANT + (-) £m
143.824	COSTAU CYFLOG GWEITHWYR	155.630	152.218	-3.412
5.270	COSTAU GWEITHWYR ERAILL *	5.986	5.899	-0.087
35.710	COSTAU RHEDEG I RAI NAD YDYNT YN STAFF	39.974	40.522	0.548
5.258	CYLLID CYFALAF	5.470	5.594	0.124
8.897	CRONFA DIOGELWCH CYMUNEDOL, PARTNERIAETHAU a CHYDWEITHREDIAD Y CHTh	8.731	8.672	-0.059
-11.837	INCWM AC AILGODI TÂL	-10.979	-13.367	-2.388
-22.085	GRANTIAU PENODOL	-23.380	-24.396	-1.016
<b>165.037</b>	<b>GWARIANT GWEITHREDU</b>	<b>181.432</b>	<b>175.142</b>	<b>-6.290</b>
8.303	TROSLWYDDIADAU I/O GRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD (REF)	1.232	7.522	6.290
-0.564	TROSLWYDDIADAU I/O GRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD (CYF)	-0.510	-0.510	0.000
0.589	TROSLWYDDIAD I'R/-O'R GRONFA WRTH GEFN GYFFREDINOL	0.114	0.114	0.000
-1.282	TROSLWYDDIAD O INCWM O FLAEN LLAW	0.000	0.000	0.000
1.282	TROSLWYDDIAD YCHWANEGOL I'R GRONFA WRTH GEFN A GLUSTNODWYD	0.000	0.000	0.000
<b>173.365</b>	<b>GWARIANT NET</b>	<b>182.268</b>	<b>182.268</b>	<b>0.000</b>
	<b>ARIENNIR GAN:</b>			
83.677	CYFANSWM GRANTIAU	88.407	88.407	0.000
89.688	PRAESEPT Y DRETH CYNGOR	93.861	93.861	0.000
<b>173.365</b>	<b>CYFANSWM ARIANNU</b>	<b>182.268</b>	<b>182.268</b>	<b>0.000</b>

\*Yn cynnwys taliadau pensiwn uniongyrchol, hyfforddiant a'r holl gostau gweithwyr eraill

### Dadansoddiad Pellach o Alldro Refeniw – Tanwariant £6.290m

Y prif resymau am y tanwariant a amlinellir uchod oedd:

#### Costau cyflog gweithwyr – Tanwariant £3.412m

Tâl i swyddogion a staff ydy'r eitem unigol fwyaf yn y gyllideb, yn cyfrif am 72% o'r gyllideb gwariant. Roedd y prif danwario ar Gyflog yr Heddlu (£4.169m). Roedd y tanwariant hwn o ganlyniad i dwf y cytunwyd arno o Ymgrych Uplift yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn, lle'r oedd y gyllideb yn caniatáu i swyddogion fod ar waith drwy gydol y cyfnod. Aed ati i reoli'r cynnydd mewn swyddogion Uplift er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gyflawni mor fuan â phosibl hefo beryglu ansawdd neu safonau'r prosesau recriwtio a hyfforddiant. Cyrhaeddwyd y nod ym mis Mawrth 2023.

Nodwyd y tanwario yn y maes hwn oherwydd y proffil recriwtio yn gynnar yn y flwyddyn. Roedd ar gael er mwyn bodloni galw plismona ychwanegol dros gyfnod prysur yr haf. Roedd goramser yn cael ei ystyried lle roedd yn briodol er mwyn sicrhau fod yr Heddlu'n parhau i wasanaethu'r galw gweithredol roedd yn ei wynebu. Goruchwyliwyd penderfyniadau allweddol yn y maes hwn gan yr arweinydd ymhlith y Prif Swyddogion gan sicrhau fod gwerth am arian yn brif ystyriaeth. Roedd tâl staff dros y gyllideb £0.283m wrth i staff dros dro ychwanegol gael eu cyflogi hefyd (gan gynnwys £1.450m o gostau asiantaeth). O ganlyniad i'r uchod, gorwariwyd goramser £0.624m oherwydd gwaith cymorth cilyddol a gofynion ychwanegol oherwydd gwyliau banc ychwanegol, costau plismona pêl droed cynyddol ac absenoldebau oherwydd COVID ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y balans oherwydd tanwario ar lwfansau. Prif gymhellwr y tanwario oedd swyddogion Uplift yn symud ymlaen drwy recriwtio. Rheolodd yr Heddlu y sefyllfa hon drwy ddefnyddio offer eraill fel goramser er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwasanaeth priodol i'w gymunedau. Tra roedd y defnydd hwn o oramser yn cynnig

hyblygrwydd ychwanegol i'r heddlu, o ystyried fod y swyddogion Uplift bellach wedi'u recriwtio, bydd ei ddefnydd yn y dyfodol angen cael ei reoli er mwyn sicrhau fod yr Heddlu'n byw o fewn ei incwm ariannol.

### **Costau gweithwyr eraill – Tanwario £0.087m**

Er bod y ffigwr cyffredinol yn isel, mae'r amrywiannau o fewn y categorïau yn fwy sylweddol.

- **Hyfforddiant – Tanwario £0.204m**

Er bod cynnydd sylweddol mewn gwariant o'r flwyddyn flaenorol (+32%), roedd tanwario cyffredinol o £0.204m. Mae elfen o hyn yn berthnasol i gostau PEQF (Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu) sydd wedi'u cadw ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol. Roedd y balans ar draws bob cod gan gynnwys treuliau cysylltiedig, sy'n parhau'n is na chyn Covid gan fod mwy o gyrsiau'n cael eu cynnal ar-lein. Cafodd yr hyfforddiant a gyflawnwyd ei flaenoriaethu a'i reoli'n ofalus dros y flwyddyn, er y tanwario. Roedd hyn yn sicrhau fod yr heddlu'n cadw'r lefel sgiliau mewn meysydd hanfodol.

- **Gweithwyr Eraill – Gorwario £0.464m**

Prif elfen y categori hwn ydy'r cynnydd mewn darparu achosion atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus. Mae 46 achos wedi bod ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd ond cynyddodd i 62 yn 2022-2023. Mae cynnydd wedi bod hefyd mewn achosion costau gormodol. Parhaodd yr achosion eu hunain gael eu rheoli a'u goruchwyllo gan y Gwasanaethau Cyfreithiol hefo monitro rheolaidd yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Cydbwyllgor Archwilio.

- **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol – Tanwario £0.347m**

Mae'r tanwario oherwydd llai o achosion Ymddeoliad ar sail Afiechyd ymhlith swyddogion na chyllidwyd (saith y flwyddyn ar gyfartaledd, roedd dau yn ystod 2022-2023) yn digwydd yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer Ymddeoliad Afiechyd, mae'r gost ddwywaith cyflog y swyddog, a delir i'r cyfrif Pensiwn o'r cyfrif Refeniw. Ond mae'r heddlu'n symud ymlaen hefo'r rhain fel sy'n deilwng gan yr amgylchiadau gan ddefnyddio cronfa fantolen wrth gefn er mwyn rheoli unrhyw amrywiannau sylweddol mewn nifer. Heb ystyried y swm a warir, symudwyd yr achosion priodol dros y flwyddyn ariannol.

### **Costau rhedeg i rai nad ydynt yn staff - cyfanswm gorwario £0.548m**

Dadansoddir y prif amrywiannau isod:

- **Ynni – Tanwariant o £0.797m**

Neidiodd costau ynni yn 2022-23 gan arwain at orwario. Gan ystyried y cynnydd mewn costau, edrychodd yr Heddlu eto ar ei strategaeth fasnachol, gan gysylltu hefo arbenigwyr yn y maes er mwyn datblygu ei strategaeth brynu hefo'r bwriad o sicrhau Gwerth am Arian. Mae hyn wedi arwain at gamau o brynu ynni'n gynt ar gyfer gaeaf 2023-2024 er mwyn manteisio ar ostyngiadau presennol yn y farchnad ynni.

- **Costau Adeiladau Eraill – gorwariant o £0.039m**

Rhywfaint o waith cynnal a chadw annisgwyl ychwanegol yn y chwarter olaf. Mae'r gyllideb a'r costau'n cynnwys gwaith cynnal a chadw arfaethedig a ariannwyd o gronfeydd wrth gefn gwerth £0.463m

- **Costau trafnidiaeth – tanwariant o £0.381m**

Tanwariwyd £0.174m o ran costau rhedeg cerbydau oherwydd costau llai teiars, prisiau tanwydd yn gostwng yn ail hanner y flwyddyn a llai o waith trwsio ar ôl damweiniau, a wnaeth hefyd arwain at ad-dalu hawliadau isel ar yswiriant. Gwnaeth arbed £0.049m ar lwfansau ceir a theithio barhau ar lefel is oherwydd defnyddio technoleg ac roedd £0.086m o danwario ar y cytundeb Cymorth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.

- **Technoleg Gwybodaeth – tanwariant o £0.489m**

Mae'r tanwariant oherwydd sawl prosiect datblygu sydd heb eu gweithredu hyd yma. O bwys ydy'r llyf gwaith Ap Symudol sy'n cynnig ffwythiant newydd ar gyfer swyddogion ar y pwynt gwasanaeth. Symudodd hyn ymlaen dros y flwyddyn ond ni chafodd ei gwblhau. Mae'n debygol o gael ei gomisiynu yn 2023-24.

- **Costau eraill nad ydynt yn staff gan gynnwys argyfyngau – Tanwariant o £0.582m**

Roedd gwariant ychwanegol ar offer a dodrefn gan fod ystwythder wedi'i weithredu'n llawn. Gwnaeth prosiectau cydweithredu fynd i gostau ychwanegol oherwydd rhedeg deuol Tocsicoleg Fforensig ac uwchraddio Niche yn rhanbarthol.

**Diogelwch Cymunedol, Partneriaeth a Chydweithrediad y CHTh** – Tanwario £0.059m, roedd y tanwario'n berthnasol i'r balans yn y Gronfa Diogelwch Cymunedol. Nodwyd amrywiannau arfaethedig yn gynnar yn y flwyddyn ar y penawdau gwariant gan alluogi cyllidebau gael eu haddasu er mwyn bodloni galw.

**Cyllid Cyfalaf** – Defnyddiwyd cyfraniad ychwanegol o £0.124m er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. Bydd y defnydd hwn o danwariant refeniw yn lleihau benthyca yn y dyfodol.

### **Incwm – incwm ychwanegol £2.388m**

Mae eitemau arwyddocaol sy'n gyrru'r amrywiant yn cynnwys:

- **Secondiadau ac incwm ail-daliadau eraill – £0.360m** mwy na'r gyllideb oherwydd secondiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn hefo unrhyw secondiadau'n cael eu hystyried hefo anghenion yr heddlu.
- **Incwm Buddsoddiad £0.604m** mwy na'r gyllideb oherwydd incwm llog ychwanegol oherwydd cyfraddau uwch a balans yn uchel. Cyflawnwyd yr elw hwn heb beryglu parodrwydd risg yr Heddlu yn y maes hwn.
- **Incwm arall – £1.424m** mwy na'r gyllideb. Cyfrannwr mawr oedd incwm Mutual Aid o weithrediadau llai a lleoliadau mwy ar gyfer digwyddiadau Brenhinol a Gemau'r Gymanwlad. Tra gwneir yn iawn am elfennau penodol o incwm a gasglwyd gan y gwariant ychwanegol gan yr Heddlu, nid felly mae hi mewn rhai achosion. Mae canllawiau codi tâl yn rhoi'r adferiad cost sy'n mynd tu hwnt y costau cynyddrannol gan yr heddlu. Os ydy hyn yn digwydd tu hwnt i'r tybiaethau cynllunio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae'n ychwanegu at lefel gyffredinol tanwario o ran alldro cyllideb gan yr Heddlu. Cafwyd hefyd incwm ychwanegol ar gyfer digwyddiadau, hyfforddiant, defnyddio dalfeydd gan asiantaethau eraill ac ad-dalu cyfraddau yn unigryw. Tra roedd yr adnoddau a roddwyd drwy gymorth cilyddol yn sylweddol, ystyrir yr effaith gweithredol lleol ar gyfer lleoli sylweddol ar lefel Prif Swyddogion cyn cytuno. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydy gwasanaethau lleol yn cael eu peryglu drwy'r ddarpariaeth.

### **Incwm grant ychwanegol – £1.016m**

Derbyniwyd sawl grant ychwanegol neu daliadau terfynol cynyddol am grantiau presennol yn ystod y flwyddyn. Roedd y mwyafrif yn Ch3 a Ch4. Er enghraifft – Grant Porthladdoedd £0.147m; SCCH £0.195m; POCA £0.340m; Mabwysiadu LEDS £0.148m; Camdefnyddio Sylweddau £0.158m a symudiadau eraill £0.028m.

### **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Tanwariant Net £0.156m**

Yn gynwysedig o fewn y penawdau perthnasol ydy cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £0.955m a'r alldro oedd £1.004m. Roedd y gorwariant cyffredinol o £0.043m yn berthnasol i'r gyllideb staffio a chostau TG ychwanegol. Cafodd ei ariannu gan Gronfa Gyffredinol wrth Gefn SCHTh. Roedd £0.006m pellach yn berthnasol i gostau cyfreithiol o Gronfa Gyfreithiol wrth Gefn SCHTh. Cafwyd hefyd tanwariant o £0.017m ar Checkpoint, ynghyd â thanwariant o £0.118m ar y gronfa Diogelwch Cymunedol. Ychwanegwyd y rhain i'r cronfeydd wrth gefn priodol.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau er mwyn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, sef cyfanswm o £5.831m yn 2022-2023. Ariannwyd hyn o gyllideb a grantiau Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd gan gynnwys grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr troseddau, a chan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen VAWDASV. Gweinyddwyd y gwariant hwn gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn ariannol.

### **Rhwylwyaith Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig FCIN**

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno cynnal yr FCIN er mwyn gallu achredu ymchwiliadau gwrthdrawiadau yn genedlaethol. Mae pob ardal Blismona yng Nghymru a Lloegr wedi llofnodi cytundeb cydweithio sy'n cynnwys ariannu'r FCIN. 2022-2023 oedd trydedd flwyddyn yr FCIN. Yn ystod y flwyddyn, daeth adolygiad annibynnol o'r rhaglen i ben. Roedd cyfraniadau yn fwy na'r costau o £0.441m. Mae'r swm hwn wedi'i neilltuo o fewn y cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu costau FCIN yn y dyfodol a lywodraethir gan Fwrdd Cenedlaethol yr FCIN. Parhaodd nod cyffredinol y rhaglen yn ddigynfnewid er yr oedi mewn gwariant. Er bydd yr adolygiad annibynnol yn arwain at rywfaint o newidiadau i fodel cyflawni'r rhaglen.

### **Dadansoddiad Pellach o Ariannu Cyfalaf**

Mae rhaglen Gyfalaf yr Heddlu'n canolbwyntio ar sicrhau fod ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd yn gynaliadwy i'r dyfodol, gan ganiatáu iddi adnewyddu ei hasedau ar yr adegau priodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r heddlu wedi

Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

cael rhaglen uchelgeisiol a heriol. Tra mae llawer o hyn wedi cael ei gyflawni, y patrwm cyffredinol ydy i elfennau o'r rhaglen gael eu gohirio i'r blynyddoedd canlynol. Tra mae'r darlun hwn yn gyffredin i'r sector gwasanaeth cyhoeddus, mae gohirio'r gwariant hwn o bosibl yn gohirio'r budd cysylltiedig hefo'r rhaglenni hynny i'r blynyddoedd canlynol hefyd.

Cafodd Cyllideb Gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2022-23 ei chymeradwyo fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf ym mis Mawrth 2022 ar £11.176m. Unwaith roedd ffigyrau terfynol 2021-22 yn hysbys, cafodd y Rhaglen ei adolygu er mwyn cynnwys ffigyrau cario ymlaen o 2021-22 ac yna'u hail-broffilio er mwyn adlewyrchu gweithgarwch disgwylidig. Gan ystyried y rhain, gosodwyd amcangyfrif arfaethedig o £9.375m. Ystyriodd y proses hwn y tanwario a welwyd mewn blynyddoedd ariannol diweddar o ran y gyllideb gyfalaf a osodwyd. Tra roedd y tanwario hwn yn cael ei gymell gan ystod o ffactorau (gan gynnwys elfennau tu hwnt i reolaeth yr Heddlu), roedd yr Heddlu hefyd yn ystyriol fod y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022-23 angen bod yn realistig ac y gellir ei gyflawni.

Cynhaliwyd adolygiadau ac ail-broffiliau chwarterol hefo amcangyfrif diwygiedig Ch2 yn £8.849 a Ch3 yn £8.799m a'r Amcangyfrif terfynol yn £7.036m fel rhan o ffigyrau y Strategaeth Gyfalaf a gytunwyd ym mis Mawrth 2023. Y gwariant terfynol oedd £6.890m. Tra mae hyn yn sylweddol wahanol i'r ffigwr arfaethedig gwreiddiol o £11.176m, y realiti ydy bod sawl maes pwysig wedi symud ymlaen dros gyfnod y flwyddyn ariannol. Mae gwariant cyfalaf yn parhau'n heriol ym mhob maes hefo problemau cyffredinol yn cynnwys oedi cynllunio, chwyddiant yn effeithio ar gostau tendro a phroblemau hefo'r gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn golygu fod y tanwario o ran y gyllideb wedi'i gymell yn bennaf gan oedi o ran cyflawniad yn hytrach na chynlluniau'n dod ar gost is na'r disgwyl. Yn wir, mae cynlluniau penodol – yn enwedig mewn adeiladu – wedi profi pwysau chwyddiant sylweddol dros 2022-23.

Ceir crynodeb isod gyda'r golofn amrywiant yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Gyllideb Ddiwygiedig a'r alldro presennol:

Disgrifiad	Amcangyfrif Gwreiddiol (MTPF a Strat Gyf Maw 22)	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23 (Strat Gyf 23)	Alldro 2022-23	Amrywiant 2022-23	Amrywiant o Gwreiddiol
	£000	Ch1 £000	Ch2 £000	Ch3 £000	£000	£000	£000	£000
<b>Gwariant Cyfalaf:</b>								
Cyfanswm Gwaith Adeiladu	4,452	3,612	2,797	2,747	2,747	2,348	-399	-2,104
Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill	2,480	2,732	2,732	2,732	1,706	1,609	-97	-871
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth ac Offer	4,244	3,031	3,320	3,320	2,583	2,933	350	-1,311
<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>	<b>11,176</b>	<b>9,375</b>	<b>8,849</b>	<b>8,799</b>	<b>7,036</b>	<b>6,890</b>	<b>-146</b>	<b>-4,286</b>
<b>Cyllid:</b>								
Grant y Swyddfa Gartref	123	0	0	0	0	0	0	-123
Cyfraniad Refeniw	2,054	2,176	2,181	2,181	2,276	3,502	1,226	1,448
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	2,352	2,941	2,820	2,820	1,482	510	-972	-1,842
Derbynebau Cyfalaf	336	576	426	426	426	417	-9	81
Benthyca ar gyfer Ystadau	3,469	2,861	2,321	2,271	2,176	1,790	-386	-1,679
Benthyca ar gyfer rhaglen newydd	2,842	821	1,101	1,101	676	671	-5	-2,171
<b>Cyfanswm y Cyllid</b>	<b>11,176</b>	<b>9,375</b>	<b>8,849</b>	<b>8,799</b>	<b>7,036</b>	<b>6,890</b>	<b>-146</b>	<b>-4,286</b>

Amlinellir elfennau allweddol y rhaglen gyfalaf sy'n gyrru'r ffigyrau isod:

- **Gwaith Adeiladu ac Ystadau** – Cwblhawyd y gwaith ar y Ganolfan a Gweithdy Comisiynu Cerbydau a dechreuodd weithio yn yr hydref. Cwblhawyd y gwaith gwella yn yr Ystafell Reoli a gosod Gorsaf Heddlu newydd Llanrwst ar safle a rennir ddechrau 2023-2024. Mae prosiect gorsaf heddlu newydd Caerdybi yn symud ymlaen i'r cyfnod tendro yn dilyn adolygiad gwerth am arian oherwydd costau cynyddol disgwylidig. Mae gwaith uwchraddio yng ngorsaf heddlu Caernarfon wedi symud ymlaen i'r cyfnod contractio yn dilyn adolygiad gwerth am arian oherwydd costau tendro uwch na'r disgwyl.
- **Cerbydau ac Offer** – Mae newid cerbydau wedi parhau bod yn hynod heriol yn 2022-2023. Gwnaeth cyfuniad o'r cytundeb (a'r prisio) cenedlaethol terfynol yn cael ei gytuno yn hwyrach na'r disgwyl a phroblemau cyflenwi am sawl rheswm arwain at lithriant sylweddol i 2022-2023 gyda lefel o ansicrwydd ar ddyddiadau cyflawni'n parhau. Parhaodd y problemau hyn yn ystod 2022-2023. Fodd bynnag, cyrhaeddodd 51 cerbyd hefo 24 arall yn cyrraedd ym mis Ebrill 2023, gan adael ond 30 wrth gefn. Mae hynny'n gwella'r sefyllfa'n gyffredinol. Eto, er yr oedi i gaffael cerbydau, mae'r heddlu'n parhau i weithredu fflyd sy'n cael eu cynnal yn dda ac effeithiol gyda ffigyrau argaeledd cyffredinol da i'r fflyd greiddiol.
- **TG a Chyfathrebiadau** – Dechreuodd rhaglen uwchraddio Digidol a TG drawsbynciol sylweddol yn 2019-2020 a pharhaodd i 2022-2023. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno gliniaduron personol a chamerau corff ar gyfer Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

swyddogion a oedd gynt yn rhannu offer (bellach wedi cwblhau), prosiectau cenedlaethol, ac uwchraddio a datblygiadau eraill llai o fewn seilwaith yr Heddlu. Mae sawl ffrwd waith hanfodol wedi parhau mynd rhagddi dros 2022-2023 gan gynnwys meysydd uwchraddio system Reoli'r Heddlu, NEP, ac Ap Symudol, a'r rhaglen amnewid ar gyfer ffonau symudol. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn parhau yn 2023-2024. Tra mae peth o'r oedi mewn gwariant wedi achosi oedi cyfatebol i wireddu'r buddion yn y pen draw o'r buddion a ddisgwyliwyd o'r gwaith, mae'r oedi yn cael eu deall a'u rheoli'n dda yn gyffredinol. Mewn meysydd eraill mae cynnydd wedi arwain at fuddion cynyddrannol effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a lleihau risg gwell.

Yn fwy cyffredinol mae'r heddlu'n parhau monitro a chraffu ei raglen newid busnes a'r gwariant cyfalaf cysylltiedig, adrodd ar gynydd ac amrywiadau allweddol yn rheolaidd drwy lywodraethu'r heddlu.

### **CYSONI'R CYLLID SYDD AR GAEL A GAAP**

Mae adrannau cynharach yr adroddiad hwn yn dangos sut y gwariwyd y cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau'r llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn er mwyn darparu gwasanaethau o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Ar y sail hon y rheolir y gwariant a'r incwm o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, mae'r prif ddatganiadau sy'n dilyn yn y Datganiad o Gyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, ac yn dangos y gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o drethiant. Manylir ar y gwahaniaethau yn Nodyn 7. Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN, DARPARIAETHAU, FFYNONELLAU INCWM A BENTHYCA:**

**Cronfeydd wrth gefn** – Ar y cyfan, cydnabyddir fod Cronfeydd wrth Gefn yr Heddlu wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cronfeydd Refeniw wrth gefn o £16.7m yn cael eu cymell gan y tanwario ariannol ddigwyddodd dros y cyfnod hwn. Effaith net hyn ydy cryfhau mantolen yr heddlu a gwella ei sefyllfa cyffredinol o ran ei Gadernid Ariannol. Tra mae'r lefel tanwario welwyd dros y cyfnod hwn yn uwch na chyfraddau hanesyddol, mae'r Heddlu wedi ystyried y clustnodi mwyaf priodol o'r cronfeydd wrth gefn hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau fod yr Heddlu'n cyflawni Gwerth am Arian ac yn gallu rheoli risg a buddsoddiad mewn seilwaith yn y dyfodol fel sy'n briodol. Ar ben hyn, bydd y Fantolen gryfach hon hefyd angen cael ei hystyried wrth ystyried y cynlluniau ariannol mwyaf priodol ar gyfer 2023-24 a thu hwnt. Mae symudiad y gronfa wrth gefn a'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn yn amlinellu lle roeddent ar 31/03/2023 i'w gweld yn y tabl isod:

Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn 2022-2023	Balans ar 31/03/2022 £m	Trosglwyddiadau Allan 22-23 £m	Trosglwyddiadau i Mewn 22-23 £m	Cyfanswm Symudiadau 22-23 £m	Trosglwyddo rhwng £m	Balans ar 31/03/2023 £m
<b>Cronfa wrth Gefn Gyffredinol</b>	<b>6.006</b>	<b>0.000</b>	<b>0.114</b>	<b>0.114</b>	<b>0.000</b>	<b>6.120</b>
<b>Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd</b>						
Cronfa Gyfalaf wrth Gefn	3.810	-0.510	0.000	-0.510	0.000	3.300
Cronfa wrth Gefn Pensiynau Afiechyd	0.975	0.000	0.000	0.000	0.000	0.975
Cronfa wrth Gefn PFI	2.918	-0.241	0.000	-0.241	0.000	2.677
Cronfa Digwyddiadau Difrifol	2.435	0.000	0.000	0.000	0.000	2.435
Cronfa Yswiriant wrth Gefn	1.561	0.000	0.000	0.000	0.000	1.561
Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau	1.604	-0.463	0.000	-0.463	0.000	1.141
Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn	8.427	0.000	0.045	0.045	-1.883	6.589
Cronfa hyfforddi wrth gefn	0.650	0.000	0.000	0.000	0.000	0.650
Cronfa wrth gefn Uplift	4.403	0.000	0.216	0.216	-1.144	3.475
Cronfa wrth gefn ESN	0.908	0.000	3.350	3.350	3.027	7.285
Cronfa wrth gefn Covid	0.284	0.000	0.000	0.000	0.000	0.284
Cronfa wrth gefn PEQF	0.575	0.000	0.047	0.047	0.000	0.622
Cronfa Ynni	0.800	0.000	2.000	2.000	0.000	2.800
Cronfa Gynaliadwyedd wrth Gefn	0.000	0.000	2.000	2.000	0.000	2.000
Cronfa wrth Gefn Plismona Cymdogaethau	1.282	0.000	0.000	0.000	0.000	1.282
Cronfa Balansau Partneriaethau wrth Gefn	0.952	-0.016	0.126	0.110	0.000	1.062
Cronfa wrth gefn FCIN	1.615	-0.051	0.492	0.441	0.000	2.056
Minerva	0.294	-0.070	0.000	-0.070	0.000	0.224
Cronfa Diogelwch Cymunedol y CHTH	0.581	0.000	0.118	0.118	0.000	0.699
Checkpoint (SCHTh)	0.030	0.000	0.017	0.017	0.000	0.047
Cronfa Gyfreithiol wrth Gefn (SCHTh)	0.106	-0.006	0.000	-0.006	0.000	0.100
Swyddfa'r CHTH	0.271	-0.043	0.000	-0.043	0.000	0.228
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>34.481</b>	<b>-1.400</b>	<b>8.411</b>	<b>7.011</b>	<b>0.000</b>	<b>41.492</b>
<b>Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn</b>	<b>40.487</b>	<b>-1.400</b>	<b>8.525</b>	<b>7.125</b>	<b>0.000</b>	<b>47.612</b>
<b>Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn</b>	<b>2.350</b>	<b>-0.417</b>	<b>1.644</b>	<b>1.227</b>	<b>0.000</b>	<b>3.577</b>

Cyfanswm holl gronfeydd wrth gefn	42.837	-1.817	10.169	8.352	0.000	51.189
-----------------------------------	--------	--------	--------	-------	-------	--------

**Cronfeydd Defnyddiadwy Wrth Gefn** – mae'r rhain ar gael ar gyfer gwariant yn y dyfodol (mae manylion pellach yn Nodyn 7 ac 8).

Mae cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ofynnol er mwyn bodloni unrhyw ddigwyddiadau nas rhagwelwyd, ariannu cynlluniau refeniw a chyfalaf yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd dros y cyfnodau nesaf a hwyluso newidiadau a datblygiadau sy'n ofynnol i wneud effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a bodloni galwadau newydd.

Mae arbedion sylweddol dros y 12 mlynedd diwethaf sef £39m yn golygu fod unrhyw fesurau haws wedi'u cyflawni. Mae unrhyw arbedion pellach yn anoddach i'w cyflawni ac mewn perygl cynyddol o effeithio cyflawni gwasanaeth. Ar ben hynny, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid llywodraeth a phrosiectau cenedlaethol ar raddfa fawr yn cael eu gweithredu hefyd yn ychwanegu at gyd-destun lle mae rhaid i'r heddlu fod yn ddarbodus wrth reoli ei gyllid. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau gweithredu strategaeth y gyllideb er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol dros y cyfnod. Fel rhan o'r arbedion hyn, nodwyd a chyflawnwyd £0.755 miliwn o arbedion yn ystod 2022-2023 gyda'r broses gynllunio yn gwrthbwysu'r cynigion o ran y lefelau risg y gwnaethant eu creu.

Fel rhan o'r strategaeth, ystyrir bod lefel y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau a ddelir ar hyn o bryd yn ddarbodus ac mae'r gronfa gyffredinol wrth gefn wedi cynyddu i £6.120 miliwn er mwyn ei gynnal o fewn yr ystod dderbyniol o 3% i 5% fel y'i diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cwmpasu'r 4 blynedd nesaf.

Roedd nifer o symudiadau o fewn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022-23. Rhestrir yr elfennau allweddol yn 2022-2023 i roi sylwadau arnynt o ran Cronfeydd wrth Gefn a chyllid tymor hir arall isod:

**Cronfa Gyfalaf wrth Gefn** – defnydd arfaethedig o £0.510m tuag at gyllid cyfalaf.

**Cronfa wrth Gefn Pensiwn Afiechyd** – heb ei defnyddio yn 2022-2023.

**Cronfa wrth Gefn PFI** – Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynllun PFI ar gyfer y pencadlys rhanbarthol yn Llanelwy. Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun hwn yn parhau cael ei dalu'n rhannol o grantiau'r llywodraeth, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu gan y gyllideb refeniw a chronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Gwelir manylion y cynllun a'r ddyled yn Nodyn 31. Mae hwn yn gyfraniad arfaethedig o £0.241m i wneud yn iawn am y gostyngiad blynyddol mewn grant.

**Cronfa Digwyddiadau Difrifol** – heb ei defnyddio yn 2022-2023.

**Cronfa Yswiriant wrth Gefn** – cynhaliwyd adolygiad yn annibynnol yn ystod 2021-2022, nid oes newidiadau yn 2022-2023.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau** – fe'i sefydlwyd er mwyn talu am y costau sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Cyflwr Ystadau a gynhaliwyd yn 2018-2019 ac unrhyw waith stadau sylweddol annisgwyl arall. Gwariant o £0.463m a ariannwyd yn 2022-2023.

**Rheoli Newid** – bwriad i dynnu £1.883m yn ôl i'r gronfa Rhwydwaith Gwasanaeth Brys wrth gefn a chyfraniad o £0.045m o'r balansau terfynol.

**Cronfa hyfforddi wrth gefn** – Mae'r gronfa wrth gefn ar y lefel iawn er mwyn ymdrin â'r ôl-groniad hyfforddiant yn dilyn y gostyngiad mewn hyfforddiant oherwydd COVID yn ystod 2020-2021 a 2021-2022. Nid oedd angen cyllid ychwanegol yn 2022-2023.

**Cronfa wrth gefn Uplift** – Cynghorodd y Swyddfa Gartref yn gryf y dylid rhoi unrhyw gyllid Uplift heb ei neilltuo o'r neilltu er mwyn ariannu recriwtio, hyfforddi swyddogion ar brawf a seilwaith yn y dyfodol. cyfraniad o £0.216m fel y cynlluniwyd a throsglwyddo £1.144m i'r gronfa Rhwydwaith Gwasanaethau Brys wrth gefn fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN)** – cyfraniad arfaethedig o £3.350m er mwyn ariannu gweithredu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a throsglwyddo £3.027 er mwyn symud y risg o gostau'r dyfodol i'r fantolen.

**Grant Plismona Cymdogaethau** – Mewn lle er mwyn rheoli newidiadau ar fyr rybudd i amodau grant yn berthnasol i Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH) neu ariannu gofynion Plismona Cymdogaethau unigryw.

**Cronfa wrth gefn Covid** – Heb ei defnyddio yn 2022-2023, gellir aildefnyddio'r balans yn ystod 2023-2024.



**Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF)** – dechreuodd y swyddogion ar brawf gyda'r cymwysterau PEQF o fis Medi 2020. Wrth i nifer y Swyddogion ar Brawf gynyddu oherwydd Ymgyrch Uplift, felly hefyd y costau cysylltiedig lle bydd uchafbwynt yn 2023-24. Drwy greu'r gronfa wrth gefn, gellir defnyddio hyn er mwyn ariannu'r uchafbwynt, fel nad oes angen cynnydd yn y gyllideb. Cyfraniad o £0.047m yn 2022-2023.

**Cronfa Ynni wrth Gefn** – cronfa wrth gefn edi'i sefydlu er mwyn lliniaru'r risg o anwadalrwydd mewn prisiau ynni. Cyfraniad arfaethedig o £2m er mwyn lliniaru'r brig disgwylidig mewn costau dros y ddwy flynedd nesaf.

**Cronfa Gynaliadwyedd wrth Gefn** – cronfa wrth gefn wedi'i sefydlu er mwyn gwella cynaliadwyedd a lleihau costau.

**Balansau partneriaeth** – nifer o bartneriaethau a chydweithrediadau rhanbarthol llai lle caiff gweddillion eu cynnal, a fydd yn cael eu defnyddio er mwyn ariannu gwariant yn y dyfodol. Cyfraniad net o £0.110m.

**FCIN** – mae'r Heddlu wedi cytuno cynnal y Rhwydwaith Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau er mwyn hwyluso'r gwaith o achredu gwaith Ymchwilio i Wrthdrawiadau Fforensig yn genedlaethol. Roedd cyfraniadau yn fwy na chostau o £0.441m yn ystod y flwyddyn, gyda'r swm hwn yn cael ei neilltuo o fewn y cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu costau'r FCIN yn y dyfodol a lywodraethwyd gan Fwrdd Rheoli'r FCIN.

**Minerva (partneriaeth rhwng 26 o heddluoedd y DU a Thechnoleg Niche)** – Cytunodd Heddlu Gogledd Cymru gynnal y bartneriaeth o 2021-2022. Defnydd arfaethedig o £0.070m.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol** – cyfraniad o £0.118m yn mantoli'r cyfraniadau a chostau'r gwaith amrywiol a gomisiynwyd gan y CHTH.

**Cronfa Checkpoint wrth Gefn** – £0.017m wedi'i ychwanegu er mwyn ariannu amnewid cerbydau yn y dyfodol.

**Cronfa Gyfreithiol SCHTH wrth Gefn** – £0.006 wedi'i ddefnyddio yn 2022-2023.

**Cronfa wrth gefn SCHTH** – £0.043m wedi'i ddefnyddio yn 2022-2023.

**Cronfa wrth Gefn Derbynebaw Cyfalaf** – gellir defnyddio hwn er mwyn ariannu gwariant cyfalaf yn unig; Ychwanegwyd elw o werthu tir yng ngorsafoedd heddlu Llai a Chonwy, ynghyd â gwerthu 4 cerbyd, hefo elw dros £10k yn gwneud cyfanswm o £1.644m. Defnyddiwyd £0.417m o'r gronfa wrth gefn er mwyn ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

Gwelir manylion llawn o'r gwariant ac ariannu cyfalaf yn Atodiad A.

#### Effaith pensiynau ar Gronfeydd Wrth Gefn

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gronfa wrth gefn negyddol ar ei Fantolen yn codi o driniaeth Budd-daliadau Gweithwyr 19 IAS. Roedd hyn yn berthnasol i Gynlluniau Pensiwn Swyddogion Heddlu a dyledion/asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu. Mae hyn yn cyfateb i ddiffyg net o £1.355 biliwn ar 31 Mawrth 2023. Nid yw'r Cynlluniau Pensiynau Swyddogion Heddlu yn cael eu hariannu ac mae'r swm a ddangosir yn y gronfa wrth gefn o -£1.356 biliwn yn dangos y swm a fyddai'n ofynnol er mwyn cael cynllun a noddir yn llawn. Mae'r Swyddfa Gartref yn gwarantu'r ddyled hon. Mae gan Gynllun Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu gronfa er mwyn ariannu dyledion y dyfodol. Mae'r gronfa wrth gefn (£0.001) biliwn yn adlewyrchu'r gweddill hysbys yn y gronfa ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Dangosir manylion yn Nodyn 34 yn y cyfrifon. Roedd Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn destun ailbriso actiwaraidd yn 2020 a Chynllun Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu yn amodol ar ailbriso actiwaraidd yn 2022. Mae canlyniadau'r rhain wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

#### Balansau a Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn:

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r balansau cyfalaf a'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae cynnydd sylweddol yn y Cronfeydd Cyfalaf Annefyddadwy a fanylir yn Nodyn 20. Mae hyn oherwydd newid yn y dull priso ar gyfer yr adeiladau hynny sy'n arbenigol eu natur ac sy'n disgwyl newid yn y canllawiau i briswyr. Mae'r addasiadau hyn a wneir yn y fantolen yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng Arfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol (GAAP) a darpariaethau statudol sydd ddim ar gael i'w defnyddio:

BALANS A CHRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN	BALANS AGORIADOL		BALANS CLO
	01/04/2022	SYMUDIAD	31/03/2023
	£'000	£'000	£'000
<b><u>CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN DEFNYDDIADWY</u></b>			
Cronfa Derbynebaw Cyfalaf wrth Gefn	2,350	1,227	3,577

<b>CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN ANNEFYDDIADWY</b>			
Cronfa Adbriso wrth Gefn	20,513	18,721	39,234
Cyfrif Addasu Cyfalaf	19,555	14,087	33,642

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd brisiadau asedau 19 eiddo o fewn y portffolio.

### Darpariaethau

DARPARIAETHAU	BALANS AGORIADOL £'000	SYMUDIAD £'000	BALANS CLO £'000
CRONFA YSWIRIANT	654	619	1,273

Dangosir dadansoddiad pellach yn Nodyn 18. Mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau dyled hysbys.

### Ffynonellau Incwm

Mae'r cyfrif Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn dangos o le daw arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac ar beth y gwarir. Derbyniodd y mwyafrif o'i incwm o Grantiau Llywodraeth a'r praesept, a godir yn lleol ac a gesglir gan yr Awdurdodau Unedol ynghyd â'u treth gyngor.

Y canlynol yw'r lefelau o gyfran yr Heddlu o'r Dreth Gyngor a sefydlwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 2021-2022 a 2022-2023:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
2021-2022	203.70	237.65	271.60	305.55	373.45	441.35	509.25	611.10	712.95
2022-2023	211.20	246.40	281.60	316.80	387.20	457.60	528.00	633.60	739.20

### Benthycia

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir na thymor byr allan yn 2022-2023. Cyfanswm y benthyciadau a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £8.406 miliwn (2021-2022 £8.908 miliwn).

### RHAGOLWGW

Mae ansicrwydd ynghylch lefel ac effaith bosibl setliadau ariannu'r dyfodol yn y Gwasanaeth Heddlu yn mandadu'r angen i barhau sicrhau ein bod yn cynnal llwyfan ariannol sefydlog ac yn parhau adolygu a thrawsnewid ein gwasanaethau. Mae'r rhyfel yn Wcraïn, effeithiau COVID, lefelau uchel presennol chwyddiant ac adolygiad posibl o Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn y dyfodol yn cynyddu'r lefelau presennol o ansicrwydd ymhellach.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Heddlu wedi cryfhau ei fantolen yn sylweddol. Mae'r lefel tanwariant wedi golygu fod cronfeydd Refeniw wrth gefn yr heddlu wedi cynyddu £16.7m dros y cyfnod hwn. Mae hyn wedi gwella sefyllfa'r Heddlu o ran ei gadernid ariannol mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol parhaus. Tra mae hyn yn gadarnhaol o safbwynt yr Heddlu yn gallu rheoli galwadau cyflawni gwasanaeth yn y dyfodol, cydnabyddir hefyd fod angen i'r lefel o danwario diweddar a'r cryfhau cronfeydd wrth gefn cysylltiedig gael ei ystyried yn ofalus wrth benderfynu ar ofynion ariannu mewn cylchoedd cynllunio yn y dyfodol.

Mae angen taro cydbwysedd yn ofalus rhwng cael yr ystwythder ariannol er mwyn addasu i bwysau costau sy'n gysylltiedig hefo cyflog gweithwyr, galwadau gweithredol newydd, heriau cymhleth fel achrediad ac ansicrwydd eraill (fel cyfraniadau Pensiwn yr Heddlu) a'r angen i gadw pwysau'r dreth gyngor ar gartrefi lleol i leiafswm.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r gofynion ariannol rhwng 2023 a 2028. Mae'n cysylltu blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd â'r strategaeth ariannol a gellir ei weld ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwmo i sicrhau bod gwasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru yn addas i'r diben ac yn rhoi gwerth am arian i bobl Gogledd Cymru. Rhan hanfodol o hyn ydy'r angen am gronfeydd wrth gefn digonol, bodloni heriau i ddod a gwarchod gwasanaethau rheng flaen. Mae cael llwyfan ariannol cynaliadwy yn hanfodol bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae gan y broses cynllunio strategol rôl hollbwysig i'w Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

chwarae hefyd o ran sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'r meysydd sydd bwysicaf i fodloni'r gofynion y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, mewn ffordd effeithiol sy'n rhoi Gwerth am Arian yn y broses.

Er y tanwariant mewn refeniw yn 2022-23, mae elfennau arwyddocaol hyn yn afreolaidd gyda gwariant yn dychwelyd 'ar y gyllideb' unwaith mae adnoddau priodol mewn lle ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Elfen arwyddocaol o hyn oedd recriwtio hyd at sefydliad heddlu uwch newydd a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2023. Bydd pwysau chwyddiant a oedd mewn ffigyrau dwbl am rannau sylweddol o 2022-23 yn effeithio hefyd ar gostau'n y dyfodol. Mae'r argyfwng costau byw yn ystod 2022-23 hefyd yn creu mwy o ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyflog posibl a'r effaith gall hyn ei gael ar gostau'r Heddlu yn y maes hwn yn y dyfodol. Ar ben hyn, mae'r model cynllunio yn anelu ceisio gwerth am arian yn barhaus, gan sicrhau fod bob maes gwasanaeth yn adolygu ei sefyllfa a'i effeithlonrwydd gan wybod y cedwir cyllidebau wrth gefn ar lefel yr heddlu, os oes digwyddiadau digynllun yn y flwyddyn. Bydd hyn yn parhau'n elfen hanfodol o'r broses gynllunio wrth i'r Heddlu geisio lliniaru'r pwysau ariannol mae'n wynebu.

Gosodwyd Cyllideb 2023-2024 gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ac fe'i cymeradwywyd gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 30 Ionawr 2023, sef £188.959 miliwn. Roedd hyn yn gynydd o 5.14% yn y Dreth Gyngor, cynnydd o 0.35% mewn cyllid Grant Sylfaenol y Llywodraeth a chynnydd net cyffredinol o 3.68% o'i gymharu â chyllideb 2022-2023 o £182.268 miliwn. Roedd angen arbedion o £3.753m a chyllid dros dro o £2.362m er mwyn mantoli'r gyllideb hefo chwyddiant cyflog a ddim yn gyflog ar 7.13%. Cwblhawyd Cyfnod 3 Ymgyrch Uplift y Llywodraeth, a fydd yn cynyddu nifer swyddogion 20,000 yn genedlaethol a 206 yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth 2023. Roedd buddsoddiadau mewn twf yn gyfyngedig oherwydd pwysau chwyddiant ond maent wedi cael eu gwneud wrth gyflawni cymdogaethau diogelach, cynorthwyo dioddefwyr a chymunedau, a system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad ac adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r cynnig praesept a oedd yn destun craffu yn y cyfarfod. Cymeradwywyd y cynnig praesept yn unfrydol.

Yn ystod chwarter olaf 2019-2020 lledaenodd y Coronafeirws yn rhyngwladol gan arwain at y DU yn dechrau'r cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020. Roedd effaith cyfrifon a gweithgarwch 2019-2020 a 2020-2021 yn arwyddocaol. Mae effaith ar 2022-2023 yn llawer llai, tra mae newidiadau cadarnhaol mewn arferion gweithio yn ildio effeithlonrwydd wedi'u cynnal a'u hymgorffori fel busnes fel arfer. Cafodd argyfwng Wcráin effaith ar brisiau a chadwyni cyflenwi yn 2022-2023. Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd cynyddol wedi gwthio chwyddiant i gyfraddau uwch na'r disgwyl. Mae cyfraddau llog wedi cynyddu'n sylweddol yn 2022-2023. Mae hyn wedi cael effaith ariannol gadarnhaol gan fod cyfraddau benthyca am fenthyciadau mewn lle yn sefydlog ac mae incwm buddsoddi wedi cynyddu. Cynhwysir datgeliadau ychwanegol lle bo hynny'n briodol.

Bydd cynlluniau ariannol yn y dyfodol ar gyfer yr heddlu, ac yn wir cynigion praesept y dyfodol a gyflwynir, yn seiliedig ar ystyried yr holl ffactorau hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau fod cynllun ariannol yn sefydlog a chynaliadwy yn cael ei gyflawni yn y dyfodol. Er y pwysau chwyddiant diweddar a brofwyd, ynghyd â diwedd Ymgyrch Uplift, creir cyd-destun ariannol gwahanol iawn i'r heddlu o'i gymharu â'r un a brofwyd yn ddiweddar.

## **POLISIAU CYFRIFYDDU**

Gwneir newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu pan mae angen gan arferion cyfrifyddu priodol neu mae'r newid yn rhoi gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effaith trafodion, digwyddiadau eraill a chyflyrau ar y sefyllfa ariannol neu'r perfformiad ariannol.

## **CYDWEITHIO â CHYRFF ERAILL**

Anogir Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i edrych ar feysydd lle gallent gydweithredu ar gyflwyno gwasanaethau, un ai gyda heddluoedd eraill neu ar lefel leol gyda chyrrff cyhoeddus eraill.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio'n agos gyda Heddluoedd eraill Cymru a Rhanbarth y Gogledd Orllewin er mwyn edrych ar feysydd ar y gellid cydweithredu. Ystyrir y gost, manteision, risgiau a chyfleoedd posibl y mae pob cydweithrediad yn ei ddangos. Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, mae'r Rhaglen Gydweithredu Cymru Gyfan wedi sefydlu ffrwd gwaith cynhyrchiad ac effeithlonrwydd ymroddedig sydd â chylch gorchwyl ynghylch sicrhau fod cydweithredu yn y maes hwn yn cyflawni gwerth am arian.

Mae'r Heddlu wedi bod yn cynnal y Rhwydwaith Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau cenedlaethol ers 2020-2021. Mae hwn yn gydweithrediad arwyddocaol rhwng yr holl ardaloedd plismona yng Nghymru a Lloegr gyda nod o gael Datganiad Cyfrifon Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2022-2023

achrediad a sicrhau'r safonau uchaf mewn ymchwilio i wrthdrawiadau yn genedlaethol. Roedd yr FCIN yn faes gwaith arwyddocaol i'r Heddlu yn ei rôl fel heddlu cartref yn ystod 2022-2023. Mae wedi bod yn risg ar Gofrestr Risg yr Heddlu yn ystod 2022-23. Bydd yn parhau'n her i'r heddlu i'r dyfodol.

Ar 1 Ebrill 2021, trosglwyddwyd y prif gyfrifoldeb am Minerva, cydweithrediad yn cynnwys 27 o heddluoedd sy'n aelodau o Minerva ar sail eu defnydd cyffredin o System Rheoli Cofnodion Niche (NicheRMS365), i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Parhaodd yr heddlu gyflawni ei brif gyfrifoldeb yn ystod 2022-23.

Dangosir holl drefniadau cydweithredu presennol yn Nodyn 39.

### **DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD**

Ar adeg y cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 7 Rhagfyr 2023, mae holl ddigwyddiadau addasu neu ddim addasu sylweddol oedd ei angen efallai i gael ei gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon wedi'u hadlewyrchu o dan Nodyn 6.

## DATGANIAD CYFRIFON GRŴP

Mae'r cyfrifon grŵp yn cyflwyno darlun manwl o faterion ariannol y grŵp, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ac yn cynnwys:-

- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Grŵp** (Tudalen 21).

Mae'n pennu cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon ac yn cadarnhau bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** (Tudalen 22).

Mae'n dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, praesept y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y dyrennir y gwariant hwn at ddibenion cyfrifyddu rheoli. Cyflwynir incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** (Tudalen 24).

Mae'r datganiad hwn yn dangos costau cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi trethiant er mwyn talu am wariant yn unol â gofynion statudol. Gall hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa trethiant i'w weld yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn ogystal â'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

- **Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp** (Tudalen 25).

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a ddadansoddir i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy eraill (cyfrifyddu technegol yn bennaf).

- **Mantolen Grŵp** (Tudalen 26).

Mae'n dangos gwerthoedd cludo'r asedau a'r dyledion sydd ar ddyddiad y Fantolen a gydnabyddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae asedau net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (asedau llai dyledion) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- **Datganiad Llif Arian y Grŵp** (Tudalen 27).

Mae'r datganiad yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn.

- **Nodiadau ar y Datganiadau'r Grŵp** (Tudalennau 28 i 65).

Dyma'r holl nodiadau esboniadol sy'n egluro mewn mwy o fanylder nifer o eitemau sy'n berthnasol i'r datganiadau uniongyrchol.

- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu** (Tudalen 66).

Manylion y trafodion incwm a gwariant sy'n gysylltiedig ag incwm a gwariant Pensiwn yr Heddlu.

- **Datganiad Grŵp o Bolisiau Cyfrifyddu** (Tudalen 67).

Mae'r datganiad hwn yn cefnogi'r cyfrifon ac yn rhoi manylion am egwyddorion, rheolau ac arferion penodol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau hyn wedi'u creu yn unol â'r safonau cyfrifyddu sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i gyrff plismona lleol. Os yw hyn yn creu gwrthdaro gyda'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol i greu cyfrifon sy'n dangos cronfeydd talwyr trethi, mae addasiadau perthnasol wedi'u gwneud yn unol â chod ymarfer CIPFA. Ceir atodlen o'r addasiadau hyn yn Nodyn 7 "Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan Reoliadau".

## Datganiad o'r Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon Grŵp

Diben y datganiad hwn yw pennu cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

### **Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:-

- \* penderfynu gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y sefydliad hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid,
- \* rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau,
- \* cymeradwyo'r datganiad cyfrifon grŵp.

Cymeradwyaf y Datganiad Cyfrifon hwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.



**Andy Dunbobbin Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2023

### **Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad Cyfrifon Grŵp yn unol ag arferion priodol a osodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod'). Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- \* dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna wedi'u cymhwysu'n gyson,
- \* gwneud barnau a rhagamcanion a oedd yn rhesymol a darbodus,
- \* cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- \* cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd wedi'u diweddarau,
- \* cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

### **TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID**

Mae'r datganiad cyfrifon wedi'i baratoi yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon Llywodraeth Leol ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'n adlewyrchu fformat a chynnwys Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2022-2023 a Chod Ymarfer Hysbysu Gwasanaeth.

Rwyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon hwn yn rhoi golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp ar y dyddiad hysbysu ac am ei incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2023. Mae'r dystysgrif archwiliad yn ymddangos ar dudalennau 113 i 116.



**Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid)**

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2023

**Dadansoddiad o Wariant a Chyllid Grŵp 2022-2023**

Amcan y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ydy dangos i dalwyr y dreth gyngor sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn wedi'i ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Cyflwynir incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2022-2023	GRŴP			CHTH			PG		
	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Plismona	198,296	-11,392	186,904	-22,324	-13,735	-36,059	220,620	2,343	222,963
<b>Cost Net Gwasanaeth cyn trosglwyddiad oddi mewn i'r grŵp</b>	<b>198,296</b>	<b>-11,392</b>	<b>186,904</b>	<b>-22,324</b>	<b>-13,735</b>	<b>-36,059</b>	<b>220,620</b>	<b>2,343</b>	<b>222,963</b>
Trosglwyddiad Oddi mewn i'r Grŵp	0	0	0	220,620	0	220,620	-220,620	0	-220,620
<b>Cost Net Gwasanaethau</b>	<b>198,296</b>	<b>-11,392</b>	<b>186,904</b>	<b>198,296</b>	<b>-13,735</b>	<b>184,561</b>	<b>0</b>	<b>2,343</b>	<b>2,343</b>
Incwm a Gwariant Arall	-205,421	51,635	-153,786	-205,421	-133	-205,554	0	51,768	51,768
<b>GWEDDILL(-)/DIFFYG(+) AR DDARPARU GWASANAETHAU</b>	<b>-7,125</b>	<b>40,243</b>	<b>33,118</b>	<b>-7,125</b>	<b>-13,868</b>	<b>-20,993</b>	<b>0</b>	<b>54,111</b>	<b>54,111</b>
Balans Cronfa Gyffredinol Agoriadol *	-40,487								
Ychwanegu gweddill(-)/diffyg(+) ar y balans Cronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	-7,125								
<b>BALANS CLO Y GRONFA GYFFREDINOL *</b>	<b>-47,612</b>								

\* Cronfeydd Refeniw wrth Gefn Defnyddiadwy

### Dadansoddiad o Wariant a Chyllid Grŵp 2021-2022

Amcan y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ydy dangos i dalwyr y dreth gyngor sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn wedi'i ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Cyflwynir incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2021-2022	GRŴP			CHTH			PG		
	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr	Gwariant Net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Plismona	184,591	13,912	198,503	-20,826	53	-20,773	205,417	13,859	219,276
<b>Cost Net Gwasanaeth cyn trosglwyddiad oddi mewn i'r grŵp</b>	<b>184,591</b>	<b>13,912</b>	<b>198,503</b>	<b>-20,826</b>	<b>53</b>	<b>-20,773</b>	<b>205,417</b>	<b>13,859</b>	<b>219,276</b>
Trosglwyddiad Oddi mewn i'r Grŵp	0	0	0	205,417	0	205,417	-205,417	0	-205,417
<b>Cost Net Gwasanaethau</b>	<b>184,591</b>	<b>13,912</b>	<b>198,503</b>	<b>184,591</b>	<b>53</b>	<b>184,644</b>	<b>0</b>	<b>13,859</b>	<b>13,859</b>
Incwm a Gwariant Arall	-194,201	39,306	-154,895	-194,201	-130	-194,331	0	39,436	39,436
<b>GWEDDILL(-)/DIFFYG(+) AR DDARPARU GWASANAETHAU</b>	<b>-9,610</b>	<b>53,218</b>	<b>43,608</b>	<b>-9,610</b>	<b>-77</b>	<b>-9,687</b>	<b>0</b>	<b>53,295</b>	<b>53,295</b>
Balans Cronfa Gyffredinol Agoriadol *	-30,877								
Ychwanegu gweddill(-)/diffyg(+) ar y balans Cronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	-9,610								
<b>BALANS CLO Y GRONFA GYFFREDINOL *</b>	<b>-40,487</b>								

\* Cronfeydd Refeniw wrth Gefn Defnyddiadwy



### Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp

Mae'r datganiad hwn yn dangos costau cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi trethiant er mwyn talu am wariant yn unol â rheoliadau. Gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Mae'r sefyllfa trethiant i'w weld yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn ogystal â'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

2021-2022				2022-2023		
GRŴP	CHTh	PG		GRŴP	CHTh	PG
£000	£000	£000		£000	£000	£000
70,986	0	70,986	Swyddogion Heddlu	75,124	0	75,124
41,382	532	40,850	Staff Cynorthwyol	45,018	655	44,363
67,950	93	67,857	Pensiynau	57,497	111	57,386
1,240	0	1,240	Lwfansau	1,260	0	1,260
1,778	5	1,773	Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol	2,864	3	2,861
6,580	1	6,579	Eiddo	8,021	7	8,014
2,575	4	2,571	Treuliau Cludiant	2,861	10	2,851
23,506	183	23,323	Cyflenwadau a Gwasanaethau	24,761	247	24,514
9,623	0	9,623	Taliadau Trydydd Parti	11,478	0	11,478
170	72	98	Gwasanaethau Cymorth *	417	76	341
6,074	6,074	0	Dibrisio, dileu a diffyg	-7,298	-7,298	0
0	5,553	-5,553	Gwariant y CHTh ar grantiau a mentrau	0	5,831	-5,831
-71	0	-71	Twf absenoldebau heb gael iawn	602	0	602
<b>231,793</b>	<b>12,517</b>	<b>219,276</b>	<b>Gwariant Gweithredu Gros</b>	<b>222,605</b>	<b>-358</b>	<b>222,963</b>
-33,290	-33,290	0	Incwm	-35,701	-35,701	0
<b>198,503</b>	<b>-20,773</b>	<b>219,276</b>	<b>COST GWASANAETHAU</b>	<b>186,904</b>	<b>-36,059</b>	<b>222,963</b>
0	205,417	-205,417	Cost Comisiynu (trosglwyddiad oddi mewn i'r grŵp)	0	220,620	-220,620
<b>198,503</b>	<b>184,644</b>	<b>13,859</b>	<b>COST NET GWASANAETHAU</b>	<b>186,904</b>	<b>184,561</b>	<b>2,343</b>
-6	-6	0	Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 9)	-133	-133	0
40,363	927	39,436	Incwm a Gwariant ariannu a buddsoddi (Nodyn 10)	51,921	153	51,768
-21,763	-21,763	0	Grant y Swyddfa Gartref sy'n daladwy tuag at y gosod o fudd-dal ymddeol	-23,306	-23,306	0
-173,489	-173,489	0	Trethiant ac incwm grant amhenodol (Nodyn 11)	-182,268	-182,268	0
<b>43,608</b>	<b>-9,687</b>	<b>53,295</b>	<b>GWEDDILL(-)/DIFFYG(+) AR DDARPARU GWASANAETHAU</b>	<b>33,118</b>	<b>-20,993</b>	<b>54,111</b>
227	227	0	(Gweddill) neu ddiffyg ar adbrisio OAP	-23,994	-23,994	0
-65,673	0	-65,673	(Enillion) / colledion actiwaraidd ar asedau / dyledion	-704,867	0	-704,867
0	0	0	Addasu'r pensiwn dros ben/uchafswm asedau	56,161	0	56,161
<b>-65,446</b>	<b>227</b>	<b>-65,673</b>	<b>Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall</b>	<b>-672,700</b>	<b>-23,994</b>	<b>-648,706</b>
<b>-21,838</b>	<b>-9,460</b>	<b>-12,378</b>	<b>CYFANSWM INCWM A GWARIANT HOLLGYNHWYSFAWR</b>	<b>-639,582</b>	<b>-44,987</b>	<b>-594,595</b>

\*Mae hyn yn cynnwys costau staff asiantaeth sy'n £1/45m (2021-22 £1.47m)

## Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a ddadansoddir i 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn dangos sut mae'r symudiadau ym mlwyddyn cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu dadansoddi rhwng enillion a cholledion a dynnir yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, a'r addasiadau statudol angenrheidiol i ddechrelyd at y symiau sy'n daladwy i'r dreth gyngor am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/(Gostyngiad) yn dangos y symudiadau Balans Cronfa Gyffredinol statudol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

	Balans Cronfa Gyffredinol	Cronfa Derbynebaw Cyfalaf wrth Gefn	Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy	Cronfeydd wrth Gefn Annefyddadwy	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>30,877</b>	<b>2,084</b>	<b>0</b>	<b>32,961</b>	<b>-1,930,317</b>	<b>-1,897,356</b>
<u>Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2021-2022</u>						
Gwariant ac Incwm Hollgynhwysfawr	-43,608	0	0	-43,608	65,446	21,838
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 7)	53,218	266	0	53,484	-53,484	0
<b>Cynnydd (+)/gostyngiad (-) net yn 2021-2022</b>	<b>9,610</b>	<b>266</b>	<b>0</b>	<b>9,876</b>	<b>11,962</b>	<b>21,838</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021 a gariwyd ymlaen</b>	<b>40,487</b>	<b>2,350</b>	<b>0</b>	<b>42,837</b>	<b>-1,918,355</b>	<b>-1,875,518</b>
<u>Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod 2022-2023</u>						
Gwariant ac Incwm Hollgynhwysfawr	-33,118	0	0	-33,118	672,700	639,582
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 7)	40,243	1,227	0	41,470	-41,470	0
<b>Cynnydd (+)/gostyngiad (-) net yn 2022-2023</b>	<b>7,125</b>	<b>1,227</b>	<b>0</b>	<b>8,352</b>	<b>631,230</b>	<b>639,582</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023 a gariwyd ymlaen</b>	<b>47,612</b>	<b>3,577</b>	<b>0</b>	<b>51,189</b>	<b>-1,287,125</b>	<b>-1,235,936</b>

1: Mae balans y gronfa gyffredinol yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn hynny sydd wedi'u clustnodi'n benodol fel yr amlinellir yn Nodyn 8.

## Mantolen Grŵp

Mae'r Fantolen yn dangos y gwerth ar ddyddiad y Fantolen o'r asedau a'r dyledion a gydnabyddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae asedau net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (asedau llai dyledion) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Adroddir am gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae categori cyntaf cronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel darbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa wrth Gefn Derbynebaw Cyfalaf) a ellir eu defnyddio'n unig i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Ail gategori cronfeydd wrth gefn yw'r rhai hynny nad yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori o gronfeydd wrth gefn hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n cofnodi enillion a cholledion nas gwirededwyd (er enghraifft y Gronfa Adbrisio wrth Gefn), lle fyddai symiau ond yn dod ar gael i ddarparu gwasanaethau pe gwerthid yr asedau. Mae hefyd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n cofnodi gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau' yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Prif Gwnstabl	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Grŵp		Prif Gwnstabl	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Grŵp
2021-2022				2022-2023		
£000	£000	£000		£000	£000	£000
0	57,149	57,149	Tir ac Eiddo	0	93,572	93,572
0	9,783	9,783	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	0	11,166	11,166
1,950,063	0	0	Dyledwyr tymor hir i'r CHTh (nodyn 34)	1,354,866	0	0
<b>1,950,063</b>	<b>66,932</b>	<b>66,932</b>	<b>Asedau Tymor Hir (nodyn 12)</b>	<b>1,354,866</b>	<b>104,738</b>	<b>104,738</b>
0	19,856	19,856	Buddsoddiadau Tymor Byr (nodyn 36)	0	24,566	24,566
0	1,135	1,135	Asedau a Gadwyd ar Werth (nodyn 16)	0	0	0
394	0	394	Rhestr Eiddo (nodyn 13)	343	0	343
1,332	11,646	12,978	Dyledwyr Tymor Byr (nodyn 14)	5,332	15,667	20,999
9,657	0	0	Trosglwyddiad Oddi mewn i'r Grŵp	10,223	0	0
0	10,280	10,280	Arian parod ac arian parod cyfwerth (nodyn 15)	0	5,418	5,418
<b>11,383</b>	<b>42,917</b>	<b>44,643</b>	<b>Asedau Presennol</b>	<b>15,898</b>	<b>45,651</b>	<b>51,326</b>
0	-533	-533	Benthyciadau Tymor Byr (nodyn 36)	0	-531	-531
-18,017	-1,225	-19,242	Benthyciadau Tymor Byr (nodyn 17)	-19,185	-995	-20,180
0	-951	-951	Prydles Cyllid Tymor Byr (nodyn 31)	0	-1,031	-1,031
-1,726	-7,931	0	Trosglwyddiad Oddi mewn i'r Grŵp	-5,675	-4,548	0
0	-31	-31	Darpariaethau (nodyn 18)	0	-44	-44
<b>-19,743</b>	<b>-10,671</b>	<b>-20,757</b>	<b>Dyledion Presennol</b>	<b>-24,860</b>	<b>-7,149</b>	<b>-21,786</b>
0	-623	-623	Darpariaethau (nodyn 18)	0	-1,229	-1,229
0	-1,950,063	0	Credydwr tymor hir	0	-1,354,866	0
0	-8,375	-8,375	Benthyciadau Tymor Hir (nodyn 36)	0	-7,875	-7,875
0	-7,275	-7,275	Prydles Cyllid Tymor Hir (nodyn 31)	0	-6,244	-6,244
-1,950,063	0	0	Dyledion Tymor Hir eraill (nodyn 34)	-1,354,866	0	0
0	0	-1,950,063	Dyled yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Diffiniedig (nodyn 34)	0	0	-1,354,866
<b>-1,950,063</b>	<b>-1,966,336</b>	<b>-1,966,336</b>	<b>Dyledion Tymor Hir</b>	<b>-1,354,866</b>	<b>-1,370,214</b>	<b>-1,370,214</b>
<b>-8,360</b>	<b>-1,867,158</b>	<b>-1,875,518</b>	<b>Asedau Net</b>	<b>-8,962</b>	<b>-1,226,974</b>	<b>-1,235,936</b>
			<b>Ariennir gan:</b>			
0	42,837	42,837	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (nodiadau 7 a 8)	0	51,189	51,189
-8,360	-1,909,995	-1,918,355	Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy (nodyn 20)	-8,962	-1,278,163	-1,287,125
<b>-8,360</b>	<b>-1,867,158</b>	<b>-1,875,518</b>	<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn</b>	<b>-8,962</b>	<b>-1,226,974</b>	<b>-1,235,936</b>

### Datganiad Llif Arian Grŵp

Mae'r Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y cyfnod hysbysu. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn creu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth ag arian parod gan lifoedd arian parod fel gweithgarwch gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae'r nifer o lifoedd arian parod net sy'n codi o weithgarwch gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau yr ariennir gweithrediadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy drethiant ac incwm grant neu o dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae gweithgarwch buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at gyflawniad gwasanaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y dyfodol. Mae llifoedd arian parod sy'n codi o weithgarwch ariannu'n ddefnyddiol wrth ragfynegi hawliadau ar lifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycu) i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

<b>2021-2022 £000</b>		<b>2022-2023 £000</b>
43,608	Gweddill (-) neu ddiffyg (+) net ar ddarparu gwasanaethau	33,118
-57,493	Addasu gweddill (-) neu ddiffyg (+) net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau sydd ddim yn arian parod (Nodyn 21)	-41,309
450	Addasu ar gyfer eitemau a geir yn y gweddill (-) neu'r diffyg (+) net ar ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi ac ariannu gweithgarwch	1,644
-13,435	Lifoedd arian parod net o Weithgarwch Gweithredol (Nodyn 21)	-6,547
17,644	Gweithgarwch buddsoddi (Nodyn 22)	9,956
1,379	Gweithgarwch Cyllido (Nodyn 23)	1,453
<b>5,588</b>	<b>Cynnydd (-) neu ostyngiad (+) mewn arian parod ac arian parod cyfwerth</b>	<b>4,862</b>
15,868	Arian parod ac arian parod cyfwerth ar ddechrau'r cyfnod hysbysu (nodyn 15)	10,280
<b>10,280</b>	<b>Arian parod ac arian parod cyfwerth ar ddiwedd y cyfnod hysbysu (nodyn 15)</b>	<b>5,418</b>

## Nodiadau i Ddatganiad Cyfrifon y Grŵp

### 1. Ail-ddatganiad o Ddatganiadau'r blynyddoedd blaenorol

Nid oes newidiadau sydd angen ailddatgan Datganiad y flwyddyn flaenorol.

### 2. Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u rhannu ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddadlennu gwybodaeth sy'n berthnasol i effaith newid cyfrifyddu a fydd yn angenrheidiol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi'i roi ond sydd eto i'w fabwysiadu gan y Cod. Bydd angen y newidiadau canlynol o 1 Ebrill 2023:-

- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifon (Diwygiadau i IAS 8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Dadlennu Polisiâu Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Arfer IFRS 2) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad Cyfrifon.

### 3. Synnwyr Cyffredin Hanfodol wrth gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifyddu a amlinellir yn y Datganiadau, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gorfod gwneud synnwyr cyffredin penodol ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai hynny sy'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau'r dyfodol. Y barnau hanfodol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:-

Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch newidiadau arfaethedig i ariannu'r Heddlu yn y tymor canolig. Mae cynlluniau ar waith i fantoli'r gyllideb yn y dyfodol fel y nodir yn y cynllun ariannol tymor canolig. Fodd bynnag, nid ydy hi'n sicr a fydd y lefelau presennol o gyllid yn ddigonol er mwyn bodloni'r adnoddau sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig (MTFP) ac felly bydd cylchoedd cynllunio sefydliadol blynyddol yn digwydd yn unol â'r Strategaeth Ariannol a gyhwyso yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

### 4. Rhagdybiaethau a Wnaed am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Amcangyfrif Ansicrwydd

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd lle nad yw'r union swm yn hysbys eto. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, patrymau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir penderfynu ar falansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau mewn gwirionedd fod yn hollol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcanestyniadau.

Mae eitemau o fewn Mantolen y Grŵp ar 31 Mawrth 2023 y mae risg sylweddol o addasu deunydd ar eu cyfer yn y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw canlyniadau Presennol yn wahanol i Ragdybiaethau
Dyled Pensiynau	Mae amcangyfrif o'r ddyled/ased net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o farnau cymhleth sy'n berthnasol i'r gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd, y gyfradd y rhagwelir cyflogau i godi, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb ac elw disgwylidiedig asedau cronfeydd pensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol wedi ymgysylltu i roi cyngor arbenigol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghylch y rhagdybiaethau i'w cymhwyso.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y ddyled/ased bensiwn net. Mae effaith cynnydd neu ostyngiad yn y rhagdybiaethau e.e. cynnydd neu ostyngiad yn y gyfradd ostyngol wedi'i amlinellu yn Nodyn 34.

## 5. Eitemau Incwm a Gwariant Sylweddol

Dangosir holl eitemau incwm a gwariant sylweddol perthnasol ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

## 6. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Mae digwyddiadau sylweddol sydd ar ôl y dyddiad hysbysu ond cyn i'r datganiadau ariannol gael eu hawdurdodi i'w rhyddhau yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau a nodiadau ariannol. Os ydy digwyddiadau yn darparu gwybodaeth ynghylch amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi'u haddasu ar bob cyfrif er mwyn adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

## 7. Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan Reoliadau

Mae'r nodyn yn manylu'r addasiadau a wneir i'r cyfanswm incwm a gwariant hollgynhwysfawr a gydnabyddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y flwyddyn i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP) a darpariaethau statudol.

### Balans y Gronfa Gyffredinol:

Balans y Gronfa Gyffredinol ydy'r gronfa statudol y mae angen i dderbynebau Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael eu talu ac ohonynt y bodlonir holl dyledion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd oni bai i'r graddau y gall rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd fanylu'r flwyddyn ariannol y dylai'r dyledion a'r taliadau effeithio ar Weddill y Gronfa Gyffredinol sydd nid o anghenraid yn unol ag arfer cyfrifyddu iawn. Mae Balans y Gronfa Gyffredinol felly'n crynhoi'r adnoddau y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i rymuso'n statudol i wario ar ei wasanaethau neu fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gasglu) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn

Mae'r Gronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn yn cadw'r enillion o waredu tir neu asedau eraill. Maent wedi'u cyfyngu gan statud rhag cael eu defnyddio yn hytrach nag ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddibenion y flwyddyn.

### Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig

Mae'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig (Cronfa wrth Gefn) yn cadw'r grantiau a'r cyfraniadau a dderbynnir tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi bodloni'r amodau a fyddai fel arfer angen ad-dalu'r arian, ond sydd eto i'w cymhwyso i fodloni gwariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant ynghylch y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn erbyn a/neu ar gyfer y flwyddyn ariannol y gall hyn ddigwydd.

2022-2023	Cronfeydd Defnyddiadwy Wrth Gefn			Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn Annefnfyddadwy £000
	Balans Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn £000	Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig £000	
<b>Addasiadau i Adnoddau Refeniw:</b>				
Costau pensiynau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) gronfa bensiynau wrth gefn)	53,509	0	0	-53,509
Costau i ddibrisio neu ddiffyg ar asedau anghyfredol	-7,298	0	0	7,298
Colledion adbriso ar eiddo, peiriannau ac offer	0	0	0	0
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwysir	0	0	0	0
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r cyfrif absenoldebau cronedig)	602	0	0	-602
Offerynnau Ariannol (trosglwyddwyd i'r FIAA)	0	0	0	0
Gwrthdroi cofnodion a geir yn y SDPS o ran gwariant cyfalaf (a godir i'r CAA).	1,511	0	0	-1,511
<b>Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw</b>	<b>48,324</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>-48,324</b>
<b>Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf:</b>				
Trosglwyddo elw gwerthiant Asedau Anghyfredol o refeniw i'r gronfa derbynebau cyfalaf wrth gefn	-1,644	1,644	0	0
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled	-2,425	0	0	2,425
Gwariant cyfalaf a ariannir o falansau refeniw	-4,012	0	0	4,012
<b>Cyfanswm Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf</b>	<b>-8,081</b>	<b>1,644</b>	<b>0</b>	<b>6,437</b>
<b>Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf:</b>				
Cymhwyso grantiau cyfalaf i ariannu cyfalaf	0	0	0	0
Defnyddio'r Gronfa Derbynebau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	-417	0	417
Taliadau arian parod o ran derbynebau cyfalaf a ohiriwyd	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf</b>	<b>0</b>	<b>-417</b>	<b>0</b>	<b>417</b>
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>40,243</b>	<b>1,227</b>	<b>0</b>	<b>41,470</b>

2021-2022	Cronfeydd Defnyddiadwy Wrth Gefn			Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn Annefnfyddadwy £000
	Balans Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn £000	Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig £000	
<b>Addasiadau i Adnoddau Refeniw:</b>				
Costau pensiynau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) gronfa bensiynau wrth gefn)	53,366	0	0	-53,366
Costau i ddibrisio neu ddiffyg ar asedau anghyfredol	6,074	0	0	-6,074
Colledion adbriso ar eiddo, peiriannau ac offer	0	0	0	0
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwysir	-124	0	0	124
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r cyfrif absenoldebau cronedig)	-71	0	0	71
Offerynnau Ariannol (trosglwyddwyd i'r FIAA)	0	0	0	0
Gwrthdroi cofnodion a geir yn y SDPS o ran gwariant cyfalaf (a godir i'r CAA).	320	0	0	-320
<b>Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw</b>	<b>59,565</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>-59,565</b>
<b>Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf:</b>				
Trosglwyddo elw gwerthiant Asedau Anghyfredol o refeniw i'r gronfa derbynebau cyfalaf wrth gefn	-326	326	0	0
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled	-2,737	0	0	2,737
Gwariant cyfalaf a ariannir o falansau refeniw	-3,284	0	0	3,284
<b>Cyfanswm Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf</b>	<b>-6,347</b>	<b>326</b>	<b>0</b>	<b>6,021</b>
<b>Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf:</b>				
Cymhwyso grantiau cyfalaf i ariannu cyfalaf	0	0	0	0
Defnyddio'r Gronfa Derbynebau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	-60	0	60
Taliadau arian parod o ran derbynebau cyfalaf a ohiriwyd	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf</b>	<b>0</b>	<b>-60</b>	<b>0</b>	<b>60</b>
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>53,218</b>	<b>266</b>	<b>0</b>	<b>-53,484</b>

## 8. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r symiau a neilltuwyd o falansau'r Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn rhoi cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a bostiwyd yn ôl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn bodloni gwariant yn 2022-2023. Y symudiad net yn 2022-2023 oedd cynnydd o £7.011m.

Cronfa wrth Gefn:	Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000	Trosglwyddiadau Allan 2021-2022 £'000	Trosglwyddiadau i Mewn 2021-2022 £'000	Balans ar 31 Mawrth 2022 £'000	Trosglwyddiadau Allan 2022-2023 £'000	Trosglwyddiadau i Mewn 2022-2023 £'000	Trosglwyddiad Rhwng 2022-2023 £'000	Balans ar 31 Mawrth 2023 £'000
Cronfa Gyfalaf wrth Gefn	3,002	-192	1,000	3,810	-510	0	0	3,300
Cronfa wrth Gefn Pensiynau Afiechyd	975	0	0	975	0	0	0	975
Cronfa wrth Gefn PFI	3,106	-188	0	2,918	-241	0	0	2,677
Cronfa Digwyddiadau Difrifol	2,435	0	0	2,435	0	0	0	2,435
Cronfa Yswiriant wrth Gefn	1,173	0	388	1,561	0	0	0	1,561
Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau	1,892	-288	0	1,604	-463	0	0	1,141
Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn	6,976	-653	2,104	8,427	0	45	-1,883	6,589
Cronfa hyfforddi wrth gefn	600	0	50	650	0	0	0	650
Cronfa wrth gefn Uplift	1,577	0	2,826	4,403	0	216	-1,144	3,475
Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN)	158	0	750	908	0	3,350	3,027	7,285
COVID ac Adfer o COVID	597	-313	0	284	0	0	0	284
PEQF	325	0	250	575	0	47	0	622
Cronfa Ynni wrth Gefn	0	0	800	800	0	2,000	0	2,800
Cronfa Gynaliadwyedd wrth Gefn	0	0	0	0	0	2,000	0	2,000
Cronfa Plismona Cymdogaethau wrth Gefn	0	0	1,282	1,282	0	0	0	1,282
Cronfa Balansau Partneriaethau wrth Gefn	733	-24	243	952	-16	126	0	1,062
FCIN	1,080	-101	636	1,615	-51	492	0	2,056
Minerva	0	0	294	294	-70	0	0	224
Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd	508	0	73	581	0	118	0	699
Checkpoint (SCHTh/GPLI)	16	0	14	30	0	17	0	47
Cronfa Gyfreithiol wrth Gefn (SCHTh)	106	0	0	106	-6	0	0	100
Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd	201	0	70	271	-43	0	0	228
	<b>25,460</b>	<b>-1,759</b>	<b>10,780</b>	<b>34,481</b>	<b>-1,400</b>	<b>8,411</b>	<b>0</b>	<b>41,492</b>

## 9. Gwariant Gweithredu Eraill

	2022-2023 £000	2021-2022 £000
Enillion (-)/colledion(+) ar waredu asedau anghyfredol	-133	-6
	<b>-133</b>	<b>-6</b>

## 10. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi

	2022-2023 £000	2021-2022 £000
Llog taladwy a chostau tebyg	857	943
Cost llog pensiwn a'r elw disgwylidig ar asedau pensiynau	51,768	39,436
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	-704	-16
	<b>51,921</b>	<b>40,363</b>



## 11. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

<b>Incwm Treth Gyngor:</b>	<b>2022-2023 £000</b>	<b>2021-2022 £000</b>
Cyngor Sir Ddinbych	-12,875	-12,387
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	-17,001	-16,363
Cyngor Sir Ynys Môn	-10,151	-9,639
Cyngor Gwynedd	-17,017	-15,854
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	-16,163	-15,576
Cyngor Sir y Fflint	-20,654	-19,869
Incwm Cyfraddau Annomestig	-253	-12,235
Grantiau llywodraeth heb eu clustnodi	-88,154	-71,442
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	0	-124
	<b>-182,268</b>	<b>-173,489</b>

## 12. Eiddo, Peiriannau ac Offer

<b>Symudiadau yn 2022-2023</b>	<b>Tir ac Adeilad gan gynnyws PFI £000</b>	<b>Mastiau a Safleoedd £000</b>	<b>Peiriannau ac Offer £000</b>	<b>Cerbydau £000</b>	<b>Cyfanswm Asedau Gweithredol £000</b>	<b>Asedau Dros Ben (Anweithredol) £000</b>	<b>Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu £000</b>	<b>Cyfanswm Anweithredol £000</b>	<b>Cyfanswm Asedau Anghyfredol £000</b>
<b>Cost neu Bris</b>									
Ar 1 Ebrill 2022	77,547	100	23,388	10,035	111,070	400	4,177	4,577	115,647
Ychwanegiadau	287	0	1,682	1,528	3,497	0	3,392	3,392	6,889
Cynnydd (+)/gostyngiadau (-) adbriso a gydnabyddir yn y Gronfa Adbriso wrth Gefn	23,068	0	0	0	23,068	-30	0	-30	23,038
Cynnydd (+)/gostyngiadau (-) adbriso a gydnabyddir yn y Gweddill/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	11,515	0	0	0	11,515	0	0	0	11,515
Datgydnabod – gwarediadau	-272	0	0	-1,250	-1,522	0	0	0	-1,522
Enillion (+) a cholledion (-) profiad eraill	-20,058	-652	-104,410	-9,880	-124,468
Newidiadau mewn uchafswm asedau	-56,161	0	0	0	-56,161
<b>Cyfanswm Budd Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr</b>	<b>76,096</b>	<b>51,144</b>	<b>572,610</b>	<b>-14,530</b>	<b>648,706</b>
<b>Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn</b>					
Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o fuddion ôl-gyflogaeth	-13,119	14,616	-40,390	-38,750	-53,509

### Asedau a Dyledion Pensiynau a Gydabyddir yn y Fantolen.

Mae'r swm a geir yn y fantolen sy'n codi o ddyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran ei gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu		Cyfanswm
	31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2023 £000
Gwerth presennol y ddyled budd ddiffiniedig	234,690	352,010	1,355,800	1,888,020	1,590,490
Gwerth teg o asedau cynllun	-291,785	-289,967	0	0	-291,785
Is-gyfanswm	-57,095	62,043	1,355,800	1,888,020	1,298,705
Symudiad arall yn y ddyled (+)/ased (-) (os yn berthnasol)	56,161	0	0	0	56,161
<b>Net (Ased) / Dyled yn codi o'r rhwymedigaeth budd ddiffiniedig</b>	<b>-934</b>	<b>62,043</b>	<b>1,355,800</b>	<b>1,888,020</b>	<b>1,354,866</b>

### Cymodi'r Symudiad yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	289,967	261,100
Incwm llog	8,048	5,399
Elw (+)/colled (-) ailfesuriad:		
- yr elw ar asedau cynllun, gan eithrio'r swm a geir yn y gost llog net	-10,688	18,579
- Arall (os yn berthnasol)	-1,343	0
Cyfraniad gan gyflogwyr	7,712	7,102
Cyfraniadau gan weithwyr	2,695	2,478
Buddion a dalwyd	-4,606	-4,691
<b>Gwerth teg clo asedau'r cynllun</b>	<b>291,785</b>	<b>289,967</b>

**Cysoni Gwerth Presennol Dyledion y Cynllun (Dyled Budd Ddiffiniedig)**

	Dyledion a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Dyledion nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	352,010	359,671	1,888,020	1,863,800
Cost gwasanaeth presennol	18,874	19,680	35,320	45,070
Cost llog	9,906	7,545	49,910	37,290
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	2,695	2,478	8,170	7,960
Enillion (+) a cholledion (-) profiad eraill				
- Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	-9,686	-1,834	-28,940	0
- Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	-153,317	-31,383	-648,080	-24,410
- Enillion/colledion profiad eraill	18,715	652	104,410	9,880
- Newidiadau oherwydd uchafswm asedau	56,161	0	0	0
Costau gwasanaeth blaenorol	208	2	0	0
Trosglwyddiadau i Mewn	0	0	290	340
Buddion a dalwyd	-4,606	-4,691	-53,300	-51,910
Dyledion a ddilêwyd ar setliadau (lle bo'n berthnasol)	-109	-110	0	0
<b>Balans clo ar 31 Mawrth</b>	<b>290,851</b>	<b>352,010</b>	<b>1,355,800</b>	<b>1,888,020</b>

**Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:**

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2022-2023			Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2021-2022		
	Dyfnbrisiau mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	Cyfanswm £000	Dyfnbrisiau mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	Cyfanswm £000
Arian parod ac arian parod cyfwerth	911	0	911	904	0	904
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>911</b>	<b>0</b>	<b>911</b>	<b>904</b>	<b>0</b>	<b>904</b>
Eiddo:						
<i>Yn ôl math:</i>						
Eiddo'r DU	0	24,048	24,048	0	24,869	24,869
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>24,048</b>	<b>24,048</b>	<b>0</b>	<b>24,869</b>	<b>24,869</b>
Y DU a thramor	0	18,369	18,369	0	16,341	16,341
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>18,369</b>	<b>18,369</b>	<b>0</b>	<b>16,341</b>	<b>16,341</b>
Cronfeydd Buddsoddi Eraill ac ymddiriedolaethau uned:						
Ecwitiau	0	181,645	181,645	0	184,282	184,282
Seilwaith	0	8,284	8,284	0	5,668	5,668
Arall	0	58,528	58,528	0	57,903	57,903
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>248,457</b>	<b>248,457</b>	<b>0</b>	<b>247,853</b>	<b>247,853</b>
<b>Cyfansymiau</b>	<b>911</b>	<b>290,874</b>	<b>291,785</b>	<b>904</b>	<b>289,063</b>	<b>289,967</b>

**Sail am amcangyfrif Asedau a Dyledion**

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned amcanestynol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol gan ddibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwoldeb, lefelau cyflog ayyb.

Mae dyledion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Cymru wedi'u hamcangyfrif gan Hymans Robertson ac mae dyledion Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u hamcangyfrif gan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae'r ddau yn sefydliad actwari annibynnol. Mae amcangyfrifon y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar werth llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2022.

Mae amcangyfrif y dyledion budd diffiniedig yn sensitif i'r tybiaethau actiwaraid a ddefnyddir. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi'i benderfynu yn seiliedig ar newidiadau rhesymol o'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae hyn yn tybio os newid un tybiaeth, bydd y gweddill yn parhau'n gyson. Mae'r amcangyfrif yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn y polisiâu cyfrifyddu am y cynllun h.y. ar sail actiwaraid gan ddefnyddio dull credyd uned amcanol. Ni wnaeth y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddir wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod o'r rhai hynny a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

2022-2023	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	Cynnydd mewn rhagdybiaeth £000	Lleihad mewn rhagdybiaeth £000	Cynnydd mewn rhagdybiaeth £000	Lleihad mewn rhagdybiaeth £000
Hirhoedledd (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) mewn 1 flwyddyn)	9,388	-9,388	33,000	-33,000
Cyfradd chwyddiant (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%)	22,520	-22,520	104,000	-104,000
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%)	4,050	-4,050	13,000	-13,000
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%)	22,520	-22,520	103,000	-103,000
Cyfradd ar gyfer gostwng dyledion cynllun (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%)	-26,195	26,195	-104,000	104,000

### Strategaeth Cyfateb Asedau a Dyledion (ALM)

Nid oes gan bwyllgor pensiynau Cyngor Gwynedd strategaeth cyfateb asedau a dyledion (ALM). Cyfrifoldeb y pwyllgor pensiynau yw strategaeth rheoli risgiau'r Gronfa. Mae rhaglen rheoli risg cyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau effeithiau andwyol posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi creu Datganiad Strategaeth Ariannu ar y cyd ac Actiwarïaid y Gronfa, sy'n dweud sut y rheolir diddyledrwydd a risg o ran dyledion. Adolygwyd a diweddarwyd y Strategaeth yn dilyn y prisio actiwaraid yn 2022. Mae wedi cymryd safbwynt cyffredinol o'r lefel o risg sy'n gynhenid yn y polisi buddsoddi a amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddiadau a gyhoeddir o dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, (y rheoliadau buddsoddi) a'r polisi ariannu a amlinellwyd yn y Datganiad. Mae'r dogfennau hyn yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau fod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

### Effaith ar Lif Arian Parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Monitrir lefelau ariannu'n flynyddol. Cwblheir y prisio bob tair blynedd nesaf yn 2025-22026 i'w weithredu o fis Ebrill 2026.

Bydd angen i'r cynllun ystyried y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun o dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013. O dan y Ddeddf, gall y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr a'r prif gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus presennol eraill beidio â darparu buddion o ran gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 ar gyfer prif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru a Lloegr). Mae'r Ddeddf yn darparu rheoliadau cynllun i gael eu gwneud o fewn fframwaith cyffredin, sefydlu cynlluniau enillion cyfartalog gyrfa newydd wedi'u hadbrisio i dalu pensiynau a buddion eraill i weision cyhoeddus penodol.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl talu £7.590 miliwn o gyfraniadau i'r cynllun yn 2023-2024.

Hyd cyfartalog cymhwysol y ddyled budd ddiffiniedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ydy 22.0 mlynedd, 2022-2023, (26.0 mlynedd 2021-2022). Y cyfartaledd cymhwysol ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu ydy 17.0 mlynedd, 2022-2023, (21.0 mlynedd 2021-2022).

### 35. Dyledion wrth Gefn

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfanswm o £2.834 miliwn wrth gefn fel yswiriant (£2.215m yn flaenorol). Mae hwn yn cynnwys £1.561 miliwn yn y Gronfa Yswiriant wrth Gefn (Nodyn 8) a £1.273 miliwn yn y Ddarpariaeth Yswiriant (Nodyn 18). Mae'r Gronfa Yswiriant wrth Gefn (Nodyn 8) yn cynnwys £0.117 miliwn yn berthnasol i'r dyledion ychwanegol posibl o ran y Cynllun Trefniant ar gyfer Municipal Mutual Assurance a £1.444 miliwn ar gyfer meysydd yswiriant ychwanegol o ran hawliadau, 'A gafwyd ond heb ei hysbysu amdano' (IBNR), 'Cronfeydd wrth gefn a gafwyd ond na hysbyswyd ddigon (darpariaethau)' IBNER a symiau ychwanegol a argymhellir.

Mae Nodyn 34 yn manylu sawl achos cyfreithiol perthnasol Pensiwn a all arwain at ddyledion yn y dyfodol. Ni ailadroddir y rhain yma.

Nid oes dyledion wrth gefn hysbys eraill hyd at 31 Mawrth 2023.

### 36. Offerynnau Ariannol yn cynnwys Natur a Graddau'r Risgiau sy'n Codi

#### (a) Offerynnau Ariannol – Dosbarthiadau

Offeryn ariannol ydy cytundeb sy'n esgor ar ased ariannol un endid a dyled ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Nid ydy trafodion na ellir eu cyfnewid, fel y rhai hynny sy'n berthnasol i drethi a grantiau llywodraeth, yn esgor offerynnau ariannol.

#### Dyledion Ariannol

Dyled ariannol ydy rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gynrychiolir gan rwymedigaeth gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a dyledion ariannol gydag endid arall sydd o bosibl yn anffafriol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae holl ddyledion ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gadwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost ohiriedig ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthycwyr masnachol,
- benthyciadau tymor byr gan awdurdodau lleol eraill,
- gorddrafft gyda banc HSBC,
- prydles daladwy gan gynnwys contractau Menter Gyllid Breifat a fanylir yn nodyn 31a
- masnach daladwy am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

#### Asedau Ariannol

Ased ariannol yw hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill neu hawl i gyfnewid asedau a dyledion ariannol gydag endid arall sydd o bosibl yn ffafriol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae holl asedau ariannol a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost ohiriedig (lle mae llifoedd arian parod yn daliadau cyfalaf a llog. Model busnes y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw casglu'r llifoedd arian parod hynny) sy'n cynnwys:

- arian parod mewn llaw,
- cyfrifon cyfredol a blaendaliadau banc gyda banc HSBC,
- blaendaliadau tymor sefydlog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu,
- derbyniadau masnach am y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd.

Mae asedau ariannol a gadwyd ar gost ohiriedig yn cael eu dangos gyda net o lwfans colled (lle mae'n sylweddol) sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol y bydd y gwrthbarti yn methu bodloni eu hymrwymyadau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## (b) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r dyledion ariannol a ddadlennir yn y Fantolen wedi'u dadansoddi ledled y categorïau canlynol:

Dyledion Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31.3.2023	31.3.2022	31.3.2023	31.3.2022
	£000	£000	£000	£000
Benthyciadau ar gost ohiriedig:				
- Prif swm a fenthycwyd	7,875	8,375	500	500
- Llog cronodig	0	0	31	33
<b>Cyfanswm Benthycya *</b>	<b>7,875</b>	<b>8,375</b>	<b>531</b>	<b>533</b>
Benthyciadau ar gost ohiriedig:				
- Gorddrafft banc	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Arian Parod Dyledus</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Dyledion ar gost ohiriedig:				
- Trefniadau PFI	6,244	7,275	1,031	951
<b>Cyfanswm Dyledion Tymor Hir Arall:</b>	<b>6,244</b>	<b>7,275</b>	<b>1,031</b>	<b>951</b>
Dyledion ar gost ohiriedig:				
- Taliadau masnach	0	0	20,180	20,524
<b>Cynhwysir mewn Credydwy</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>20,180</b>	<b>20,524</b>
<b>Cyfanswm Dyledion Ariannol</b>	<b>14,119</b>	<b>15,650</b>	<b>21,742</b>	<b>22,008</b>

\* Mae cyfanswm benthyciadau tymor byr yn cynnwys prif ad-daliadau sy'n ddyledus o fewn 12 mis benthyciadau tymor hir.

Mae'r asedau ariannol a ddadlennir yn y Fantolen wedi'u dadansoddi ledled y categorïau canlynol:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31.3.2023	31.3.2022	31.3.2023	31.3.2022
	£000	£000	£000	£000
<i>Ar gost ohiriedig:</i>				
- Prif swm	0	0	24,500	19,850
- Llog cronodig	0	0	66	6
- Lwfans colled	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>24,566</b>	<b>19,856</b>
<i>Ar gost ohiriedig:</i>				
- Prif swm	0	0	5,399	10,280
- Llog cronodig	0	0	19	0
- Lwfans colled	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Arian parod ac arian parod cyfwerth</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>5,418</b>	<b>10,280</b>
<i>Ar gost ohiriedig:</i>				
- Derbyniadau Masnach	0	0	21,015	12,993
- Lwfans colled	0	0	-16	-15
<b>Cynhwysir mewn Dyledwyr</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>20,999</b>	<b>12,978</b>
<b>Cyfanswm Asedau Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>50,983</b>	<b>43,114</b>

### Gwrthbwyso Asedau a Dyledion Ariannol

Mae asedau a dyledion ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd lle mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hawl wedi'i gorfodi'n gyfreithiol i osod. Mae'n bwriadu un ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r ddyled ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u gosod ar y fantolen.

	31.3.2023			31.3.2022		
	Asedau gros (dyledion) £000	(Dyledion) asedau a osodir £000	Sefyllfa net ar y fantolen £000	Asedau gros (dyledion) £000	(Dyledion) asedau a osodir £000	Sefyllfa net ar y fantolen £000
Derbyniadau masnach	20,999	0	20,999	12,978	0	12,978
Cyfrifon banc mewn credyd	5,436	-18	5,418	10,287	-7	10,280
<b>Cyfanswm asedau ariannol</b>	<b>26,435</b>	<b>-18</b>	<b>26,417</b>	<b>23,265</b>	<b>-7</b>	<b>23,258</b>
Taliadau masnach	-20,180	0	-20,180	-20,524	0	-20,524
Cyfrifon banc mewn debyd	-18	18	0	-7	7	0
Benthyciadau	-8,406	0	-8,406	-8,908	0	-8,908
Trefniadau PFI	-7,275	0	-7,275	-8,226	0	-8,226
<b>Cyfanswm dyledion ariannol</b>	<b>-35,879</b>	<b>18</b>	<b>-35,861</b>	<b>-37,665</b>	<b>7</b>	<b>-37,658</b>

### (c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr o ran offerynnau ariannol yn cynnwys y canlynol:

	Dyledion Ariannol	Asedau Ariannol		
	Cost ohriedig	Cost ohriedig	Cyfanswm 2022-2023	Cyfanswm 2021-2022
	£000	£000	£000	£000
Traul llog	856	0	856	940
Colledion diffyg	1	0	1	3
Colledion o newidiadau mewn gwerth teg	51,768	0	51,768	39,436
Ffioedd a dalwyd	0	0	0	0
<b>Llog taladwy a chostau tebyg</b>	<b>52,625</b>	<b>0</b>	<b>52,625</b>	<b>40,379</b>
Incwm llog	0	-704	-704	-16
<b>Incwm llog a buddsoddiad</b>	<b>0</b>	<b>-704</b>	<b>-704</b>	<b>-16</b>
<b>Effaith net ar warged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>52,625</b>	<b>-704</b>	<b>51,921</b>	<b>40,363</b>

### (d) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Mae offerynnau ariannol a ddisbarthwyd ar gost ohriedig yn cael eu trosglwyddo yn y Fantolen ar gost ohriedig. Mae eu gwerthoedd teg wedi'u hamcangyfrif drwy gyfrifyddu'r gwerth presennol net o'r llifioedd arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023, gan ddefnyddio'r dulliau a rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau a fenthycwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u priso drwy ostwng y llifioedd arian parod cytundebol dros oes gyfan yr offeryn ar y gyfradd farchnad briodol ar gyfer benthyciadau awdurdod lleol.
- Mae gwerthoedd teg benthyciadau tymor hir a buddsoddiadau eraill wedi'u gostwng ar y cyfraddau marchnad am offerynnau tebyg gyda thelerau tebyg yn weddill i aeddfedrwydd ar 31 Mawrth.



- Mae gwerthoedd teg dyledion cynllun PDF wedi'u cyfrifyddu drwy ostwng y llifoedd arian parod cytundebol (gan eithrio elfennau tâl gwasanaeth a thâl llog) ar yr arenillion bond corfforaethol gradd AA- priodol.
- Ni chydabyddir ad-daliad cynnar neu ddiffyg am unrhyw offeryn ariannol.
- Tybir fod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys taliadau a derbyniadau masnach, yn oddeutu'r swm trosglwyddo o ystyried yr amgylchfyd cyfradd llog isel a sefydlog.

Gwelir gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi'u rhannu gan eu lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – mae gwerth teg ond yn tarddu o ddyfynbrisiau mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ddyledion yr union yr un fath, e.e. prisiau bond
- Lefel 2 – cyfrifir gwerth teg o fewnbynau oni bai am ddyfynbrisiau sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu'r ddyled, e.e. cyfraddau llog neu arenillion am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – penderfynir ar werth teg gan ddefnyddio mewnbynau nas gwelir, e.e. data di-farchnad fel rhagolygon llif arian parod neu deilyngdod credyd amcangyfrifedig

	Lefel Gwerth Teg	Mantolen 31.3.2023 £000	Gwerth Teg 31.3.2023 £000	Mantolen 31.3.2022 £000	Gwerth Teg 31.3.2022 £000
<b>Dyledion ariannol a gadwyd ar gost ohiriedig:</b>					
Benthyciadau tymor hir o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	2	8,375	6,429	8,875	7,963
Taliadau prydles a dyledion PFI	2	7,275	6,124	8,226	7,452
<b>Cyfanswm</b>		<b>15,650</b>	<b>12,553</b>	<b>17,101</b>	<b>15,415</b>
Dyledion lle na ddadlennir gwerth teg *		20,211		20,557	
<b>Cyfanswm Dyledion Ariannol</b>		<b>35,861</b>		<b>37,658</b>	
<b>Cofnodwyd ar y fantolen fel:</b>					
Credydwyr tymor byr		20,180		20,524	
Benthyciadau tymor byr		531		533	
Dyledion tymor hir eraill		1,031		951	
Benthyciadau tymor hir		7,875		8,375	
Dyledion tymor hir eraill		6,244		7,275	
<b>Cyfanswm Dyledion Ariannol</b>		<b>35,861</b>		<b>37,658</b>	

\* Tybir bod gwerth teg rhwymedigaethau ariannol tymor byr a ddelir ar gost amortedig, gan gynnwys symiau masnach taladwy, yn cyfateb i'r swm cario.

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost amortedig yn is na'u mantolen sy'n cario swm gan fod y gyfradd llog gynhenid o fewn y tâl unedol PFI yn uwch na'r cyfraddau marchnad presennol sydd ar gael ar ddyddiad y Fantolen

	Lefel Gwerth Teg	Mantolen 31.3.2023 £000	Gwerth Teg 31.3.2023 £000	Mantolen 31.3.2022 £000	Gwerth Teg 31.3.2022 £000
<b>Asedau ariannol a gadwyd ar gost ohiriedig:</b>					
Bond Corfforaethol	1	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>		<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Asedau lle na ddadlennir gwerth teg *		50,983		43,114	
<b>Cyfanswm Asedau Ariannol</b>		<b>50,983</b>		<b>43,114</b>	
<b>Cofnodwyd ar y fantolen fel:</b>					
Dyledwyr tymor byr		20,999		12,978	
Buddsoddiadau tymor byr		24,566		19,856	
Arian parod ac arian parod cyfwerth		5,418		10,280	
<b>Cyfanswm Asedau Ariannol</b>		<b>50,983</b>		<b>43,114</b>	

\* Tybir fod gwerth teg asedau ariannol tymor byr a gadwyd ar gost ohiriedig, yn cynnwys derbyniadau masnach, i fod oddeutu'r swm trosglwyddo.

### e) Offerynnau Ariannol – Risgiau

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol CIPFA. Diwygiwyd y ddau ym mis Rhagfyr 2017.

Yn unol â Chod Rheoli'r Trysorlys, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn cychwyn bob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r ffiniau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn cymeradwyo Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n manylu'r trefniadau arferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi mewn cydymffurfiaeth gyda Chanllaw Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae'r Canllawiau hyn yn pwysleisio y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch.

Y prif risgiau a ofelir amdanynt yw:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd gwrthbarti i ased ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod â'r arian parod ar gael i wneud taliadau cytundebol ar amser.
- *Risg Marchnad:* Y posibilrwydd y gall colled ariannol heb ei chynllunio ddwyn ffrwyth oherwydd newidiadau mewn amrywiadau marchnad fel cyfraddau llog neu brisiau ecwiti.

#### Risg Credyd: Buddsoddiadau'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau fod buddsoddiadau'r trysorlys ond yn cael eu lleoli gyda sefydliadau o ansawdd credyd uchel fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gyda gradd gredyd tymor hir sylfaenol o A-, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb raddau credyd y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol.

Gall cyfyngiad o £10m o'r portffolio cyfan gael ei fuddsoddi gyda HSBC fel bancwyr cytundebol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gosodir cyfyngiad o £4m ar y swm o arian a ellir ei fuddsoddi gyda gwrthbartion unigol eraill (heblaw am lywodraeth y DU). Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £5m am gyfnod hirach na blwyddyn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi datguddiadau risg credyd portffolio buddsoddi'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy radd gredyd ac amser sy'n weddill i aeddfedu:

Statws Credyd *	31.3.2023		31.3.2022	
	Tymor Hir £000	Tymor Byr £000	Tymor Hir £000	Tymor Byr £000
Llywodraeth y DU	0	24,500	0	19,850
AAA	0	0	0	0
AA+	0	0	0	0
AA	0	0	0	0
AA-	0	2,362	0	5,387
A+	0	3,015	0	4,858
A	0	0	0	0
A-	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>0</b>	<b>29,877</b>	<b>0</b>	<b>30,095</b>

\* yn unol â gradd tymor hir cyhoeddedig Fitch ar 31.3.2023

Mae'r cyfrif cyfredol yn HSBC sydd â gradd AA-.

#### Risg Credyd: Symiau Masnach Derbyniadwy

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi symiau masnach y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, erbyn y dyddiad dyledus. Dim ond y symiau derbyniadwy hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ased ariannol sydd wedi'u cynnwys.

	31.3.2023		31.3.2022	
	Derbyniadau masnach	Symiau derbyniadwy prydles	Derbyniadau masnach	Symiau derbyniadwy prydles
	£000	£000	£000	£000
Heb ddarfod na'i amharu	7,063	0	6,161	0
I ddarfod < 3 mis	2,424	0	1,144	0
I ddarfod > 3 mis	1,266	0	241	0
Amhariad unigol	16	0	16	0
<b>Cyfanswm Symiau Derbyniadwy</b>	<b>10,769</b>	<b>0</b>	<b>7,562</b>	<b>0</b>

Cyfrifwyd lwfansau colli ar symiau masnach derbyniadwy drwy gyfeirio at brofiad hanesyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ddiodyn. Penderfynir bod nam ar gredyd yn cael ei benderfynu os ydynt 90 diwrnod neu fwy yn ddyledus. Yn y pen draw, caiff lwfansau colled eu dileu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae lwfansau colledion yn cael eu dileu ar sail bob achos i'r Gweddill neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

### Risg Hylifedd

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fynediad parod at fenthycy ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg canfyddedig na fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu codi cyllid i gyflawni ei ymrwymadau. Fodd bynnag, mae perygl y bydd angen ail-ariannu cyfran sylweddol o fenthycy ar adeg o gyfraddau llog anffafriol uchel.

Mae'r dadansoddiad aeddfedrwydd o offerynnau ariannol fel a ganlyn. Mae'n cael ei ddangos fel ffigyrau wedi gostwng (prif log ynghyd â llog cronedig hyd yma) a ffigyrau heb ostyngiad (prif daliadau llog ynghyd â rhai'r dyfodol):

31.03.2023	< 1 flwyddyn	1-2 flynedd	2-5 flynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	CYFANSWM
Wedi gostwng	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Benthycy	500	500	1,500	2,500	3,375	8,375
Taliadau masnach	20,211	0	0	0	0	20,211
Taliadau prydles	1,031	1,118	3,961	1,165	0	7,275
<b>Dyledion ariannol</b>	<b>21,742</b>	<b>1,618</b>	<b>5,461</b>	<b>3,665</b>	<b>3,375</b>	<b>35,861</b>
Risg hylifedd	-50,983	0	0	0	0	-50,983
<b>Risg hylifedd net</b>	<b>-29,241</b>	<b>1,618</b>	<b>5,461</b>	<b>3,665</b>	<b>3,375</b>	<b>-15,122</b>

31.03.2023	< 1 flwyddyn	1-2 flynedd	2-5 flynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	CYFANSWM
Heb ostyngiad	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Benthycy	601	595	1,748	2,788	3,515	9,247
Taliadau masnach	20,211	0	0	0	0	20,211
Taliadau prydles	1,692	1,685	5,018	1,244	0	9,639
<b>Dyledion ariannol</b>	<b>22,504</b>	<b>2,280</b>	<b>6,766</b>	<b>4,032</b>	<b>3,515</b>	<b>39,097</b>
Risg hylifedd	-50,983	0	0	0	0	-50,983
<b>Risg hylifedd net</b>	<b>-28,479</b>	<b>2,280</b>	<b>6,766</b>	<b>4,032</b>	<b>3,515</b>	<b>-11,886</b>

31.03.2022	< 1 flwyddyn	1-2 flynedd	2-5 flynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	CYFANSWM
Wedi gostwng	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Benthyca	500	500	1,500	2,500	3,875	8,875
Taliadau masnach	19,275	0	0	0	0	19,275
Taliadau prydles	951	1,031	3,649	2,595	0	8,226
<b>Dyledion ariannol</b>	<b>20,726</b>	<b>1,531</b>	<b>5,149</b>	<b>5,095</b>	<b>3,875</b>	<b>36,376</b>
Risg hylifedd	-43,114	0	0	0	0	-43,114
<b>Risg hylifedd net</b>	<b>-22,388</b>	<b>1,531</b>	<b>5,149</b>	<b>5,095</b>	<b>3,875</b>	<b>-6,738</b>

31.03.2022	< 1 flwyddyn	1-2 flynedd	2-5 flynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	CYFANSWM
Heb ostyngiad	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Benthyca	608	601	1,766	2,819	4,061	9,855
Taliadau masnach	19,275	0	0	0	0	19,275
Taliadau prydles	1,699	1,692	5,037	2,910	0	11,338
<b>Dyledion ariannol</b>	<b>21,582</b>	<b>2,293</b>	<b>6,803</b>	<b>5,729</b>	<b>4,061</b>	<b>40,468</b>
Risg hylifedd	-43,114	0	0	0	0	-43,114
<b>Risg hylifedd net</b>	<b>-21,532</b>	<b>2,293</b>	<b>6,803</b>	<b>5,729</b>	<b>4,061</b>	<b>-2,646</b>

### Risgiau'r Farchnad: Risg Cyfradd Llog

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau cyfradd llog ar fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog yn codi
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y rhwymedigaethau yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd cost y llog yn codi
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y dyledion yn gostwng

Nid yw buddsoddiadau yn cael eu mesur ar gost ohiriedig ac nid yw benthyciadau yn cael eu trosglwyddo ar werth teg. Felly ni fydd newidiadau yn eu gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn llog sy'n daladwy neu'n dderbyniol ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol yn cael eu rhoi ar y Gweddill neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau. Mae symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a fesurir ar werth teg yn cael eu hadlewyrchu mewn Incwm Hollgynhwysfawr Arall neu'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaethau Gwasanaethau fel sy'n briodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn anelu i liniaru'r risgiau hyn drwy osod terfynau uchaf ar ei ddadleniadau net i gyfraddau llog sefydlog ac amrywiol. Ar 31 Mawrth 2023, rhoddwyd 100% (2022: 100%) o egwyddor net a fenthyciwyd (h.y., net benthyca buddsoddiadau) ar gyfraddau sefydlog a 0% (2022: 0%) i gyfraddau amrywiol.

### Risgiau'r Farchnad: Risg Prisiau

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn buddsoddi mewn cyfraddau ecwiti ac nid ydynt felly'n amodol ar unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau andwyol ym mhrys yr offeryn ariannol).

### Risgiau'r Farchnad: Risg Cyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd asedau na dyledion ariannol mewn arian cyfred tramor. Felly nid oes dadleniad i golled yn codi o ganlyniad i symudiadau andwyol mewn cyfraddau cyfnewid.

### 37. Cynlluniau Partneriaeth

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghlwm mewn gwaith partneriaeth gyda DangerPoint Ltd ac Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT). Mae manylion am gyfrifon PACT a DangerPoint ar gael ar gais.

### 38. Cronfeydd

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweinyddu'r cronfeydd canlynol at y dibenion a ddywedir –

	31.3.2023 £000	31.3.2022 £000
Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu (Enillion o eiddo a atafaelwyd i'w dyrannu i elusennau)	4	10
Cronfa Camddefnyddio Cyffuriau (Arian a atafaelwyd o ymholiadau Cyffuriau a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant mewn atal cyffuriau)	143	134
	<b>147</b>	<b>144</b>

### 39. Gweithrediadau/Cydweithrediad a Reolir ar y Cyd

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhan o nifer o gydweithrediadau (yn rhanbarthol a chenedlaethol) yn ystod 2022-23. Mae canllaw CIPFA ar gyfrifyddu ar gyfer cydweithrediad wedi'i ystyried wrth benderfynu ar natur y cysylltiadau. Gan fod y mwyaf o drefniadau â rheolaeth ar y cyd drwy fwrdd rheoli strategol, ystyrir fod y mwyaf wedi'u dosbarthu'n gywir fel gweithrediadau ar y cyd. Mae rhai trefniadau o natur gydweithredol ond wedi'u dosbarthu fel taliadau trydydd parti. Mae eraill yn cynnwys swyddogion o heddluoedd unigol yn cyflawni dyletswyddau'n rheolaidd ond yn cael eu hariannu gan brif heddlu o grantiau a wnaed gan y Swyddfa Gartref, asiantaethau eraill neu sy'n cael eu hunan ariannu gan ffioedd a chostau.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r trefniadau i:

- Cydweithrediad – Gweithrediadau ar y Cyd
- Cydweithrediad – Taliadau Trydydd Parti
- Cydweithrediad – Grant/Hunan-ariannwyd

#### a) Cydweithrediad – Gweithrediadau ar y Cyd

##### Minerva

Crëwyd y Rhaglen Minerva yn 2013 fel cydweithrediad o 10 heddlu yn y DU ar sail eu defnydd cyffredin o System Rheoli Cofnodion Niche (NicheRMS365). Nodwyd bod yr RMS yn hynod ffurfweddadwy yn lleol. Fel y cyfryw, nid oedd safonau data cyffredin ar gyfer ei ddefnyddio. Ar ben hyn, roedd heddluoedd y DU yn aml yn gwneud ceisiadau gwrthwynebol am newid i'r system, gweithgarwch a oedd wedi creu seilios o ddata a oedd â chyfluoedd wedi lleihau'n aruthrol am rannu data rhwng heddluoedd a chyda systemau cenedlaethol (PND ayyb). Nod cychwynnol y Rhaglen Minerva oedd hyrwyddo arfer gorau rhwng heddluoedd sy'n aelodau a chreu ymdriniaeth a gytunwyd er mwyn defnyddio'r RMS.

Yn 2017, gwnaeth y 23 heddlu a oedd yn aelodau o Minerva gymeradwyo cynnydd yn y lefel adnoddau. Gwnaethant ymroi i strategaeth newydd er mwyn datblygu/rheoli swyddogaeth NicheRMS365 newydd a chymhell cydgyfeiriad ymhellach er mwyn galluogi rhannu data. Dechreuodd y Tîm Cyflawni Minerva newydd (MDT – 10 o staff a secondiwyd o heddluoedd sy'n aelodau) y gwaith hwn yn 2018.

Mae 27 o heddluoedd bellach yn aelodau gan fod pob heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn defnyddio NicheRMS365 wedi dewis dod yn aelodau o Minerva. Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Minerva ym mis Medi 2021, cymeradwywyd Cynllun Strategol Minerva 2021-26 gan heddluoedd sy'n aelodau. Mae'r strategaeth honno'n cynorthwyo cymhellwyr cenedlaethol a gytunwyd (e.e., Strategaeth Ddigidol Plismona

Genedlaethol 2020-2030) ac yn anelu sicrhau gallu rhannu data yn effeithiol wrth i heddluoedd Minerva ystyried mudo i wasanaethau cwmwl.

Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am Minerva o CHTh Sussex i CHTh Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2021. Fel rhan o'r trosglwyddiad, trosglwyddwyd cronfa wrth gefn o £331k.

Yn 2021-2022 tynnwyd £37k o'r cronfeydd wrth gefn, gan leihau balans y gronfa wrth gefn i £294k.

Y gwariant a gyllidwyd y cytunwyd arno ar gyfer 2022-23 gan Fwrdd Rheoli Minerva oedd £676k gyda'r cyllid yn cael ei dalu gan gyfuniad o gyfraniad heddluoedd o £571.5k i'r heddluoedd hynny sy'n cytuno i Gytundeb Cydweithredu Adran 22a gyda £104.5k i'w dynnu o gronfeydd wrth gefn. Roedd y gyllideb yn cynnwys costau fel staff, ymgynghorwyr, teithio, costau TG, a chostau pethau nad oedd yn staff.

Mae gwariant presennol ychydig yn is ar £642k yn erbyn y gyllideb gyffredinol, yn bennaf oherwydd costau staff is na'r disgwyl, sy'n peri symudiad o £70k o gronfeydd wrth gefn. O ganlyniad, mae balans y gronfa wrth gefn wedi gostwng i £224k. Mae'r rhaglen wedi ymroi i ostwng y gronfa wrth gefn dros y 3 blynedd nesaf. Mae cyfraniadau'r Heddlu i barhau'n gyson tra rhagolygir costau cynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd staff ychwanegol a chynnydd disgwylidig yng nghostau staff.

Mae'r holl wariant ac incwm sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Minerva wedi'u codio ar wahân ar ein cyfriflyfr sydd wedi'u datgydnabod. Mae'n adlewyrchu ein cyfran o incwm a gwariant, gyda chyfraniad cyllid Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer 2022-2023 yn £20k (£20k yn 2021-2022).

2021-22		2022-23		
Gwariant Net £'000	Swyddogaethau	Gwariant £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
20	Minerva	20	0	20
<b>20</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>	<b>0</b>	<b>20</b>

### Rhwydwaith Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig (FCIN)

Mae Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig yn faes plismona arbenigol iawn, sy'n cynnwys nifer fach o staff gwyddonol a thechnegol sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus sylweddol drwy ymchwilio i farwolaeth ac anafiadau difrifol sy'n aml yn newid bywydau ar ein ffyrdd.

Yn 2020-2021 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y Rhwydwaith Ymchwilio i Wrthdrawiadau Fforensig (FCIN) o Heddlu Gorllewin Mercia i Heddlu Gogledd Cymru. Symudodd yr FCIN allan o'r Rhaglen Galluoedd Arbenigol i'r model 'Heddlu'n Cynnal' a'r prif amcan yw bod yr holl weithgareddau ymchwilio i wrthdrawiadau yn cydymffurfio â safonau fforensig cenedlaethol. Penderfynodd gwasanaeth yr heddlu y dylid cyflawni hyn drwy ddull rhwydweithiol a ategir gan Gytundeb Cydweithredu Adran 22a.

Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2021-22 roedd gan yr Heddlu gyfanswm o £1,615k mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ran yr FCIN.

Y gwariant a gyllidwyd y cytunwyd arno ar gyfer 2022-2023 gan Fwrdd Rheoli FCIN oedd £3,901k gyda'r cyllid yn cael ei dalu gan gyfuniad o gyfraniad heddluoedd o £2,659k i'r heddluoedd hynny sy'n cytuno i Gytundeb Cydweithredu Adran 22a gyda £1,242k i'w dynnu o gronfeydd wrth gefn. Roedd y gyllideb wedi ei osod i ateb costau datblygiad gwyddonol a chyflwyniad rhwydwaith FCIN i ateb terfyn amser achredu wedi ei osod gan y Rheolydd Gwyddoniaeth Fforensig. Roedd y gyllideb yn cynnwys costau fel staff, ymgynghorwyr, dilyswyr gwyddonol, profi cymhwysedd, pobl eraill nad ydynt yn staff ayyb.

Ni ddylid tanseilio her genedlaethol achrediad ISO fforensig, a osodir cyn bob Heddlu gan y Rheolydd Gwyddorau Fforensig. Nod y Rhaglen a'r gwasanaeth ydy cynorthwyo a rhoi'r sgiliau, yr ymchwil gwyddonol a rheolaeth ansawdd parhaus i gynorthwyo'r uwchraddiad mewn gwasanaeth angenrheidiol er mwyn bodloni'r codau a safonau FSR.

Rhoddodd yr achrediad cynllun peilot gwasanaeth cyntaf a ymgymerwyd yn 2021 feysydd hanfodol i'r rhaglen edrych arnynt fel gwasanaeth plismona cyfan. Roedd hyn yn cynnwys sut y gallai gwasanaeth cenedlaethol edrych orau ar weithredu o fewn achrediad unigol a'r heriau sy'n dod hefo cynnal achrediad canolog heb awdurdod canolog a rheolaeth weithredol.

Ymgymerwyd dau adolygiad annibynnol ar wyddoniaeth a chyflawni. Amlygwyd sawl opsiwn gan gynnwys cost. Yr opsiynau oedd un ai parhau fel ag y mae, cwtogi gwasanaethau i brofi gwyddonol a sgiliau creiddiol yn unig neu gweithio hefo Heddluoedd mewn partneriaeth er mwyn cynorthwyo eu teithiau achredu wrth roi rheolaeth o'r achrediad yn ôl i Heddluoedd.

Dewiswyd yr opsiwn olaf gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Roedd angen ad-drefnu gwasanaeth a thîm yr FCIN. Cadwyd holl elfennau allweddol yr ymdriniaeth rwydweithiol wrth gynorthwyo Heddluoedd ddeall eu gofynion atebol.

Mae'r oedi yn y rhaglen wrth i adolygiadau ac ymgysylltu hefo rhanddeiliaid ddigwydd, ynghyd â heriau mewn cyrchu sgiliau arbenigol digonol wedi cyfrannu at danwariant o £1,683k yn erbyn y gyllideb gyffredinol nad oedd angen symud £1,242k o'r cronfeydd wrth gefn. Mae tanwariant o £441k yn erbyn cyfraniadau'r heddlu yn unig. Mae'n bennaf yn cynnwys staff a chostau staff ynghyd ag arbedion yn cronni o oedi'r rhaglen.

Mae'r tanwariant hwn o £441k yn erbyn cyfraniadau'r heddlu wedi'i neilltuo mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, fel Nodyn 8 Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn mynd â'r lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £2,056k. Roedd yr opsiynau a amlinellwyd yn yr adolygiadau yn cynnwys cyllideb blwyddyn ariannol 23/24 a chyllidebau mynegol y ddwy flynedd nesaf. Y cynnig ydy bod £1,425k yn cael ei dynnu o gronfeydd wrth gefn dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn er mwyn lliniaru cyfraniadau'r heddlu hefo cronfa wrth gefn o £631k mewn lle er mwyn bodloni gofynion yr FCIN. Mae hyn er mwyn cyflawni terfyn amser achredu. Yn fwy penodol, mae hefyd ynghylch costau fel costau adnoddau, achredu a phrofi cymhwysedd.

Mae'r holl wariant ac incwm sy'n gysylltiedig â gweithgarwch yr FCIN wedi'u codio ar wahân ar ein cyfriflyfr sydd wedi'u datgydnabod. Mae'n adlewyrchu ein cyfran o incwm a gwariant, gyda chyfraniad cyllid Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer 2022-2023 yn £34k (£42k yn 2021-2022).

2021-2022		2022-2023		
Gwariant Net £'000	Swyddogaethau	Gwariant £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
42	Rhwydwaith Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig	34	0	34
<b>42</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>0</b>	<b>34</b>

## Trefniadau Cydweithredol y Gogledd Orllewin

Sefydlwyd Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin (NWROCU) ym mis Ebrill 2009 gan ddwyn ynghyd y chwe heddlu rhanbarthol mewn cydweithrediad i fynd i'r afael â throsedd trefnedig a difrifol ar draws y Gogledd Orllewin. Heddlu Glannau Mersi ydy'r heddlu arweiniol. Mae'n cwmpasu gwaith nifer o dimau gydag Uplift 1 a 2 yn gyfran o'r 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r swm a adlewyrchir yng nghyfrifon Heddlu Gogledd Cymru yn 2022-2023 yn £1,232k (£893k yn 2021-2022) gyda'r dadansoddiad yn ôl swyddogaeth fel a ganlyn:

2021-2022	Swyddogaethau	2022-2023		
Gwariant Net £'000		Gwariant £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
209	Uned Drosedd Ranbarthol	242	-1	241
49	Cudd-wybodaeth Carcharorion	87	-32	55
13	Uned Gudd-wybodaeth Ranbarthol	32	-14	18
197	Uned Gudd-wybodaeth Dechnegol	205	-14	191
170	Uned Gyfrinachol	186	-6	180
6	Swyddog Diogelwch Gweithredol	12	-7	5
118	UCA	257	-136	121
56	Blwyddyn Uplift 1	216	0	216
0	Blwyddyn Uplift 2	121	0	121
75	Cymorth Busnes	113	-29	84
<b>893</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>1,471</b>	<b>-239</b>	<b>1,232</b>

### Mae'r ymgyrchoedd ar y cyd canlynol gyda Swydd Gaer yn brif heddlu:

Mae Uned Chwilio Tanddwr ar y Cyd y Gogledd Orllewin yn gwasanaethu ardaloedd Swydd Gaer, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi, Sir Gaerhirfryn, Cumbria a Gogledd Cymru gyda'r gwariant cyffredinol yn cael ei dalu gan yr heddluoedd hynny.

Ffurfiwyd Cydweithrediad Plismona Arfog y Gogledd Orllewin yn 2012 gyda chwe heddlu'n aelod. Ers hynny, mae'r rhanbarth wedi bod yn gweithredu o dan un Drwydded Hyfforddi Drylliau Tanio dros dro gan y Coleg Plismona (CoP) ar ôl gweithredu o dan chwe thrwydded hyfforddi lawn yn flaenorol. Gadawodd Sir Gaerhirfryn y Cydweithrediad ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Gynghrair Plismona Arfog yn darparu swyddogion arfog i Swydd Gaer a Gogledd Cymru mewn tîm cyd-heddlu cwbl integredig ers ei sefydlu yn 2014. Mae'n gynghrair plismona arfog yn gwasanaethu ardaloedd Swydd Gaer a Gogledd Cymru ac mae'n cael ei staffio gan swyddogion yr heddlu a staff cymorth o'r ddau heddlu cyfansoddol gyda'r gwariant cyffredinol yn cael ei dalu gan yr heddluoedd hynny.

Mae'r Gynghrair Gŵn yn rhoi ystod o sgiliau cŵn yr heddlu i Swydd Gaer a Gogledd Cymru. Mae'n cael ei staffio gan swyddogion heddlu a staff cymorth o'r ddau heddlu cyfansoddol gyda'r gwariant cyffredinol yn cael ei dalu gan yr heddluoedd hynny.

2021-2022	Swyddogaethau	2022-2023		
Gwariant Net £'000		Gwariant £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
68	Uned Chwilio Tanddwr ar y Cyd	84	-8	76
59	Plismona Arfog y Gogledd Orllewin	95	-34	61
3,256	Cynghrair Plismona Arfog	3,240	-91	3,149
713	Cynghrair Gŵn	916	-3	913
<b>4,096</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>4,335</b>	<b>-136</b>	<b>4,199</b>



## Cydweithrediad Pwynt Cyswllt Unigol Telathrebu

Mae cytundeb ar y cyd pwynt cyswllt unigol Telathrebu rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer ar gyfer gwasanaeth pwynt cyswllt unigol telathrebu dydd a nos ar gyfer caffael data cyfathrebu o dan Ddeddf Grymoedd Ymchwilio 2016. Heddlu Gogledd Cymru ydy'r Heddlu Arweiniol.

Ar 1 Hydref 2021 gwnaeth y Cydweithrediad Pwynt Cyswllt Unigol Telathrebu symud ymlaen i gyfnod tri gyda sefydlu uned unigol ledled yr heddluoedd priodol gyda chydaddoldeb ar y graddau. Gwneir hyn cyn symud i ddarpariaeth dydd a nos yn ystod Blwyddyn Ariannol 2022-2023.

2021-2022 Gwariant Net £'000	Swyddogaeth	2022-2023		
		Gwariant £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
147	Pwynt cyswllt unigol Telathrebu	359	0	359
<b>147</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>359</b>	<b>0</b>	<b>359</b>

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru, fel yr heddlu arweiniol, gyfanswm o £116k mewn cronfeydd wrth gefn ar ran y cydweithrediad.

### Trefniadau Cydweithredol Cymru Gyfan

Mae'r ymgyrchoedd canlynol yn gydweithrediadau gyda heddluoedd eraill yng Nghymru. Mae cyfran dybiannol o'r gwariant a'r incwm wedi'i adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a ddyrannwyd yn ôl canran poblogaeth ledled Cymru.

CYDWEITHREDIAD CYFRAN GWASANAETH 2022-2023		Uned Cudd-wybodaeth Gwrth Derfysgaeth	Ymgyngorwyr Arbenigol Gwrth Derfysgaeth
Gwariant Gros	Poblogaeth %	£000	£000
De Cymru	42.31%	4,528	251
Dyfed Powys	16.62%	1,778	99
Gwent	18.94%	2,027	113
Gogledd Cymru	22.13%	2,368	131
<b>Cyfanswm:</b>	<b>100.00%</b>	<b>10,701</b>	<b>594</b>
Cyfanswm Incwm a Grantiau	Poblogaeth %	£000	£000
De Cymru	42.31%	-4,528	-251
Dyfed Powys	16.62%	-1,778	-99
Gwent	18.94%	-2,027	-113
Gogledd Cymru	22.13%	-2,368	-131
<b>Cyfanswm:</b>	<b>100.00%</b>	<b>-10,701</b>	<b>-594</b>

CYFRAN CYDWEITHREDIAD GWASANAETH 2021-2022		Uned Cudd-wybodaeth Gwrth Derfysgaeth	Ymgyngorwyr Arbenigol Gwrth Derfysgaeth
Gwariant Gros	Poblogaeth %	£000	£000
De Cymru	42.44%	3,114	241
Dyfed Powys	16.49%	1,210	94
Gwent	18.88%	1,385	107
Gogledd Cymru	22.19%	1,628	126
<b>Cyfanswm:</b>	<b>100.00%</b>	<b>7,337</b>	<b>568</b>
Cyfanswm Incwm a Grantiau	Poblogaeth %	£000	£000
De Cymru	42.44%	-3,114	-241
Dyfed Powys	16.49%	-1,210	-94
Gwent	18.88%	-1,385	-107
Gogledd Cymru	22.19%	-1,628	-126
<b>Cyfanswm:</b>	<b>100.00%</b>	<b>-7,337</b>	<b>-568</b>

Yn 2017-2018 sefydlwyd Tîm Cydweithredu Cymru Gyfan er mwyn cydlynu gweithgarwch presennol a nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithrediad ledled pedwar heddlu Cymru. Roedd cyfanswm costau'r tîm yn

2022-2023 yn £198k (2021-2022 – £110k) ac roedd cyfraniad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r costau hyn yn £49k yn 2022-2023 (2021-2022 – £28k).

Mae dyledwyr a chredydwyr o ran y trefniadau uchod wedi parhau ym mantolenni'r prif heddluoedd drwy gytundeb ar y ddwy ochr ar sail perthnasedd.

**b) Cydweithrediad – Taliadau Trydydd Parti**

Yr unig drefniant arwyddocaol o'r math hwn yw'r taliad a wnaed tuag at y Gwasanaeth Awyr Heddlu Cenedlaethol (NPAS) a oedd yn £418k yn 2022-2023 (£384k yn 2021-2022).

**c) Cydweithrediad – Grant/Hunan-ariannu**

Mewn nifer o drefniadau cydweithredu gwnaeth Gogledd Cymru ddarparu swyddogion ar secondiad i gynorthwyo'r trefniadau. Cafodd ei ad-dalu gan heddluoedd neu asiantaethau eraill a dderbyniodd arian grant gan y Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Cymru i ofalu am gostau gwariant.

### Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Fel o 2006-2007 telir Pensiynau Swyddogion Heddlu ar wahân i'r prif gyfrif refeniw. Telir cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr ac incwm pensiynau eraill i gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu a'r holl wariant Pensiynau'r Heddlu allan o'r cyfrif. Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn gynllun nas ariennir ac fel y cyfryw, nid oes ganddo asedau buddsoddi. Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ôl deddfwriaeth weithredu Cronfa Bensiwn ac mae'r symiau i'w talu i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn i'w manylu yn ôl rheoliad. Mae Rheoliadau Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007 yn darparu fod unrhyw ddiffyg ar y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gydbwysu'r nawdd i ddim. Ad-delir y diffyg hwn gan y Swyddfa Gartref ac fe'u ceir o fewn cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Yn yr un modd, mae unrhyw weddill sy'n codi o'r gwariant sy'n llai na'r incwm sy'n ofynnol i'w had-dalu i'r Swyddfa Gartref gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae lefelau cyfraniad gweithiwr a chyflogwyr yn seiliedig ar ganrannau tâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan y Swyddfa Gartref ac yn amodol ar adbriso bob tair blynedd gan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae rhwymedigaethau pensiwn tymor hir wedi'u manylu o fewn Buddion Ymddeoliad nodyn 34.

Mae'r cyfrif Pensiwn wedi'i lunio i ryddhau dyledion i dalu dyledion wrth iddynt fod yn ddyledus. Nid ydynt yn ystyried pensiynau a dyledion eraill ar ôl diwedd y cyfnod. Trinnir holl drafodion y gronfa yn unol â Pholisïau Cyfrifyddu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel yr amlinellir ar dudalennau 67 i 82. Gweinyddir y Gronfa Bensiwn drwy gytundeb trydydd parti.

2021-2022 £000	Cyfrif Cronfa	2022-2023 £000
	<b>Cyfraniadau sy'n dderbyniadwy</b>	
	Gan Gyflogwr:-	
-18,361	- Arferol	-18,884
0	- Ymddeoliadau cynnar	0
-545	- Cost Gyfalaf am Ymddeoliad Afiechyd	-166
-7,956	Cyfraniadau Aelodau	-8,169
-353	Gwerthoedd Trosglwyddo a dderbyniwyd	-294
<b>-27,215</b>	<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>-27,513</b>
	<b>Buddion Taladwy</b>	
39,611	Pensiynau	41,705
9,328	Buddion wedi cyfnewid a chyfundaliad o fuddion ymddeoliad	9,023
0	Cyfundaliad o Fuddion Marwolaeth	0
	<b>Taliadau i ac ar gyfrif ymadawyr</b>	
2	Trosglwyddiad allan i gynlluniau eraill	25
37	Ad-daliad Cyfraniadau	66
<b>48,978</b>	<b>Cyfanswm y symiau sy'n daladwy</b>	<b>50,819</b>
21,763	Swm Net sy'n Daladwy am y flwyddyn cyn trosglwyddiad o'r Gronfa Heddlu	23,306
-21,763	Cyfraniad Ychwanegol o'r Gronfa Heddlu (yn ôl grant)	-23,306
<b>0</b>	<b>Swm net sy'n daladwy/derbyniadwy am y flwyddyn</b>	<b>0</b>
	<b>Datganiad Ased Net:</b>	
60	Cyfraniadau'n ddyledus gan gyflogwr	60
3	Buddion pensiwn di-dâl	3
-63	Asedau a dyledion presennol eraill (oni bai am ddyledion i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol)	-63
<b>0</b>	<b>Cyfanswm Dyledion</b>	<b>0</b>

## Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu Grŵp

### 1. Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon Grŵp yn crynhoi trafodion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd am y flwyddyn ariannol 2022-2023 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau angen i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu iawn. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a chanllawiau statudol a roddir o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cod yn manylu'r egwyddorion ac arferion angenrheidiol i baratoi Datganiad o Gyfrifon Grŵp sy'n cyflwyno safbwynt 'gwir a theg' o sefyllfa ariannol, cyflawniad ariannol a llifoedd arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan gynnwys datganiadau ariannol y grŵp.

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn gost hanesyddol, a ddiwygir gan adbriso categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol anghyfredol.

### 2. Croniadau Incwm a Gwariant

Adroddir am weithgarwch yn y flwyddyn mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir a derbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- a. Cydnabyddir refeniw o werthiant nwyddau pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a dyfarniadau perchnogaeth i'r prynwr. Mae'n debyg y bydd buddion economaidd neu bosibilrwydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- b. Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fesur canran cwblhad y trafodiad yn ddibynadwy. Mae'n debygol y gwnaiff buddion economaidd neu bosibilrwydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad lifo at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- c. Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan y'i defnyddir. Pan mae bwllch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a phryd y defnyddir nhw, cant eu trosglwyddo fel rhestr eiddo ar y Fantolen.
- d. Cofnodir costau o ran gwasanaethau a roddwyd (yn cynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- e. Cyfrifir llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn y drefn honno fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd log go iawn ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol, yn hytrach na'r llifoedd arian parod a oedd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y cytundeb.
- f. Pan mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nid yw arian parod wedi'i dderbyn neu ei fod wedi talu dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Gosodir y lefel isaf o £3k i'w osod am y trafodion hyn. Os na setlir dyledion, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir cost i refeniw am yr incwm na fydd efallai'n cael ei gasglu.

### 3. Arian Parod ac Arian Parod Cyfwerth

Cynrychiolir arian parod gan arian parod mewn llaw a blaendaliadau gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda hysbysiad o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau a ellir aeddfedu ar unwaith o ddyddiad caffael ac sy'n barod yn drosadwy i symiau o arian parod hysbys gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, mae arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod yn cael eu dangos mewn net o orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar alw ac yn ffurfio rhan hanfodol o reoli arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

#### **4. Eitemau eithriadol**

Pan mae eitemau incwm a gwariant yn sylweddol, dadlennir eu natur a'u swm ar wahân, un ai ar flaen y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor sylweddol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

#### **5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwall sylweddol. Mae newidiadau yn yr amcangyfrifon cyfrifyddu wedi'u cyfrifyddu'n rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd presennol ac yn y dyfodol a effeithir gan y newid ac nad ydynt yn esgor ar addasiad o'r cyfnod blaenorol.

Gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu ond pan mae angen gan arferion cyfrifyddu priodol neu mae'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effaith trafodion, digwyddiadau eraill a chyflyrau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Pan wneir newid, oni bai y dywedir fel arall, fe'i cymhwysir yn ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a'r symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel petai bod y polisi newydd wedi bod yn gymwys erioed.

Cywirir gwallau sylweddol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnod blaenorol yn ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol.

#### **6. Costau i Refeniw Asedau Anghyfredol**

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi dibrisiant, adbrisiad a diffyg neu ddilead ar wahân i wasanaethau, gwasanaethau cymorth neu gyfrifon masnachu.

Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi'r dreth gyngor i ariannu colledion a dileadau dibrisiant, adbrisiad neu ddiffyg. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol sydd gyfwerth i swm sy'n cael ei gyfrif ar sail ddarbodus a benderfynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol â chanllaw statudol.

Mae colledion a dileadau dibrisiant, adbrisiad a diffyg felly'n cael eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Refeniw), a thrwy addasu trafodiad gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

#### **7. Buddion Gweithwyr**

##### **Buddion Taladwy yn ystod Cyflogaeth**

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai hynny sydd i fod i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol taladwy ac absenoldeb salwch taladwy, bonysau a buddion anariannol (e.e. ceir) i weithwyr presennol. Maent yn cael eu cydnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn lle mae gweithwyr yn gwneud cymwynas â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwneir cronriad am gost absenoldeb sy'n codi o hawliadau gwyliau neu amser i ffwrdd yn lle a enillir gan weithwyr ond na chymerir cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, gan fod yn y cyfnod lle mae'r gweithiwr yn cymryd y budd. Codir y cronriad i'r Gweddill neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth

Gwasanaeth, ond yna mae'n gwrthdroi drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel y gall buddion gwyliau gael eu codi i refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

### **Buddion Terfynu**

Buddion terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyn y dyddiad ymddeoliad arferol neu benderfyniad gweithiwr i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Maent yn cael eu codi ar sail cronïadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn ar y cynharaf: pan na all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dynnu'r cynnig o'r buddion hynny bellach; neu pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Pan mae buddion terfynu'n cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i weddill y Gronfa Gyffredinol gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm sy'n cael ei gyfrif yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, mae angen neilltuad arian i ac o'r Gronfa Bensiwn wrth Gefn i ddisodli'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu gwella pensiwn a'u disodli gyda'r debydau am yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n daladwy ond yn ddi-dâl ar ddiwedd y flwyddyn.

### **Buddion Ôl-Gyflogaeth**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig sy'n berthnasol i dâl a gwasanaethau.

#### *Staff sy'n gyflogedig yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Staff yr Heddlu*

Mae'r gweithwyr yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd yr asesiad actiwaraid bob tair blynedd yn 2016 fod angen i gyfraniad y cyflogwr angen cael ei osod o leiaf 16.3% y flwyddyn ynghyd â chyfandaliad o £0.8m er mwyn bodloni dyledion y gronfa. Roedd yr asesiad tair blynedd a gynhaliwyd yn 2019 yn gosod isafswm cyfradd o 19% o fis Ebrill 2020 heb gyfandaliad.

#### *Swyddogion Heddlu*

Tan 2005-2006 cafodd cost cynllun pensiynau'r heddlu, a oedd yn gynllun buddion diffiniedig nas ariannwyd, ei fodloni gan Gyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod Heddlu blaenorol. Yn 2006-2007 roedd newid yn y ffordd yr oedd pensiynau'r heddlu yn cael eu cyfrif. Crëwyd cronfa ganolog gan y Swyddfa Gartref i fodloni cost pensiynau a thaliadau cyfnewid. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn talu canran o gyflogau swyddogion i'r gronfa (31.0% ar hyn o bryd). Mae pensiynau anaf yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chânt eu bodloni o Gyfrif Incwm a Gwariant y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig:

- mae dyledion Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd wedi'u priodoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned a amcanir, h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir o ran buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr ayyb, ac amcangyfrifon enillion amcanol gweithwyr presennol.
- mae'r dyledion yn cael eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ostyngiad yn seiliedig ar gyfradd ddangosol o elw ar fondiau Llywodraeth a addasir ar gyfer arenillion ychwanegol o fondiau corfforaethol ansawdd uchel (iBoxx Sterling Corporates AA).

- mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd wedi'u priodoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys y Fantolen ar eu gwerth teg:  
Sicrhad sydd â dyfynbris ar bris cynnig presennol  
Sicrhad sydd â dim dyfynbris ar amcangyfrif proffesiynol  
Sicrhad unedol ar bris cynnig presennol  
Eiddo ar werth y farchnad.
- dadansoddir y newid yn y ddyled bensiynau net i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- (i) Cost Gwasanaeth Presennol – y cynnydd yng ngwerth presennol y ddyled budd ddiffiniedig sy'n arwain o wasanaeth gweithwyr yn y cyfnod presennol sydd wedi'i ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.
- (ii) Cost Gwasanaeth Blaenorol – y cynnydd mewn dyledion o ganlyniad i ddiwygiad neu gwtogiad cynllun y mae eu heffaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach sydd wedi'u debydu i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o Gostau Heb eu Dosbarthu.
- (iii) Llog net ar y ddyled budd ddiffiniedig net (ased) – y gost llog net i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'r newid yn ystod y cyfnod yn y ddyled ddiffiniedig net (ased) sy'n codi o dreigl amser. Caiff ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngiad a ddefnyddir i fesur y ddyled budd ddiffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r ddyled budd ddiffiniedig net (ased) ar ddiwedd y cyfnod gan ystyried unrhyw newidiadau yn y ddyled budd ddiffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniad a thaliadau budd.

Cofiannau sy'n cynnwys:

- (i) Elw ar asedau cynllun – gan eithrio symiau a geir yn y llog net ar y ddyled budd diffiniedig net (ased) a chodir y Gronfa Bensiynau wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.
- (ii) Enillion neu golledion actiwaraidd – newidiadau yn y ddyled pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau'n cyd-fynd â thybjaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd fod yr actwariaid wedi diweddaru eu tybjaethau a godir i'r Gronfa Bensiynau wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd – arian parod a delir fel cyfraniadau cyflogwyr i'r gronfa bensiwn wrth setlo dyledion; nid chyfrifir hyn fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeoliad, mae darpariaethau statudol angen balans y Gronfa Gyffredinol i'w godi gyda'r symiau sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu fod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Bensiynau wrth Gefn yn disodli debydau a chredydau tybiannol ymddeoliad a'u disodli â'r debydau am arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac ynghyd ag unrhyw symiau eraill sy'n daladwy ond na thalwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gweddill negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiannol ar y Gronfa Gyffredinol o fod angen cyfrif am fuddion ymddeoliad ar sail llifoedd arian yn hytrach nag fel buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

## Buddion Diamod

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd rymoedd cyfyngedig i wneud dyfarniadau diamod o fuddion ymddeoliad pan geir ymddeoliadau cynnar. Cronnir unrhyw ddyledion a amcangyfrifir i godi o ganlyniad unrhyw ddyfarniad i unrhyw aelod o staff ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad. Cânt eu cyfrifyddu am ddefnyddio'r un polisiau fel sy'n gymwysedig i'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol ac yn unol â phroses ymddeoliad cynnar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 8. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, sy'n ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- a. y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod adrodd, sydd angen i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- b. y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, sydd ddim angen addasu'r Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle mae categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir dadleniad yn y nodiadau o natur y digwyddiadau ac amcan o'u heffaith ariannol.

Ni adlewyrchir pethau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi eu cyhoeddi yn y Datganiad o Gyfrifon.

## 9. Offerynnau Ariannol

### Dyledion Ariannol

Cydnabyddir Dyledion Ariannol ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol ar werth teg ac o ganlyniad yn cael eu cario ar eu cost gohiriedig. Mae costau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr am log taladwy yn seiliedig ar swm cario ymlaen y ddyled, wedi lluosu gan gyfradd log go iawn am yr offeryn. Y gyfradd log go iawn yw'r gyfradd sy'n union yn gostwng y taliadau arian parod amcanol yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cydnabuwyd yn wreiddiol.

Y swm a gyflwynir yn y fantolen o ran benthycia tymor hir a byr yw'r prif swm gweddilliol sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig). Llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Credydur a debydir enillion a cholledion adbryniad neu setliad cynnar benthycia i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciad sy'n cynnwys diwygio neu gyfnewid offerynnau presennol, mae'r premiwm neu'r gostyngiad yn cael ei ddiwynnu neu ei hychwanegu yn y drefn honno i gost ohiriedig y benthyciad newydd neu ddiwygiol. Mae'r dibrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant yn cael ei wasgaru dros oes y benthyciad gan addasiad i'r gyfradd log go iawn.

Pan mae premiymau neu ostyngiadau wedi'u codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, mae rheoliadau'n caniatáu'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol i gael ei ledaenu yn y dyfodol. Polisi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw lledaenu'r elw neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy neu gellid derbyn gostyngiad pan gafodd ei ad-dalu. Rheolir y cysoni symiau a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol i gwrdd â Balans y Gronfa Gyffredinol gan y trosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.



## Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol i ddau fath:

- benthyciadau a derbyniadau sy'n asedau sydd ag ad-daliadau sefydlog neu bendant ond nas dyfynnir mewn marchnad weithredol
- asedau ar gael i'w gwerthu sy'n asedau sydd â phris marchnad dyfynedig a/neu sydd ddim â thaliadau sefydlog neu bendant

## Benthyciadau a Derbyniadau

Cydnabyddir benthyciadau a derbyniadau ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol ar werth teg. O ganlyniad, cânt eu mesur ar eu cost ohiriedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr am log derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario ymlaen yr ased, wedi lluosu gan gyfradd log go iawn am yr offeryn. Am y mwyafrif o'r benthyciadau mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i wneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n weddill sy'n dderbyniol (ynghyd â llog cronedig) a llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan nodir asedau fel rhai diffygiol oherwydd y tebygolrwydd yn codi o ddigwyddiad blaenorol na wneir taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb, dibrisir yr ased a chodir cost i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant holl gynhwysfawr. Mesurir y golled diffyg fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario ymlaen a gwerth presennol y llifoedd arian parod diwygiedig y dyfodol a ostyngir ar gyfradd log go iawn wreiddiol yr ased.

Credydir a debydir unrhyw enillion a cholledion wrth ddatgydnabod ased i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

## Asedau sydd ar gael i'w gwerthu

Cydnabyddir asedau ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol a'u cario ymlaen ar werth teg. Pan mae'r ased â thaliadau sefydlog neu bendant, mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr am log derbyniadwy yn seiliedig ar gost ohiriedig yr ased wedi'i lluosu â'r gyfradd log go iawn am yr offeryn. Pan nad oes taliadau sefydlog neu bendant, credydir incwm (e.e. rhandaliadau) i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan dderbynnir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cynhelir asedau yn y Fantolen ar werth teg. Mae gwerthoedd yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- a. offerynnau gyda dyfynbrisiau marchnad - y pris marchnad
- b. offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog neu bendant - dadansoddiad llif arian gostyngol
- c. cyfrannau ecwiti gyda dim dyfynbrisiau marchnad - cymeradwyaeth annibynnol o brisiadau cwmni.

Dosberthir y mewnbynnau i'r technegau mesur yn unol â'r tri lefel canlynol:

- d. Mewnbynnau Lefel 1 – dyfynbrisiau (heb addasu) mewn marchnadoedd gweithredoedd am asedau unfath y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael mynediad ar y dyddiad mesur.

- e. Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau oni bai am ddyfynbrisiau a geir o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- f. Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy am yr ased.

Cloriannir newidiadau mewn gwerth teg gan fynediad yn y Gronfa Ar Gael i'w Gwerthu wrth Gefn a chydabyddir yr elw/colled yn y Gweddill neu'r Diffyg ar Adbriso Asedau Ariannol Ar Gael i'w Gwerthu. Yr eithriad yw lle mae colledion diffyg wedi'u hachosi. Debydir y rhain i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw elw neu golled net am yr ased a gronnwyd yn y Gronfa Ar Gael i'w Gwerthu wrth Gefn.

Pan nodir asedau fel rhai diffygiol oherwydd y tebygolrwydd yn codi o ddigwyddiad blaenorol na wneir taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb (taliadau sefydlog neu bendant) neu mae'r gwerth teg yn syrthio o dan gost, dibrisir yr ased a chodir cost i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu bendant, mesurir y golled diffyg fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario ymlaen a gwerth presennol y llifoedd arian parod diwygiedig y dyfodol a ostyngir ar gyfradd log go iawn wreiddiol yr ased. Fel arall, mesurir y golled diffyg fel unrhyw ddiffyg o werth teg o'i gymharu â chost caffael yr offeryn (net unrhyw brif ad-daliad a dilead). Mae asedau ariannol a gadwyd ar gost ohiriedig yn cael eu dangos gyda net o lwfans colled (lle mae'n sylweddol) sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol y bydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn methu bodloni eu hymrwymiaidau cytundebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Credydir a debydir unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddatgydnabod yr ased i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw enillion neu golledion cronedig a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gronfa Ar Gael ac Ar Werth wrth Gefn. Os na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei gario ymlaen ar gost (namyn unrhyw golledion diffyg).

## 10. Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth

P'un ai'n daladwy ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu mewn ôl-ddyledion, mae cyfraniadau a rhoddion grant llywodraeth a thrydydd parti yn cael eu cydnabod fel dyledion gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan mae sicrwydd rhesymol y gwnaiff:

- a. y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gydymffurfio gyda'r amodau sydd ynghlwm i'r taliadau, ac
- b. y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw symiau a gydnabyddir fel dyledion i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hyd nes y bodlonir amodau sydd ynghlwm i'r grant neu gyfraniad. Mae amodau yn manylu fod angen i fuddion economaidd yn y dyfodol neu bosiblwydd gwasanaeth a ymgorfforir yn yr ased a gafwyd gan ddefnyddio'r grant neu gyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y manylir. Fel arall, rhaid i fuddion economaidd y dyfodol neu bosiblwydd gwasanaeth gael eu dychwelyd at y trosglwyddwr.

Mae arian a fenthycwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn Fantolen fel credydwr. Pan fodlonir amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodol) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb ei glustnodi a holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Pan gredydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Os yw grant eto i'w ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf, fe'i trosglwyddir i Gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso wrth Gefn. Bydd yn cael ei anfon at y Cyfrif Addasu Cyfalaf lle mae wedi'i gymhwyso. Trosglwyddir symiau yn

y Gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith maent wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf.

#### **11. Llog mewn endidau eraill**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddiannau sylweddol mewn endidau eraill sydd â natur is-gwmni, cyswllt ac endidau a reolir ar y cyd. Mae angen paratoi cyfrifon grŵp oherwydd hyn. Mae llogau cyfrifon endid unigol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn endidau eraill yn cael eu cofnodi yn unol ag arfer cyfrifyddu iawn. O ran cyfrifon grŵp Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ystyrir Prif Gwnstabl Gogledd Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo 100% i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

#### **12. Rhestr eiddo a Chytundebau tymor hir**

Ceir rhestr eiddo yn y Fantolen ar y gost isaf a'r gwerth net dichonadwy. Neilltuir cost rhestr eiddo gan ddefnyddio'r fformiwla costio cyntaf i mewn - cyntaf allan (FIFO). Cyfrifir cytundebau tymor hir ar y sail o godi'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau gyda'r gwerth gwaith neu wasanaethau a dderbynnir o dan y cytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol.

#### **13. Gweithrediadau ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Mae gweithrediadau a reolir ar y cyd yn weithgarwch a ymglymerir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y cyd â mentrwy'r eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwy'r yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod ar y Fantolen yr asedau mae'r Comisiynydd yn eu rheoli, yn cynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a gedwir ar y cyd a'r dyledion mae'r Comisiynydd yn eu cael gan gynnwys ei gyfran o unrhyw ddyledion sydd ganddo ar y cyd. Mae'n debydu ac yn credydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr gyda'r gwariant ac unrhyw gyfran o wariant a gafwyd ar y cyd a'r gyfran o incwm a enillir o weithgarwch y gweithrediad.

Mae asedau a reolir ar y cyd yn eiddo, peiriannau neu offer a reolir ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a mentrwy'r eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i gael buddion am y mentrwy'r. Nid yw'r fenter ar y cyd yn cynnwys sefydlu endid ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfrif am ond ei gyfran ef o'r asedau a reolir ar y cyd, y dyledion a'r treuliau mae'n ei gael ar ei ran ef ei hun neu ar y cyd ag eraill o ran ei ddiddordeb yn y fenter ar y cyd a'r incwm a enillir o'r fenter. Gellir gweld manylion unrhyw weithrediadau a reolir ar y cyd yn Nodyn 39 i'r Cyfrifon.

#### **14. Prydlesi**

Mae prydlesi cyllid yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r dyfarniadau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer o'r prydleswr i'r daliwr prydles. Dosberthir holl brydlesi eraill fel prydlesi gweithredol.

Pan mae prydles yn gofalu am dir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau fel rhai ar wahân wrth ddsbarthu.

Mae trefniadau nad oes gan statws cyfreithiol prydles ond yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad wedi'u cyfrif o dan y polisi hwn lle mae cwblhau'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

##### **Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Daliwr Prydles**

##### Prydlesi Cyllid

Cydnabyddir eiddo, peiriannau ac offer a gedwir o dan brydlesi cyllid ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar ei werth teg sydd wedi'i fesur ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol y taliadau prydles sylfaenol,

os yn is). Cyfatebir yr ased a gydnabyddir gan y ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i swm cario ymlaen yr ased. Mae premiymau a delir wrth ddod i'r brydles yn cael eu cymhwyso i ddibrisio dyled y brydles. Codir rhenti wrth gefn fel treuliau yn y cyfnodau y ceir hwy.

Rhennir taliadau prydles rhwng:

- cost am gaffael y llog yn yr eiddo, peiriannau neu offer a gymhwysir i ddibrisio dyled y brydles, a
- cost gyllid (a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr).

Mae eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir o dan brydlesi cyllid yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath. Mae hyn yn amodol ar ddibrisiant sy'n cael eu codi dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcanol yr ased (Ile nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi'r dreth gyngor i ofalu am ddibrisio neu adbriso a cholledion diffyg sy'n codi o asedau sy'n cael eu prydlesu. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Mae dibrisio ac adbriso a cholledion diffyg felly'n cael eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol, drwy addasu trafodiad gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

#### Prydlesi Gweithredol

Codir rhenti a delir o dan brydlesi gweithredol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel traul am ddefnyddio eiddo, peiriannau ac offer a brydleswyd. Mae costau ar sail llinell union dros oes y brydles hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i'r patrwm o daliadau (e.e. mae cyfnod rhydd o rent ar ddechrau'r brydles).

#### **Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Prydleswr**

Mae prydleswr yn prydlesu eiddo, peiriannau neu offer o dan drefniant prydles i bobl eraill.

#### Prydlesi Cyllid

Os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles gyllid ynghylch eiddo neu beiriant neu offer, dibrisir yr ased perthnasol o'r fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles mae swm cario ymlaen yr ased yn y fantolen, (boed yn eiddo, peiriannau neu offer neu asedau a gadwyd i'w gwerthu) yn cael eu dibrisio i'r llinell wariant gweithredu arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled ar waredu. Mae elw sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y brydles, yn cael ei chredydu i'r un llinell yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o'r elw neu'r golled ar waredu (h.y. wedi'i ddebydu yn erbyn gwerth cario ymlaen yr ased ar adeg y gwarediad), a gyfatebir gan ased prydles (dyledwr tymor hir) ar y fantolen.

Rhennir derbyniadau rhenti prydles rhwng:

- cost am gaffael y llog yn yr eiddo – wedi cymhwyso i nodi dyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw breimiymau a dderbynnir), ac
- incwm cyllid (a gredydir i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr).

Nid yw'r elw a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar warediad i'w ganiatáu gan statud i gynyddu Balans y Gronfa Gyffredinol ac mae gofyn ei drin fel derbynneb gyfalaf. Pan mae

premiwm wedi'i dderbyn, anfonir hyn allan o falans y gronfa gyffredinol i'r gronfa derbynebaw cyfalaf wrth gefn yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan setlir y swm dyledus o ran ased y brydles gan dalu rhenti mewn blynnydoedd ariannol yn y dyfodol, anfonir hyn allan o falans y gronfa gyffredinol i'r gronfa derbynebaw cyfalaf gohiriedig wrth gefn yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan dderbynnir rhenti'r dyfodol, defnyddir yr elfen am y dderbynneb gyfalaf am waredu'r ased i nodi dyledwr y brydles. Ar y pwynt hwn, trosglwyddir y derbynebaw cyfalaf gohiriedig i'r gronfa derbynebaw cyfalaf wrth gefn. Nid yw gwerth dibrisiad gwarediadau yn gost yn erbyn y dreth gyngor, gan fod cost asedau anghyfredol wedi'u darparu'n llawn ar gyfer trefniadau ar wahân o dan gyllido cyfalaf. Priodolir symiau felly i'r cyfrif addasu cyfalaf o falans y gronfa gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

### Prydlesi Gweithredol

Os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles weithredol dros eiddo neu beiriant neu offer, cedwir yr ased yn y fantolen. Credydir incwm rhentu i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell union dros oes y brydles hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i'r patrwm o daliadau (e.e. telir premiwm ar ddechrau'r brydles). Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol wrth drafod neu drefnu'r brydles i swm cario ymlaen yr ased berthnasol a'i chodi fel cost dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhentu.

## **15. Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cymorth i segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am atebolrwydd a chyflawniad ariannol

## **16. Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Mae asedau sy'n gorfforol ac a gedwir i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i bobl eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

### Cydnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer yn cael eu cyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei fod yn debyg fod buddion economaidd y dyfodol neu bosibilrwydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig y bydd yr eitem yn llifo at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gall cost yr eitem gael ei mesur yn ddibynadwy. Codir gwariant sy'n cynnal ond nid yw'n ychwanegu at bosibilrwydd ased i gyflawni buddion economaidd yn y dyfodol neu bosibilrwydd gwasanaeth (h.y. atgyweiriadau a chynnal a chadw) fel cost pan dynnir.

### Mesur

Mesurir asedau ar gost i ddechrau, sy'n cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau sydd i'w briodoli â dod â'r ased i'r lleoliad a'r amod sy'n angenrheidiol iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr
- os yw'n berthnasol, amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac yna adfer y safle lle roedd.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfalafu costau benthyca a dynnir pan mae asedau'n cael eu hadeiladu.

Ystyrir cost arall heblaw drwy bryniad i fod ei werth teg, oni bai nad oes gan y caffael sylwedd masnachol (h.y. ni wnaiff arwain at amrywiad yn y llifioedd arian parod i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd). Yn yr

achos olaf, lle ceir ased drwy gyfnewidiad, cost y caffael yw swm yr ased a garir ymlaen a ildir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mesurir asedau a roddir ar werth teg i ddechrau. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth a delir wedi'i gredydu i'r llinell Incwm Trethiant a Grant Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, (oni bai fod y rhodd wedi'i wneud yn amodol); hyd nes y bodlonir amodau, cedwir yr elw yn y Cyfrif Asedau Rhoddedig. Pan gredydir elw i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Carir asedau yna yn y Fantolen gan ddefnyddio'r sail mesur canlynol:

- Seilwaith, asedau cymunedol ac asedau'n cael eu hadeiladu - cost hanesyddol dibrisiol
- Preswylfeydd a holl asedau eraill - gwerth teg wedi'i benderfynu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (h.y. gwerth defnydd presennol neu EUV).

Os nad oes tystiolaeth marchnad o werth presennol oherwydd natur arbenigol yr ased, defnyddir cost amnewid dibrisiedig yn lle gwerth teg.

Os yw asedau sydd ddim yn eiddo ag oesau defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig yn lle gwerth presennol.

Mae asedau a geir yn y Fantolen ar werth presennol yn cael eu hadbriso'n ddigonol ac yn rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, o leiaf bob pum mlynedd. Cyfatebir cynnydd yn y prisiau gan gredydau i'r Gronfa Adbriso wrth Gefn i gydnabod elw heb ei wireddu. Yn eithriadol, gall elw gael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr lle maent yn codi o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol.

Pryd nodir gostyngiadau mewn gwerth, cânt eu cyfrif fel a ganlyn:

- lle mae balans o elw adbriso am yr ased yn y Gronfa Adbriso wrth Gefn, nodir swm cario ymlaen yr ased yn erbyn y balans (hyd at swm yr elw cronedig)
- lle nad oes balans yn y gronfa adbriso wrth gefn neu falans annigonol, nodir swm cario ymlaen yr ased yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbriso wrth Gefn yn cynnwys elw adbriso a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithrediad ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwn yn cael eu cydgrynhoi i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### Diffyg

Asesir asedau ar bob diwedd blwyddyn ynghylch a oes unrhyw arwydd fod ased yn ddiffygiol. Cydnabyddir colled diffyg am y diffyg pan mae arwyddion yn bodoli. Amcangyfrifir unrhyw wahaniaethau posibl i fod yn sylweddol pan amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a phan mae hyn yn llai nai swm cario ymlaen yr ased.

Pan nodir colledion diffyg, fe'u cyfrifir fel a ganlyn:

- lle mae balans o elw adbriso am yr ased yn y Gronfa Adbriso wrth Gefn, nodir swm cario ymlaen yr ased yn erbyn y balans (hyd at swm yr elw cronedig)
- lle nad oes balans yn y Gronfa Adbriso wrth gefn neu falans annigonol, nodir swm cario ymlaen yr ased yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Os yw colled diffyg yn cael ei gwrthdroi wedi hynny, credydir y gwrthdro yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

### Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar holl asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiol dros eu bywydau defnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb unrhyw fywyd defnyddiol y gellir ei neilltuo (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Os oes gan ased gydrannau sylweddol gyda gwerth sylweddol, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cymhwyso'r cyfyngiadau isaf canlynol a chydabyddir cydrannau ar wahân dim ond pan:

- (i) Mae gweddill oes y gydran rhwng 0 a 10 mlynedd a gwerth y gydran dros £500k
- (ii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 10 a 15 mlynedd a gwerth y gydran dros £750k
- (iii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 15 ac 20 mlynedd a gwerth y gydran dros £1000k
- (iii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 20 a 30 mlynedd a gwerth y gydran dros £1250k
- (v) Mae gweddill oes y gydran rhwng 30 a 40 mlynedd a gwerth y gydran dros £1500k
- (vi) Mae gweddill oes y gydran rhwng 40 a 50 mlynedd a gwerth y gydran dros £2000k
- (vii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 50 a 60 mlynedd a gwerth y gydran dros £4000k

Math o Ased:	Polisi Dibrisiad:
Adeiladau	Wedi dibrisio dros yr oes disgwylidig fel y dywedodd y prisiwr ar drefn llinell syth a'u hailbrisio o leiaf pob 5 mlynedd
Offer Cyfrifiadurol	Llinell syth dros 3 i 5 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu.
Offer Cyffredinol, Dodrefn a Ffitiadau ac Offer Radio	Llinell syth dros 7 i 10 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu.
Cerbydau	Llinell syth dros 3-8 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu.
Tir	Nid oes dibrisiant ar dir heb ei ddatblygu.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn dibrisio. Mae swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbrisio wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### Gwaredu ac Asedau Anghyfredol sy'n cael eu dal i'w Gwerthu

Pan fydd yn dod yn debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased wedi'u dal i'w Gwerthu. Mae'r ased yn cael ei adbrisio yn union cyn iddo gael ei ailddosbarthu ac yna yn cael ei gario ar y gwerth isaf rhwng y swm hwn a'r gwerth teg llai'r costau i'w werthu. Pan fydd gostyngiad dilynol yn y gwerth teg llai'r costau i'w werthu, mae'r golled yn cael ei gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae enillion gwerth teg yn cael eu cydnabod yn unig hyd at swm

unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddir yn y Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Nid yw dibrisiant yn cael ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau yn diwallu'r meini prawf bellach i gael eu dosbarthu'n Asedau wedi'u dal i'w Gwerthu, byddant yn cael eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol. Byddant yn cael eu prisio ar begwn isaf eu swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau i'w gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddent wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel Wedi'u dal i'w Gwerthu). Cânt eu prisio hefyd ar eu swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Fe ddatgelir manylion unrhyw eiddo sydd wedi'u clustnodi fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu yn y Fantolen a'r nodiadau perthnasol.

Nid yw asedau sydd i gael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu dosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddiplomisiynu, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Cyfarpar, Offer neu'n Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu ar y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Credydir derbyniadau o warediadau (os oes rhai) i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu (h.y. net yn erbyn gwerth cario'r ased adeg y gwarediad). Mae unrhyw enillion ailbrizio cronedig ar gyfer yr ased sydd yn y Gronfa Ailbrizio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau a dderbyniwyd ar gyfer gwarediadau sy'n fwy na £10,000 yn cael eu categorio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'r balans o'r derbyniadau yn cael ei gredydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ac wedyn gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu ei neilltuo er mwyn lleihau angen sylfaenol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fenthycu – y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwaredion yn cael eu rhoi yn erbyn y dreth cyngor, gan fod cost asedau sefydlog yn cael ei ddarparu yn llawn ar ei gyfer o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff y symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

#### **17. Menter Cyllid Preifat (PFI)**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cytuno ar un cytundeb Menter Cyllid Preifat (PFI) tymor hir lle mae'r contractwr yn gyfrifol am gynllunio, adeiladu, cyllido a chynnal y Ddalfa, y Cyfleuster Digwyddiadau Sylweddol, y Cyfleuster Cefnogaeth Wyddonol a'r swyddfeydd yn Llanellwyr. Gan mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw rheolwr tybiedig y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun Menter Cyllid Preifat mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys yr asedau sefydlog a ddefnyddir o dan y contractau ar y Fantolen.

Mae'r gydnabyddiaeth wreiddiol am yr asedau sefydlog hyn wedi ei fantoli gan ddyled gyfatebol am y symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun.

#### **18. Darpariaethau, Dyledion wrth Gefn ac Asedau wrth Gefn**

Gwneir darpariaethau pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi gofyniad cyfreithiol neu adeiladol ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl pob tebyg i setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial y gwasanaeth, ac mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y ddyled.



Mae darpariaethau yn cael eu codi fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn ymwybodol o'r ddyled. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen ar y gwariant sydd ei angen i setlo'r ddyled, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau perthnasol a'r ansicrwydd.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maent yn cael eu rhoi yn erbyn y ddarpariaeth yn y Fantolen. Bydd y setliadau sydd wedi cael eu hamcangyfrif yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol lle y mae'n dod yn llai na thebygol y bydd yr angen am drosglwyddo buddion economaidd bellach yn ofynnol (neu setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud).

Pan ddisgwylir y bydd rhan neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adennill oddi wrth barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), cydnabyddir hwn fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol. Mae hyn dim ond os yw hi bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn pe bai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn setlo'r ddyled.

Mae'r yswiriant yn cwmpasu dyled yswiriant ar gyfer y risgiau hynny na yswirir yn allanol ac mae'r yswiriant hefyd yn cynnwys unrhyw dâl dros ben ar bolisiau yswiriant allanol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys risgiau cyhoeddus a chyflogwr. Mae yna hefyd rwymedigaethau digwyddiadol i'w talu o'r ddarpariaeth hon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus, a elwir bellach yn lwfansau colled, wedi'i chynnwys o fewn Dyledwyr mewn Asedau Cyfredol.

Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC), Cynllun Effeithlonrwydd Ynni – mae hwn yn gynllun gorfodol ar gyfer sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a phreifat ac mae wedi ei gynllunio i wella effeithiolrwydd ynni ac i leihau allyriadau. Mae'n ofynnol ar y sefydliadau sy'n gymwys i brynu ac ildio lwfansau carbon ar sail eu gollyngiadau a dylent gynnwys unrhyw ddyledion yn eu cyfrifon. Ar hyn o bryd nid oes rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymryd rhan yn y cynllun oherwydd bod ei allyriadau presennol yn is na'r trothwy cymhwyster.

#### Dyledion wrth Gefn

Mae dyled wrth gefn yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd o bosibl yn rhoi gofyniad ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gallant godi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth fel arall yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur natur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw dyledion wrth gefn yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon.

#### Asedau wrth Gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd o bosibl yn rhoi gofyniad ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Nid yw asedau wrth gefn yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddion economaidd neu bosibilrwydd o wasanaeth.

## 19. Cronfeydd wrth gefn

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo symiau penodol o gronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu ar gyfer argyfyngau. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu trwy briodoli symiau allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd. Pan fydd gwariant sydd angen ei dynnu o'r gronfa wrth gefn, bydd yn cael ei dalu yn y flwyddyn honno i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae'r gronfa wrth gefn wedyn yn cael ei neilltuo yn ôl i mewn i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd fel nad oes tâl net i dreth y cyngor am y gwariant yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Cronfeydd Annefyddadwy – cedwir rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer rheoli'r prosesau cyfrifyddu asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion ymddeol a buddion y gweithwyr ac nid ydynt yn adnoddau y gellir eu defnyddio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Eglurir mwy am y cronfeydd wrth gefn yn y polisiau perthnasol o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 20. Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud

Mae gwariant y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu ased anghyfredol yn cael ei drin fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthycyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y gwariant refeniw.

## 21. Cydnabod Refeniw o'r Trafodion Digyfnwid

Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion digyfnwid sy'n cael eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 – Cyfrifyddu ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ac eithrio lle y dehonglir neu addasir ef i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus, yn cael eu nodi yn y Cod a / neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnwid (Trethi a Throsglwyddiadau)."

**Trafodion trethiant** – Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trethiant yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y digwyddodd y digwyddiad trethadwy. Mae hyn ar yr amod bod yr asedau yn bodloni'r diffiniad o ased ac yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer eu cydnabod fel ased.

**Heb fod yn drafodion trethiant** – Asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trosglwyddo sy'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r trefniant trosglwyddo yn gyfrwymol. Nid yw gwasanaethau o fath arall yn cael eu cydnabod. Nid yw gwasanaethau mewn nwyddau yn cael eu cydnabod. Pan fydd trosglwyddiad yn ddarostyngedig i amodau, os heb eu cyflawni, y bydd yn ofynnol dychwelyd yr adnoddau trosglwyddo, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod ei ymrwymiad nes bod yr amod yn cael ei gyflawni.

**Sail y Mesur o Ddosbarthiadau Mawr o Refeniw o'r Trafodion Digyfnwid** – Mae trethiant refeniw yn cael ei fesur ar y gwerth nominal o arian parod ac arian parod cyfatebol. Mae asedau a refeniw a gydnabuwyd o ganlyniad i drosglwyddo yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg yr asedau a gydnabuwyd ar ddyddiad y gydnabyddiaeth:

- Mae asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth nominal oni bai bod gwerth arian yr amser yn berthnasol, ac yn yr achos yma mae gwerth presennol yn cael ei ddefnyddio, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt sy'n adlewyrchu risg gynhenid dal yr ased; ac
- Os nad ydynt yn asedau ariannol maent yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu drwy gyfeirio at werthoedd y farchnad weladwy neu drwy werthusiad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn

priso. Mae derbyniadau yn cael eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo rhwymol yn ei le ond nid yw arian parod neu asedau eraill wedi eu derbyn.

## **22. TAW**

Nid yw'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn cynnwys TAW gan fod unrhyw dreth a gesglir yn cael ei dalu i Gyllid a Thollau EF ac mae unrhyw TAW sydd wedi ei dalu yn cael ei hawlio'n ôl ganddynt. Ceir treth gyda gwerth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr dim ond os gellir ei gasglu.

## **23. Gwerth Teg**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur rhai o'i offerynnau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn o ganlyniad i werthu ased neu'n cael ei dalu i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn y farchnad a'r dyddiad mesur. Mae'r mesuriad gwerth teg yn cymryd bod y trafodyn i werthu'r ased neu drosglwyddo'r ddyled yn cymryd lle naill ai, yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu'r ddyled, neu yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu'r ddyled. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur gwerth teg ased neu ddyled gan ddefnyddio'r tybiaethau y byddai'r rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn eu defnyddio wrth brisio'r ased neu'r ddyled. Mae hyn gan gymryd bod y rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn gweithredu yn y modd mwyaf economaidd.

## Geirfa

### **Polisiâu Cyfrifyddu**

Dyma'r rheolau a'r codau ymarfer rydym yn eu defnyddio wrth baratoi'r cyfrifon.

### **Croniad a Blaendaliad**

Swm sy'n cael ei gynnwys yn y cyfrifon terfynol ar gyfer incwm a gwariant sy'n berthnasol i'r cyfnod cyfrifo ond a fydd yn/sydd wedi cael ei dalu/ei dderbyn mewn cyfnod cyfrifyddu gwahanol.

### **Cyllideb**

Datganiad o gynlluniau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn termau ariannol. Bydd y gyllideb yn cael ei pharatoi a'i chymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac fe'i defnyddir er mwyn monitro'r gwir wariant yn ystod y flwyddyn.

### **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant ar asedau newydd neu ar wella asedau sydd eisoes yn bodoli er mwyn ymestyn eu bywydau defnyddiol neu fwyhau eu gwerth ar y farchnad.

### **Derbynebaw Cyfalaf**

Enillion dim llai na £10,000 o werthu asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i dalu dyledion. Ni ellir eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant refeniw o ddydd i ddydd.

### **Dyledion/Asedau wrth Gefn**

Mae'r rhain yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol a'u hamseriad cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

### **Credydwy**

Symiau sy'n ddyledus gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 31 Mawrth am nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a roddwyd ond sydd heb gael eu talu.

### **Dyledwy**

Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd i'w casglu neu sydd heb eu talu ar 31 Mawrth.

### **Dibrisiant**

Dyma'r golled yng ngwerth yr ased oherwydd oed, traul, dirywiad a diffyg defnydd.

### **Ariannu'r Cyfalaf yn Uniongyrchol o'r Refeniw**

Cyfraniadau o'r refeniw i ariannu gwariant cyfalaf a thrwy hynny lleihau'r angen i fenthg arian.

### **Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd**

Dyma'r symiau a gedwir wrth gefn ar gyfer pwrpas penodol i dalu am ymrwymadau yn y dyfodol.

### **Gwerth Teg**

Y swm y gallai'r ased gael ei gyfnewid amdano, neu gallai rhwymedigaeth gael ei setlo, rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad penodol.

### **Offerynnau Ariannol**

Unrhyw gontract sy'n creu ased ariannol i un endid ac ymrwymadau ariannol, neu offeryn ecwiti i endid arall.

### **Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS)**

Y Safonau ar gyfer paratoi a chyflwyno datganiadau ariannol a grëwyd gan y Pwyllgor Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol.

### **Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'i cytunwyd gan broffesiwn cyfrifo'r DU a'r Bwrdd Safonau Cyfrifo. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arferion Cyfrifo'r Safonau (SSAPs).

### **Diffyg**

Gostyngiad yng ngwerth ased sefydlog sy'n is na'r hyn a nodwyd ar y pryd ar y fantolen (gweler y polisiau cyfrifyddu).

### **Adnoddau Hylifol**

Buddsoddiadau ased cyfredol sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd heb amharu ar ei fusnes ac y gellir naill ai eu trosi'n rhwydd i symiau penodol o arian parod neu sy'n agos at y swm cario, neu sy'n masnachu mewn marchnad weithredol.

### **Darpariaeth Refeniw Sylfaenol**

Y swm darbodus a ddarparwyd wedi ei osod yn erbyn benthyciadau o dan y fframwaith ariannol.

### **Dyled Net**

Benthyciadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd llai arian ac adnoddau hylifol.

### **Asedau Anghyfredol**

Asedau diriaethol sydd o fudd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i wasanaethau dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.

### **Cyfraddau Annomestig (NDR)**

Dyma'r tâl a godir ar ddeiliaid adeiladau busnes i ariannu cyfran o wariant refeniw lleol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu. Mae'r swm yn cael ei osod gan y Llywodraeth ganolog trwy ddefnyddio'r lluosydd sy'n berthnasol i'r gwerthoedd trethiannol. Mae'r lluosydd yn gyson trwy Gymru a rhennir y cyfanswm a gesglir gan y Llywodraeth ganolog.

### **Asedau Anweithredol**

Asedau sefydlog sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond sydd ddim yn cael eu meddiannu'n uniongyrchol na'u defnyddio na'u wrth gyflawni gwasanaethau.

### **Asedau Gweithredol**

Asedau sefydlog sy'n cael eu dal a'u meddiannu neu eu defnyddio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth i'r gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb statudol neu ddewisol amdanynt gael eu cyflwyno'n uniongyrchol.

### **Alldro**

Incwm a gwariant presennol yn ystod y flwyddyn ariannol (yn hytrach na'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb).

### **Menter Cyllid Breifat (PFI)**

Cytundeb rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd.

### **Praesept**

Arian a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy dreth y cyngor i dalu am wasanaethau.

### **Darpariaeth**

Dyled lle rhoddir arian i'r neilltu pan gydnabyddir fod rhwymedigaeth i dalu ond gall yr amseru neu'r swm fod yn ansicr.

### **Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) (rhan o Swyddfa Rheoli Dyledion y DU)**

Asiantaeth y llywodraeth sy'n cynnig benthyciadau tymor hir i awdurdodau lleol ar gyfraddau llog sydd ond fymryn yn uwch na'r cyfraddau y gall y llywodraeth fenthyca arnynt.

### **Taliadau**

Yr holl symiau a delir i unigolyn neu mae'n eu cael, ac mae'n cynnwys symiau treuliau (cyn belled â'u bod yn ôl gofynion treth incwm y DU) ac amcangyfrif o werth arian unrhyw fuddion eraill a dderbynnir gan weithiwr sydd ddim yn arian parod.

### **Cronfeydd wrth gefn**

Arian a roddwyd o'r neilltu i dalu am wariant cyffredinol yn y dyfodol. Gall y rhain fod yn gronfeydd defnyddiadwy ac yn gronfeydd anefnyddiadwy (cronfeydd sy'n cael eu cadw'n unol â thriniaethau cyfrifyddu).

### **Adbrisiant**

Fe'i cynhelir er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu dangos yn gywir yn y cyfrifon a hynny ar werth teg.

### **Gwariant Refeniw**

Gwariant ar eitemau dyddiol megis cyflogau, costau eiddo, trafnidiaeth a chyflenwadau a gwasanaethau.

### **Grant Cymorth Refeniw**

Grant a delir gan y llywodraeth ganolog i gynnal gwariant refeniw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### **Llithriant**

Gwariant cyfalaf gohiriedig na gafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen wreiddiol.

### **Benthyciadau â Chymorth**

Cymeradwyaeth a roddir gan y Llywodraeth sy'n galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fenthyg arian hyd at swm penodol er mwyn ariannu gwariant cyfalaf.

### **Benthyciadau Digymorth**

Benthyciadau wedi'u trefnu dan y drefn cod darbodus sy'n cael eu hariannu o adnoddau cyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### **Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy**

Incwm a geir o werthu asedau sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023

## Adran – 1 – Cefndir

- 1.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n ymestyn er mwyn adlewyrchu digwyddiadau o bwys sy'n ymestyn i'r cyfnod i lofnodi'r Datganiadau Cyfrifon ar 7 Rhagfyr 2023.
- 1.2 Mae llywodraethu yn ymwneud â sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysfawr, agored ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant, yr ymddygiad a'r gwerthoedd sy'n rheoli'r sefydliad a hefyd y gweithgareddau hynny y bydd y sefydliad yn ymgymryd â nhw er mwyn ymgysylltu â, a chael ei ddal yn atebol gan, y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn disgrifio sut y gall y sefydliad ddangos ei fod wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd statudol gyffredinol yn ystod 2022-2023:
  - Sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon a
  - Bod yn atebol am y modd y maen nhw a'r rhai hynny sydd dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth yn arfer eu swyddogaethau.
- 1.3 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu ar y cyd. Am y rheswm hwnnw felly mae llawer o'r rheolaethau'n gyffredin i'r ddwy gorfforaeth undyn. Barn bresennol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ydy bod y trosolwg ar y cyd hwn o lywodraethu sefydliadol yn parhau'r model mwyaf effeithlon ac effeithiol.
- 1.4 Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae Bwrdd Llywodraethu ar y Cyd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mae uwch swyddogion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn bresennol. Diben y Bwrdd Cyd Lywodraethu felly ydy galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Gwneir hyn drwy sicrhau bod strwythurau, prosesau a gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol SCHTh a'r Heddlu yn gadarn, yn effeithlon ac yn effeithiol. Sicrheir eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol a'u bod yn adlewyrchu arfer gorau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynorthwyo'r broses o gasglu a dogfennu tystiolaeth er mwyn cynorthwyo creu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.
- 1.5 Mae'r heddlu'n adolygu effeithiolrwydd ei Lywodraethu bob blwyddyn. Yn ystod 2019- 2020, comisiynwyd adolygiad sylweddol o lywodraethu gyda'r camau cysylltiedig wedi'u gweithredu erbyn mis Mawrth 2021. Digwyddodd adolygiad blynyddol dilynol yn 2021-22, gan adrodd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mehefin 2022. Arweiniodd hyn at fân newidiadau. Anogwyd adolygiad sylweddol pellach yn 2022-23 gyda'r canfyddiadau cychwynnol yn hysbys i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mehefin 2023.
- 1.6 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Lawlyfr Llywodraethu sy'n cynnwys Cynllun Caniatâd, sydd wedi bod mewn lle ers 1 Ebrill 2014. Mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson, gan gael ei ddiwygio'n fwyaf diweddar ym mis Ebrill 2022 a'i ail-gadarnhau ym mis Mai 2023 yn y Bwrdd Gweithredol Strategol. Nod y Cynllun ydy darparu trefniadau cywir ar gyfer rheoli gweithgarwch ar ran y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ac i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol ar ran y cyhoedd. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am gyfarwyddyd a rheolaeth amhleidiol pob swyddog heddlu a staff o fewn yr heddlu mae'n ei arwain ac mae'n gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal swydd o dan y Goron, ond fe'i penodir gan y Comisiynydd.
- 1.7 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod â Phrif Swyddogion Cyllid i ymgymryd â dyletswyddau adran 151 statudol. Mae Cydbwyllgor Archwilio (CA) wedi'i sefydlu. Diben y Cydbwyllgor ydy darparu cyngor annibynnol a gwneud argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl parthed digonoldeb y fframwaith llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol ac adroddiadau

ariannol. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl diweddaraf ar gyfer y cydbwyllgor archwilio yn adlewyrchu canllawiau CIPFA ym Mwrdd Gweithredol Strategol mis Mai 23.

- 1.8 Mae gan bob ardal heddlu Banel Heddlu a Throsedd i gefnogi arfer swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn effeithiol, ac adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel ar ei gynlluniau a'i gyllideb ar gyfer plismona, yn ogystal â lefel y dreth gyngor a phenodi Prif Gwnstabl, Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Cyllid a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r panel yn cynnwys deg cyngorydd lleol a thri aelod annibynnol a gyfetholwyd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Awdurdod Cartref ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac mae'n darparu'r gwasanaethau cefnogi gofynnol er mwyn gweithredu a chyflawni dyletswyddau'r Panel Heddlu a Throsedd.
- 1.9 Sefydlwyd strwythur gorchymyn ymateb Aur, Arian ac Efydd Covid-19 mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn mewn ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus o fewn yr Heddlu. Fe'i sefydlwyd yn rhanbarthol fel rhan o Fforwm Cadernid Lleol Gogledd Cymru gyda'r Grŵp Cydgysylltu Strategol (a oedd yn gyfrifol am arwain ar yr ymateb amlasiantaethol i Covid-19) sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth Aur yr Heddlu. Yn ystod 22-23, digomisynwyd strwythurau llywodraethu ymroddedig hefo strwythurau Llywodraethu Busnes Fel Arfer a barhaodd yn y fan a'r lle gan roi'r trosolwg angenrheidiol. Yn ystod 2021-22, lleihaodd risgiau Covid-19 i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn lle nad oedd risgiau ar y gofrestr risgiau Covid. Parhaodd hynny felly drwy gydol 2022-23 gan arwain at dynnu'r gofrestr. Mae gweithio hybrid bellach yn cael ei ystyried yn arferol o fewn y sefydliad. Mae adolygiadau o'i effeithiolrwydd i'w weld fel ag y byddent ar gyfer unrhyw faes Llywodraethu arall. Bu adolygiad o'i effeithiolrwydd yn 2022-23 hefo canfyddiadau lefel uchel yn hysbys i'r CA ym mis Medi 2023.
- 1.10 Bu asesiad annibynnol PEEL (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu) HMICFRS ym mis Mehefin 2022 ac fe adroddwyd amdano ym mis Chwefror 2023. Bu Arolygon HMICFRS eraill yn ystod 2022-23 gan roi craffu annibynnol i'r Heddlu. Mae cynnydd Meysydd i'w Gwella'n cael eu hysbysu'n rheolaidd drwy'r strwythur Llywodraethu.
- 1.11 Nododd 2020-21 y flwyddyn gyntaf i'r heddlu gynnal hunanasesiad o ran Cod Ymarfer Rheoli Ariannol CIPFA (FM). Yn ystod 2021-22, gwnaeth yr Heddlu ymgymryd â hunanasesiad dilynol. Ailadroddwyd hyn yn 2022-23.
- 1.12 Gwnaeth gweithgarwch Rheoli Mewnol, yn bennaf ar ffurf rhaglen Archwilio Mewnol TIAA, symud ymlaen dros y flwyddyn. Cyflwynwyd Rhaglen Archwilio Blynyddol drwy fodel hybrid.
- 1.13 Yn ystod 2021-22, gwnaed gwaith ynghylch Cynllunio a Chadernid Parhad Busnes y tu hwnt i effaith benodol Covid-19. Parhaodd y gwaith hwn i symud ymlaen yn ystod 2022-23.

## Adran 2 – Diben y Fframwaith Llywodraethu

- 2.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol. Sicrheir bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cedwir cyfrif cywir ohono ac y caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae arnynt ddyletswydd hefyd i benderfynu ar sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff eu swyddogaethau eu harfer.
- 2.2 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu eu busnes a'u cynorthwyo nhw arfer eu swyddogaethau, sy'n cynnwys sicrhau bod system reoli fewnol gadarn yn cael ei chynnal trwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau yn eu lle er mwyn rheoli risg. Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cydymffurfio'n bennaf â gofynion llywodraethu cyhoeddiad CIPFA sef [Rôl Prif Swyddogion Ariannol mewn Plismona](#) a [Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref](#) ar gyfer Heddluoedd Cymru a Lloegr ac Awdurdodau Tân ac Achub a grëwyd o dan Adran 4A Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (diwygiwyd yn




2018).

- 2.3 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch y mae'n atebol iddo, yn ymgysylltu ag o ac arwain ei gymunedau ag o. Mae'r fframwaith yn galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fonitro cyflawniad yr amcanion strategol ac ystyried a ydy'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau priodol a chost effeithiol ac wedi cyflawni gwerth am arian.
- 2.4 Mae'r system reoli fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw sydd wedi ei gynllunio er mwyn rheoli risg at lefel resymol a rhagweledol. Ni all atal yn gyfan gwbl y risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, nid diamod, o effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawniad nodau ac amcanion y sefydliad ac i werthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n troi'n realiti a beth fyddai eu heffeithiau, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

### Adran 3 – Y Fframwaith Llywodraethu

- 3.0.1 Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at gymeradwyaeth y Datganiad Cyfrifon. Mae strwythur llywodraethu lefel uchel yr heddlu wedi'i amlinellu yn Atodiad A. Mae'r strwythur llywodraethu y mae'r heddlu'n trosglwyddo iddo (yn dilyn yr adolygiad llywodraethu diweddar) i'w weld ar wahân.
- 3.0.2 Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gydnaws ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE: Cyflwyno Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a ddiweddarwyd yn 2016 ac sydd hefyd yn diwallu gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i newidiwyd, mewn perthynas â datganiad o reolaeth fewnol â chyhoeddiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Fframwaith CIPFA/SOLACE: Cyflwyno Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn gosod saith egwyddor o lywodraethu da sy'n gweithredu fel sylfaen i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni
- 3.0.3 Manylir trefniadau penodol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl o fewn y saith egwyddor isod:

Mae'r adrannau sy'n dilyn, yn adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar draws yr heddlu a'u digonolrwydd, gan groesgyfeirio'r adrannau a amlinellir ar y diagram uchod.



#### Adran 3.1 – Moeseg ac Uniondeb

- 3.1.1 Roedd 2022-23 yn flwyddyn arall o graffu cyhoeddus sylweddol o ran Moeseg ac Uniondeb i bob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Roedd y materion hyn yn ymddangos yn rheolaidd ar agenda cyfarfodydd strategol o fewn strwythur Llywodraethu'r heddlu. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr heddlu gynyddu lefelau buddsoddi yn ei Adran Safonau Proffesiynol gan gydnabod yr angen am dwf yn 2022-23. Dyrannwyd adnoddau ychwanegol hefyd er mwyn cynorthwyo Fetio.
- 3.1.2 Yn ystod 2022-23, cafodd pob heddlu'r gorchwyl o wirio eu swyddogion a'u staff o ran cronfeydd data cenedlaethol yr heddlu yn sgil achos David Carrick. Cwblhaodd Heddlu Gogledd Cymru ei wiriad yn ystod y flwyddyn, hefo'r adran Safonau Proffesiynol gan arwain y gweithgarwch dilynol ar gyfer yr heddlu.
- 3.1.3 Mae prosesau corfforaethol mewn lle er mwyn cynorthwyo egwyddorion craidd moeseg a gonestrwydd megis Protocol Plismona 2011 sy'n gofyn i bawb yn y sefydliad lynu at saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan). Yn ogystal, mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl sicrhau bod llywodraethu da wedi'i fewnosod o fewn y sefydliadau ac mae Cod Moeseg y Coleg Plismona yn gosod y safonau ymddygiad a ddisgwyllir ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes plismona.
- 3.1.4 Mae'r Cod Moeseg hwn a grëwyd gan y Coleg Plismona yn disgrifio'r egwyddorion mae disgwyl i bob aelod o'r proffesiwn plismona yng Nghymru a Lloegr eu cynnal a'r safonau ymddygiad mae disgwyl iddyn nhw eu bodloni.
- 3.1.5 Os oes toriadau i'r Cod Moeseg neu'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, mae dyletswydd gadarnhaol hysbysu'r materion hyn. Mae gan yr Heddlu adran Safonau Proffesiynol sy'n derbyn adroddiadau o'r fath. Mae'n sicrhau eu bod yn cael eu hymchwilio'n briodol ac yn unol â Rheoliadau'r Heddlu.
- 3.1.6 Mae Cod Ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Chod Moeseg y Prif Gwnstabl yn ategu'r safonau ymddygiad disgwylliedig. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl bolisiau a gweithdrefnau a rheoliadau mewn lle sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn cyd-fynd â'r safonau moeseg priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. Mae ystyriaethau moesegol yn rhan o unrhyw benderfyniadau busnes a wneir ac fe'u gosodir o fewn polisiau gweithredol o fewn y ddau sefydliad.
- 3.1.7 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Bolisi Gwrth Dwyll a Llygredigaeth a threfniadau chwythu chwiban mewn lle sy'n rheoli'r risg o dwyll a llygredigaeth yn effeithiol. Cynhelir a diweddarir prosesau ar gyfer datgan diddordeb a chofrestrfeydd ar gyfer rhoddion a lletygarwch yn ôl yr angen.
- 3.1.8 Gwnaeth y Cydbwyllgor Archwilio a'r Panel Heddlu a Throsedd ryddhau holl swyddogaethau'n llawn yn y cyhoeddiad CIPFA perthnasol ar gyfer Cydbwyllgorau Archwilio. Committees. Mae Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio i'w weld ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- 3.1.9 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd weithdrefnau mewn lle ar gyfer derbyn adborth am blismona yng Ngogledd Cymru, a phenderfyniadau a wneir gan neu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i swyddogion. Mae ganddo hefyd weithdrefnau mewn lle ar gyfer trin cwynion am y Prif Gwnstabl. Yn ogystal, mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn cyflawni eu dyletswyddau o ran cwynion a wneir am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel yr amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.
- 3.1.10 Er mwyn sicrhau bod materion moesegol a phenblethau sy'n digwydd ar bob lefel yn cael eu hystyried a'u trafod yn briodol, mae Strwythur Llywodraethu'r Heddlu yn cynnwys Pwyllgor Moeseg gyda gwahoddiad agored i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn bresennol. Gellir cyflwyno cyfng-gyngor moesegol yn ddiennw drwy safle Mewnwyd yr Heddlu neu drwy e-bost a chyhoeddir crynodeb o ganfyddiadau'r Pwyllgor ar safle Mewnwyd yr Heddlu ochr yn ochr â chael eu hadrodd i Uwch Reolwyr drwy'r strwythurau Llywodraethu i'w hystyried a'u myfyrio ymhellach yn ôl y gofyn. Yn ystod 2022-23,

cydlynwyd gwaith y Pwyllgor Moeseg gan gadeirydd annibynnol. Oherwydd bod y cadeirydd blaenorol wedi ildio'r sedd, penodwyd cadeirydd annibynnol newydd ym mis Hydref 2023. Mae adroddiad blynyddol y CA yn cynnwys sylw ar waith y pwyllgor moeseg. Mae datblygu gwaith y Cydbwyllgor er mwyn cynorthwyo'r maes hwn yn parhau'n ganolbwynt yn ei gynllun ymlaen.

### **Adran 3.2 – Didwylledd ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid**


- 3.2.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion pobl. Mae holl bapurau a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Hysbysir penderfyniadau i'r Panel Heddlu a Throsedd hefyd. Derbyniodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wobwr tryloywder CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd) am bum mlynedd yn olynol gyda'r dystysgrif olaf wedi'i rhoi ym mis Awst 2021. Tra nad ydy'r asesiad a'r dyfarniad hwn bellach ar gael, mae SCHTh yn parhau cael trefniadau mewn lle er mwyn asesu tryloywder cyhoeddi.
- 3.2.2 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd ar waith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a bodlonrwydd defnyddwyr, gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol. Mae'r heddlu'n cyhoeddi diweddariadau uniongyrchol rheolaidd drwy ei sianelau cymdeithasol a digidol. Mae hyn yn cynnwys Twitter, Facebook, Instagram a LinkedIn. Mae'n cynnig ymgysylltu drwy Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru sef gwasanaeth negeseuo cymunedol am ddim i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru.
- 3.2.3 Yn ystod 2022-23, cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymarfer ymgynghoriad cyllideb ar draws y rhanbarth gan gymryd ystod o gamau er mwyn cynyddu ymgysylltu o ran unrhyw gynnydd arfaethedig yn braesept ar gyfer 2023/24. Hysbysebwyd am yr ymarfer ymgynghori ar draws ystod o gyfryngau ac roedd yn cynnwys gallu ymgysylltu ar flaenoriaethau'r CHTh.
- 3.2.4 Mae'r Heddlu'n ymgysylltu hefo Grŵp Ymgynghori Annibynnol sy'n grŵp o aelodau cymunedol annibynnol sy'n gweithredu fel cyfaill beirniadol i Heddlu Gogledd Cymru ar faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- 3.2.5 Mae'r Heddlu'n mesur bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth gan ddefnyddio arolygon dioddefwyr. Mae hefyd yn edrych dros hyder y cyhoedd drwy fonitro ei ganlyniadau drwy Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr. Ar ben hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymgymryd â'i arolwg canfyddiadau cyhoeddus ynghyd â chynorthwyo dealltwriaeth ar faterion hyder a bodlonrwydd y cyhoedd.
- 3.2.6 Mae strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu mewn lle er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymatebol i faterion sy'n cael eu codi. Rydym yn cynnal arolygon yn rheolaidd i fwydo gwybodaeth i ddarpariaeth ein gwasanaeth ac i gynorthwyo i ddatblygu ein blaenoriaethau a'n hamcanion. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau ymgynghori mewnol ac allanol mewn lle a ddefnyddir i fwydo gwybodaeth ac i wella gwasanaethau.
- 3.2.7 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio mewn partneriaeth ac mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni amcanion cytûn. Maent yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn bodloni gofynion y sefydliadau. Caiff trefniadau partneriaeth a chydweithredu sydd ar waith eu monitro a'u hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei gyflawni a bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd yn nodweddiadol o'n proses recriwtio ar gyfer swyddi uwch. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynychu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn aml.
- 3.2.8 Mae gennym swyddogaeth graffu, wedi'i hategu gan dystiolaeth a dadansoddiad data, er mwyn herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn modd adeiladol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio mewn

partneriaeth â'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r holl benderfyniadau allweddol a wneir yn cynnwys effaith ariannol, effaith gyfreithiol, effaith ar gydraddoldeb ac asesiad risg gyda'r strwythurau Llywodraethu ar waith gan ddarparu amlygrwydd o'u cylch. Roedd hyn yn parhau i fod yn wir yn ystod 2022-23.

- 3.2.9 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynychu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn aml.
- 3.2.10 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn craffu ymhellach. Mae'n rhoi ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol gyda phapurau pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Yn ystod 2022-23, mae wedi parhau darparu craffu a herio annibynnol mewn nifer o feysydd gan gynnwys sylw parhaus ar ddatblygu eglurder ein datganiadau ariannol; tryloywder o ran ein sefyllfa ariannol a chyflawni rhaglen gyfalaf yr heddlu; gweithredu rheoli risgiau corfforaethol allweddol ac o ran i ffrydiau gwaith Digidol a Thechnoleg parhaus yr Heddlu.
- 3.2.11 Nodir meysydd o dan sylw pellach yn adroddiad blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y CHTh.
- 3.2.12 Swydd Prif Weithredwr i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw rôl y Swyddog Monitro ac mae trefniadau er mwyn cofnodi unrhyw gyngor proffesiynol angenrheidiol ar gyfer meysydd arbenigol. Yn ogystal, gwnaeth Prif Swyddogion Ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gydymffurfio â datganiad CIPFA sef 'the Role of the Chief Financial Officer in Policing'.

### Adran 3.3 – Diffinio Canlyniadau

- 3.3.1 Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, fel rhan o'r broses cynllunio strategol, yn datblygu strategaethau a chynlluniau ysbrydoledig sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, sy'n gynaliadwy ac yn ystyried lefel yr adnoddau angenrheidiol i'w cyflawni'n ddigonol.
- 3.3.2 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gosod yr amcanion heddlu a throsedd ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd wedi ei drosglwyddo i'r cyhoedd trwy'r wefan a thrwy nifer o weithgareddau ymgysylltu. Ceir crynodeb cyflawni yn y daflen treth gyngor a anfonwyd i bob cartref, naill ai ar ffurf electronig neu drwy'r post. Rhoddir darn isod:



- 3.3.3 Datblygwyd amcanion, blaenoriaethau ac opsiynau ariannol yr heddlu a throsedd o weledigaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a dadansoddiad ar y cyd o'r canlynol: Asesiad o'r trosedd a'r lefel gwasanaeth sy'n ofynnol; Ymgynghoriad gyda phobl leol; Ymgynghoriad gyda phartneriaid; Ymgynghoriad rhwng y Comisiynydd Heddlu

a Throsedd a'r Prif Gwnstabl; Canfyddiadau archwiliad allanol ac adolygiadau gan asesiadau risg Swyddfa Archwilio Cymru a HMCIFRS.

- 3.3.4 Caiff amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu cyfeirio a'u cyflawni gan y Prif Gwnstabl, ac yn ei dro, gan y Bwrdd Cynllunio Strategol (SMB) yn ystod y flwyddyn. Dyrennir adnoddau yn erbyn y cynllun fel rhan o broses gynllunio strategol flynyddol yr Heddlu. Mae'n ystyried gofynion galw ac adnoddau yn erbyn pob ardal gan ystyried asesiadau galw manwl (drwy Ddatganiad Rheoli'r Heddlu). Arweiniodd y broses gydlynol hon am gynllunio strategol a thymor canolig at gyllideb 2022/23 yn cael ei gosod hefo cynnydd yn y dreth gyngor o £11.25 y flwyddyn ar gyfer eiddo cyfatebol Band D. Defnyddiwyd y cynnydd er mwyn buddsoddi a gwella gwasanaethau Gogledd Cymru. Cefnogwyd cynnig y CHTh gan y Panel Heddlu a Throsedd. Roedd yn seiliedig ar nodi arbedion er mwyn mantoli'r gyllideb wrth hefyd cynyddu niferoedd Swyddogion oherwydd cyllid y Llywodraeth ar gyfer Ymgyrch Uplift.
- 3.3.5 Mae'r Heddlu'n monitro cyflawniad o ran defnyddio ei fframwaith Cerdyn Sgorio Cytbwys gydag adrodd wrth uwch reolwyr, y Prif Swyddogion a'r CHTh yn rheolaidd. Caiff cyflawniad y Comisiynydd ei fonitro a'i hysbysu o fewn yr Adroddiad Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifon a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei dro.
- 3.3.7 Y Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) ydy'r fforwm cyhoeddus ar gyfer craffu'r Prif Gwnstabl gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mae cofnodion gweithredu pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi. Mae swyddogaethau ychwanegol y Bwrdd yn cynnwys:
- Gwneud penderfyniadau fel bo'r angen gan y Cynllun Llywodraethu, i'w cymryd ar y cyd gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl; a
  - Datblygu cynigion ar gyfer cyflawni amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd fel y nodir yn y Cynllun
- 3.3.7 Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) a'r Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) yn craffu ar gyflawniad gweithredol ac ariannol, cyflawni gwasanaeth a chyflawni'r amcanion heddlu a throsedd. Mae rhaglen ar gyfer cyflawni cynlluniau mewn lle trwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol (SMB). Mae'r byrddau hyn wedi parhau cyfarfod ar yr amllder arferol ar gyfer 2022-23 hefo cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell gan ddefnyddio technoleg briodol er mwyn sicrhau eu bod yn digwydd. Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yna'n craffu gwaith y CHTh o gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

### **Adran 3.4 – Pennu Ymyriadau**

- 3.4.1 Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd yn y modd gorau posibl, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn darparu gwasanaethau sy'n dangos effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- 3.4.2 Cynhelir cynlluniau adnoddau manwl yn flynyddol ac maent yn cael eu cyhoeddi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r risg hwn yn asesu gofynion adnoddau yn seiliedig ar ragdybiaethau priodol er mwyn galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl er mwyn blaenoriaethu galwadau cystadleuol am wasanaethau.
- 3.4.3 Mae'r cylch cynllunio strategol a gweithredol blynyddol yn ystyried y lefel ddisgwyliedig o adnoddau sy'n ofynnol ac yn nodi lle mae angen arbedion, gostyngiadau a thwf. Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu, sy'n ystyried y galw mae'r heddlu'n ei wynebu rwan ac yn y dyfodol ac asesiadau risg sy'n defnyddio Rheoli Risg mewn Gorfodi'r Gyfraith (MORILE) yn cael eu hystyried hefyd. Mae'r cynlluniau ariannol o ganlyniad yn cael eu monitro drwy'r Bwrdd Rheoli Strategol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl.
- 3.4.4 Ynghyd â sefydlu cyllidebau'r refeniw, mae'r broses cynllunio blynyddol hefyd yn cynnwys adolygiad o raglen Cyfalaf yr Heddlu. Mae'n rhoi'r sail ar gyfer Strategaeth Gyfalaf yr Heddlu ar gyfer adolygiad dilynol gan y

Cydbwyllgor Archwilio. Mae byrddau rhaglen a phrosiect mewn lle sy'n monitro gweithredu a chyflawni'r the mentrau a chynlluniau a gytunwyd. Sefydli'r y rhain er mwyn cynorthwyo penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol gyda rhaglenni fel Trawsnewid Digidol a Thrawsnewid y Gweithlu yn hanfodol er mwyn cyflawni strategaethau sefydliadol yn gyffredinol. Mae gwneud penderfyniadau wedi'i ddatganoli er mwyn galluogi gweithrediad hyblyg ac ymatebol a gwell deilliannau. Caiff atebolrwydd ei gyflawni drwy'r strwythur a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith. Mae camau gweithredu a phenderfyniadau wedi'u cofnodi'n glir mewn cyfarfodydd ac a symudwyd ymlaen yn ystod 2022-23.


- 3.4.5 Ar ben y broses Cynllunio Strategol creiddiol, lansiodd y Prif Gwnstabl y Rhaglen Optimeiddio ar gyfer yr Heddlu. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys edrych dros fodel gweithredu a phrosesau'r Heddlu hefo'r bwriad o gymhell cyflawniad gweithredol, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr heddlu. Bydd yn parhau i ddatblygu ei allbynnau i 2023-24.
- 3.4.6 Mae'r Uned Cynllunio Strategol yn adran sy'n ymgymryd â dadansoddi, ymchwilio a gwella a gwerthuso gweithgarwch ar draws y sefydliad. Mae ei allbynnau'n cynorthwyo hysbysu strategol, gweithredol, corfforaethol a chyflawniad. Mae hyn yn caniatáu mwy o ddadansoddi cadarn i'w ymgymryd ar unrhyw ran o'r sefydliad drwy ddefnyddio technegol amrywiol er mwyn cynorthwyo gwneud penderfyniadau tactegol a strategol a chynorthwyo technegau datrys problemau.

### **Adran 3.5 – Datblygu Arweinyddiaeth**

- 3.5.1 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau penodol o fewn y sefydliadau er mwyn galluogi arweinyddiaeth effeithiol. Caiff yn ei gefnogi gan y Canllaw Llywodraethu sy'n amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hanfodol er mwyn galluogi'r strategaethau a'r cynlluniau sydd mewn lle i gael eu gweithredu.
- 3.5.2 Mae cynllun caniatâd cytûn mewn lle sy'n ffurfioli swyddogaethau a dirprwyo rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn ei dro, mae Cynllun Dirprwyo o'r Prif Gwnstabl i Brif Swyddogion. Yn eu tro, ceir llythyrau dirprwyo yn amlinellu'r cyfrifoldebau ariannol sy'n cael eu datganoli i rolau penodol gan eu grymuso nhw wneud penderfyniadau'n briodol.
- 3.5.3 Ein pobl yw ein buddsoddiad mwyaf. Rydym yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi a datblygu aelodau a swyddogion ar gael er mwyn cadw gwybodaeth yn gyfredol, gan gynnwys unrhyw ofnion datblygiad proffesiynol. Mae ein prosesau recriwtio a chynllunio olyniaeth yn sicrhau ein bod yn penodi'r bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i rolau o fewn y sefydliad. Roedd canolbwytio ar ein cynnig lles, dysgu a datblygu i'n pobl yn parhau yn faes canolbwytio allweddol yn ystod 2022-23.
- 3.5.4 Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd yr Heddlu ei gwrs Arweinyddiaeth Gefnogol. Mae hwn yn gwrs arweinyddiaeth wedi'i gyflwyno hefo mewnbyn gan Brifysgol Durham, sydd hefo'r nod o ddatblygu diwyllianau cynhwysol a chynorthwyol sy'n cynorthwyo cymell cynhyrchiant. Mae hwn yn gwrs gorfodol wedi'i anelu at oruchwylywyr a fydd yn parhau i flynyddoedd ariannol y dyfodol. Parhaodd yr heddlu ei weithgarwch o ran Mentora Hyfforddiant a Chronfeydd wrth Gefn.
- 3.5.5 Mae telerau ac amodau a bennir yn genedlaethol yn bodoli ar gyfer swyddogion a staff sydd â graddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt a system gwerthuso swyddi ac mae gennym fframwaith rheoli perfformiad y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ei ddefnyddio er mwyn asesu cyflawniad a mynd i'r afael ag unrhyw welliannau sydd eu hangen.
- 3.5.6 Mae gan yr Heddlu broses ADP electronig. Yn ystod 2022-23, cafodd y lefelau cwblhau eu monitro a'u hadrodd drwy'r strwythurau llywodraethu. Mae cwblhau ADP bellach yn gysylltiedig hefo'r Safonau Cynnydd Cyflog sy'n un o'r nifer o ffrydiau gwaith sy'n rhan o weithgarwch diwygio cyflog cenedlaethol.

### Adran 3.6 – Rheoli Risgiau a Monitro Cyflawniad

- 3.6.1 Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan hanfodol o'r system rheoli cyflawniad o fewn y ddau sefydliad. Mae'r broses rheoli risg yn gosod sylfaen i'r trefniadau rheolaeth ariannol a'r prosesau llywodraethu. Mae'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau a fwriedir ac yn cynorthwyo ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru fwy diogel.
- 3.6.2 Mae'r isod yn cynrychioli'r 7R a'r 4T rheoli risg fel y nodir yn yr ISO31000. Parhaodd trefniadau risg HGC ddilyn y model hwn yn 2022-23.



- 3.6.3 Parhaodd gosod diwylliant rheoli risg ar draws y sefydliad ar bob lefel gael ei ddatblygu a'i ychwanegu yn ystod 2022-23. Mae cofrestrau risg corfforaethol ac ar gyfer meysydd unigol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd a'u hadrodd yn ôl i bwyllgorau a byrddau ar draws y sefydliad. Mae rheoli risg yn eitem reolaidd ar yr agenda ar bob bwrdd allweddol ar draws yr Heddlu.
- 3.6.4 Mae ein cynlluniau, ein prosesau a'n polisiau yn cael eu llunio gan roi sylw dyledus i'r risgiau a nodwyd, gyda Datganiad Rheoli'r Heddlu yn cael ei ysbrydoli drwy asesiad MORILE ar gyfer pob maes o'r heddlu. Goruchwyli'r y maes yn bennaf gan y Bwrdd Sicrwydd. Mae fframwaith partneriaeth mewn lle er mwyn sicrhau bod unrhyw bartneriaethau'n cael eu rheoli'n briodol gan gynnwys rheoli risg.
- 3.6.5 Mae'r risgiau strategol a'r Mae risgiau strategol a'r broses rheoli risg yn cael eu goruchwyllo a'u monitro gan y Cydbwyllgor Archwilio. Gall aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio adolygu pob risg er mwyn sicrhau tryloywder. Parhaodd y Cydbwyllgor Archwilio roi her a chymorth er mwyn gwella ein prosesau rheoli risg yn ystod 2022-2023. Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer aelodau yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rennir. Edrychwyd dros a diwygiwyd y ddogfen Parodrwydd Risg lle mae'n briodol ar gyfer 2022-23. Cytunwyd yng nghyfarfod Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl.
- 3.6.6 Mae'r rhaglen waith ar gyfer edrych dros y risgiau hyn yn cael ei datblygu ar y cyd gyda'r cydbwyllgor archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r sicrwydd priodol angenrheidiol. Yn ystod 2022-23, mae nifer o adroddiadau at wraidd y mater wedi'u gwneud er mwyn craffu ar benderfyniadau allweddol a chamau rheoli sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â risgiau corfforaethol yr Heddlu. Roedd y rhain yn y meysydd canlynol: Rhaglen Gyfalaf, Iechyd a Diogelwch, Strategaeth Cyrchu TGCh, Trawsnewidiad Digidol, Rhaglen NEP a digonoldeb cyllid ariannol.

- 3.6.7 Mae'r Heddlu wedi sefydlu prosesau a llywodraethu mewn lle er mwyn sicrhau mai Uniondeb Data Trosedd ydy pwnc adolygiad parhaus llym. Mae hyn er mwyn sicrhau fod trosedd a digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir. Mae hwn yn destun craffu HMICFRS fel sy'n briodol. Rhennir diweddariadau ar Feysydd HMICFRS i'w gwella hefyd hefo'r Cydbwyllgor Archwilio.
- 3.6.8 Mae Archwilio Mewnol yn asesu digonoldeb ein rheoliadau mewnol ac yn adrodd yn llawn i'r Cydbwyllgor Archwilio annibynnol. Mae archwiliad mewnol ac allanol wedi archwilio ac adrodd ar gydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol a rheolaethau mewnol.
- 3.6.9 Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol a gadeirir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Bwrdd Rheoli Strategol o dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl yn craffu cyflawniad gweithredol ac ariannol, cyflawniad gwasanaeth a chyflawni amcanion yr heddlu a throsedd. Roedd y cyfarfodydd yn ystod 2022-23 yn cynnwys diweddariadau cyflawniad ehangach ynghyd ag 'adroddiadau at wraidd y mater' mewn meysydd penodol lle'r oedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dymuno gweithredu mwy o graffu.
- 3.6.10 Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisiau diogelu data a diogelwch gwybodaeth sy'n cael eu gwerthuso a'u hategu'n rheolaidd gyda rhaglen hyfforddi ar gyfer yr holl staff. Mae ein swyddogaeth Archwilio Mewnol a HMICFRS yn darparu craffu cyfnodol pellach yn y maes hwn.
- 3.6.11 Mae protocolau rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a chyda'n partneriaid.

### **Adran 3.7 – Arddangos Atebolrwydd Effeithiol**

- 3.7.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefo Dyletswydd Statudol er mwyn creu a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu cyflawniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir hon ar wefan y CHTh. Defnyddir templedi adrodd safonol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi mewn modd effeithlon ond digonol, ac mae hyn yn ysbrydoli'r adroddiad blynyddol.
- 3.7.2 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ymwneud â chyflawni gwasanaethau yn atebol iddyn nhw trwy'r prosesau sydd mewn lle yn y ddau sefydliad. Mae'r fframwaith Llywodraethu a'r fframwaith rheolaeth fewnol cysylltiedig yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer cadw golwg ar y penderfyniadau allweddol sy'n cael eu gwneud. Mae dogfennau dirprwyo ariannol yn rhoi sail eglur atebolrwydd ar gyfer cyllidebau Refeniw a Chyfalaf.
- 3.7.3 Mae gwefannau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan sicrhau bod y tryloywder sydd ei angen er mwyn sicrhau bod atebolrwydd allanol yn effeithiol mewn lle. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio ac mae ganddo fynediad uniongyrchol at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a'r aelodau. Mae argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gweithredu ac yn cael eu hadrodd i'r cydbwyllgor.
- 3.7.4 Ym mis Chwefror 2023, gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ryddhau adroddiad a edrychodd ar fynychder achosion casineb at ferched yn yr Heddlu, y nifer o achosion o dan ymchwiliad a'r mesurau mewn lle er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau fetio swyddogion yn gywir. Rhoddwyd sail atebolrwydd a llwyfan er mwyn gwella ymddiriedaeth, hyder a chyfreithlondeb y sefydliad.
- 3.7.5 Cynhelir adolygiadau ac archwiliadau annibynnol ac allanol yn rheolaidd gan gyrff rheoleiddio. Mae'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, ac unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu gweithredu. Yn ystod 2022-23, roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau arolwg PEEL HMICRS ac Arolygon AHM eraill ar gyfer HGC.



## **Adran 4 – Adolygiad Effeithiolrwydd**

- 4.0.1 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyfrifoldeb am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn flynyddol o leiaf, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.
- 4.0.2 Caiff yr adolygiad effeithiolrwydd ei ysbrydoli gan waith y rheolwyr gweithredol. Maent yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchfyd llywodraethu. Caiff ei ysbrydoli hefyd gan adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol, y Panel Heddlu a Throsedd, y Cydbwyllgor Archwilio ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill.
- 4.0.3 Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o'r adolygiad isod:

### **Adran 4.1 – Bwrdd Cyd Lywodraethu**

- 4.1.1 Mae Bwrdd Cyd Lywodraethu'n bodoli fel rhan o'n fframwaith llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod ni'n edrych dros ein trefniadau llywodraethu am effeithiolrwydd, a chydymffurfiaeth a gwneud argymhellion ar gyfer eu datblygiad yn ôl yr angen. Ceir Cylch Gorchwyl y bwrdd yn Atodiad B. Parhaodd y bwrdd hwn gyfarfod yn chwarterol yn ystod 2022-23 hefo agendâu wedi'u strwythuro ynghylch ei raglen waith.
- 4.1.2 Roedd meysydd Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg yn destun craffu a herio parhaus drwy'r Bwrdd Cyd Lywodraethu (a'r Cydbwyllgor Archwilio) yn ystod 2022-2023. O ganlyniad, mae'r ymdriniaeth yn y ddau faes wedi parhau i ddatblygu dros y flwyddyn.
- 4.1.3 Mae'r Heddlu'n parhau cael Llawlyfr Llywodraethu mewn lle sy'n parhau'n gyfredol a'i gymeradwyo gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Roedd Cynllun Caniatâd ar waith trwy gydol y flwyddyn ariannol. Cytunodd bob un o'r Uwch Swyddogion a enwir o fewn y Cynllun a'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Cynllun.

### **Adolygu Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Llywodraethu**

- 4.1.4 Yn ystod 2022-23, comisiynodd yr Heddlu adolygiad o'i fframwaith llywodraethu. Aeth cylch gorchwyl yr adolygiad hwn tu hwnt i'n hadolygiad blynyddol arferol ni. Yr adolygiad a adroddwyd i dîm y Prif Swyddogion ym mis Gorffennaf 2023.
- 4.1.5 Nod yr adolygiad oedd sicrhau fod yr Heddlu'n parhau hefo trefniadau llywodraethu effeithiol ac effeithlon mewn lle. Bod Heddlu Gogledd Cymru'n taro'r cydbwysedd gorau posibl rhwng sicrwydd a roddir gan lywodraethu ffurfiol a chyflawni a gwneud penderfyniadau effeithiol. Bod gan Heddlu Gogledd Cymru strwythur cyfarfod clir a oedd yn gydnaws â meysydd blaenoriaeth yr Heddlu. Yn olaf, fod yr Heddlu'n manteisio ar dechnoleg a gwybodaeth sydd ar gael er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau a lleihau galw a dyblygu.
- 4.1.6 Ymgwymerwyd â'r adolygiad wrth i Arweinydd Llywodraethu a Pholisi'r Heddlu adrodd i'r Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes, Arweinydd Gwasanaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
- 4.1.7 Ystyriodd yr adolygiad arfer da cenedlaethol o'r Heddluoedd hynny a oedd wedi derbyn gradd ragorol yn adran Cynllunio Strategol, Rheoli Sefydliadol a Gwerth am Arian PEEL ac adborth gan randdeiliaid mewnol.
- 4.1.8 Gan ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad, gwnaed 11 argymhelliad wedi'u hanelu at alluogi'r Heddlu gryfhau a gwella ei drefniadau llywodraethu ac optimeiddio ei broses gwneud penderfyniadau drwy ychwanegu at arfer cadarnhaol presennol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys.

1. Dylai'r Heddlu greu cyfres o Egwyddorion Llywodraethu clir er mwyn amlinellu sut y dylid gweithredu llywodraethu yn ymarferol.

2. Dylai'r Heddlu ymestyn y cynllun dirprwyo presennol er mwyn cynnwys ffiniau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer bob lefel awdurdod.
3. Dylai'r Heddlu unioni'r strwythur llywodraethu hefo Cynllun Strategol yr Heddlu gan ddefnyddio'r tair colofn fel y strwythur cyflawni sylfaenol.
4. Dylai'r Heddlu gyflwyno Cyfarfodydd Portffolio rheolaidd ar gyfer Prif Swyddogion er mwyn derbyn sesiynau briffio priodol ar faterion sy'n peri pryder/meysydd o ddiddordeb iddyn nhw.
5. Dylai'r Heddlu sicrhau bod hysbysu am gyflawniad yn eglur ar Strwythur Llywodraethu'r Heddlu ac yn unol â'r fframwaith cyflawniad.
6. Dylid cyflwyno cyfarfodydd cyflawniad ar lefel Maes Gwasanaeth a'u hunioni â Gweledigaeth yr Heddlu a Chynllun Strategol yr Heddlu.
7. Dylid defnyddio Adolygiadau Datblygu Perfformiad er mwyn sicrhau bod holl aelodau staff yn unioni â Gweledigaeth yr Heddlu a Chynllun Strategol yr Heddlu.
8. Dylai'r Heddlu gyfuno'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Bwrdd Uwch Arweinyddiaeth er mwyn cael bwrdd gweithredol misol.
9. Dylid cyflwyno'r cysyniad o gyfarfodydd Llywodraethu Craidd, hefo cyfarfodydd yn syrthio tu allan i hyn, wedi'i reoli ar ddisgresiwn Meysydd Gwasanaeth.
10. Dylai Arweinydd Polisi a Llywodraethu'r Heddlu fod yn borthor er mwyn goruchwyllo paratoi agendau a phapurau ategol ar gyfer cyfarfodydd gweithredol, arweinyddion colofnau a chyflawni colofnau.
11. Dylai'r Heddlu baratoi pecyn cymorth cyfarfodydd sy'n cynnwys yr egwyddorion llywodraethu, cynllun dirprwyo, templedi corfforaethol a datganiad parodrwydd risg i'w ddefnyddio fel canllaw cyfeirio ar gyfer arweinyddion presennol ac i'r rhai hynny sydd newydd eu dyrchafu.

4.1.9 Mae sawl argymhelliad wedi'u gweithredu. Mae gwaith yn parhau er mwyn gweithredu'r rhai sy'n weddill. Y bwriad ydy gweithredu'r holl argymhellion erbyn diwedd 2023.

### **Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**

4.1.10 Yn ystod 2022-23, mae'r cynllun gweithredu a nodwyd fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi symud ymlaen. Ceir diweddariad o ran y gweithrediadau hyn yn Atodiad D isod. Ond mae'r holl weithrediadau wedi symud ymlaen. Tra mae peth o'r gwaith cysylltiedig yn parhau, gellir marcio'r gweithrediadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel cyflawn.

### **Hunanasesiad Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA**

4.1.11 Yn ystod 2022-23, bu hunanasesiad blynyddol arfer rheoli ariannol yr Heddlu o ran Cod Rheoli Ariannol CIPFA. Daeth yr asesiad i'r canlyniad fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cydymffurfio gyda'r Cod. Adroddwyd ar ganfyddiadau'r asesiad hwn i ddechrau i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ac wedyn i'r Cydbwyllgor Archwilio.

### **Adran 4.2 – Archwilio Mewnol**

4.2.1 Paratowyd cynllun Archwilio 2022-23 ar sail risg hefo trosolwg o'r Cydbwyllgor Archwilio.

- 4.2.2 Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cydbwyllgor Archwilio adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ('TIAA') ar eu rhaglen arolygu y cytunwyd arni. Adolygodd gynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiadau. Yn ystod 2022/23, nid chodwyd materion sylweddol gan y Cydbwyllgor i'r SCHTh neu Brif Gwnstabl HGC ('PGHGC') yn deillio o'r maes gwaith hwn.
- 4.2.3 Mae'n werth nodi y gall newidiadau i'r cynllun ddigwydd yn ystod y flwyddyn. Digwyddodd hyn yn 2022-23 gyda'r Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hysbysu ac yn cytuno iddynt yn y pen draw. Yn fwy penodol ar gais y Rheolwyr, gohiriwyd yr archwiliad Ymgysylltiad Cymunedol i 2023-24 oherwydd cymaint o debygolrwydd hefo archwiliad yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a raddiwyd yn Sylweddol. Gohiriwyd archwiliad Asedau Sefydlog TGCh Cydweithredol i 2023-24 oherwydd cyflwyno model gweithredu targed newydd i blith ein tîm Technoleg. Ceir dyddiad dechrau cytundeb sef 01/04/2023. Bydd hwn bellach yn archwiliad HGC yn unig yn 2023-24. Gohiriwyd Rheoli Newid TGCh hefyd tan 2023-24.
